



Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

# **Adolygiad Barnwrol**

Cynigion i ddiwygio ymhellach





## **Adolygiad Barnwrol**

### Cynigion i ddiwygio ymhellach

Cyflwynwyd i'r Senedd  
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder  
ar Orchymyn Ei Mawrhydi

Medi 2013

**© Hawlfraint y Goron 2013**

Gallwch ail-ddefnyddio'r wybodaeth yma (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/> neu e-bostiwch: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Lle'r ydym wedi nodi deunydd gyda hawlfraint gan drydydd parti, bydd angen ichi ofyn am ganiatâd gan y sawl sy'n dal yr hawlfraint honno.

Dylid anfon unrhyw ymholiad ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn [admin.justice@justice.gsi.gov.uk](mailto:admin.justice@justice.gsi.gov.uk)

Gallwch lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn o [www.justice.gov.uk](http://www.justice.gov.uk)

ISBN: 9780101870320

Argraffwyd yn y DU gan The Stationery Office Limited ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi  
ID 2586463 09/13

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi'i ailgylchu.

## Cynnwys

Rhagair	3
1. Rhagarweiniad	5
2. Cefndir	12
3. Cynllunio	15
4. Cymhwyster	22
5. Diffygion Gweithdrefn	27
6. Dyletswydd Gydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r Adolygiad Barnwrol	30
7. Cydbwyso Cymhellion Ariannol	31
8. Neidio	47
9. Asesiad o Effaith ac Effeithiau ar Gydraddoldeb	52
10. Crynodeb o'r Cwestiynau	55
Amdanoch chi	60
Manylion cyswllt / Sut i ymateb	61
Egwyddorion Ymgynghori	63

---



## Rhagair

Mae adolygiad barnwrol yn rhoi cyfle i unigolion, busnesau ac eraill ofyn i'r llys ystyried a yw adran o'r llywodraeth, er enghraifft, wedi mynd y tu hwnt i'w phwerau, a yw awdurdod lleol wedi dilyn proses gyfreithlon neu a gyrhaeddodd gorff hyd-braich benderfyniad rhesymol. Felly mae'n brawf hollbwysig i sicrhau gweinyddiaeth gyhoeddus gyfreithlon.

Ond mae'r defnydd o adolygiad barnwrol wedi ehangu'n aruthrol yn y blynyddoedd diwethaf ac mae rhai'n ei gam-ddefnyddio. Mae'r Llywodraeth yn poeni am yr amser a'r arian sy'n cael ei wastraffu'n delio ag achosion annheilwng a allai gael eu dwyn dim ond i greu cyhoeddusrwydd neu i ohirio gweithredu penderfyniad a wnaed yn gwbl briodol. Hefyd, mae cyfran helaeth o'r ceisiadau gwan hyn yn cael eu hariannu gan y trethdalwr - drwy'r gost a achosir gan yr awdurdod cyhoeddus sy'n amddiffyn ei hun, yr adnoddau llys a dreulir ac, mewn rhai achosion, drwy gymorth cyfreithiol neu wrth i'r awdurdod lleol orfod talu costau cyfreithiol yr hawlydd. Mae hyn yn anghynladwy, yn enwedig pan gaiff adolygiadau barnwrol eu dwyn gan grwpiau sy'n chwilio am ddim byd mwy na phenawdau rhad.

Mae angen i ni feddwl am yr effaith y mae'r adolygiadau barnwrol hyn yn ei gael ar y wlad yn gyffredinol. Mae angen egni a thwf arnom, nid oedi a chost. Mae arnom hyn i'r trethdalwr, i ddiwydiant ac i'r bobl sy'n chwilio am waith. Mae defnyddio amser y llys ac arian cyhoeddus i wrthwynebu polisi cyfreithiol gan lywodraeth etholedig, er mwyn greu cyhoeddusrwydd, yn annerbyniol.

Ar 1 Gorffennaf eleni, yn dilyn fy ymgynghoriad blaenorol *Adolygiad Barnwrol: Cynigion i Ddiwygio*, daeth newidiadau i'r weithdrefn ar gyfer adolygiad barnwrol i rym, gan roi llai o amser i gyflwyno her gynllunio neu her gaffael a ffordd i'r llysoedd chwynnu heriau cwbl annheilwng reit ar ddechrau'r broses adolygiad barnwrol. Mae'r rhain a newidiadau eraill, gan gynnwys Cynllunio Carlam newydd a gyflwynwyd yn ddiweddar gan yr uwch-farnwriaeth, yn gam cyntaf gwerth chweil i unioni'r fantol gyda defnyddio adolygiad barnwrol. Ond a yw'n iawn profi'r potensial i gyflwyno diwygiadau pellach a sylweddol sy'n ceisio sicrhau ac adfer yr adolygiad barnwrol i'w iawn le fel prawf ar weithredu cyhoeddus anghyfreithlon.

Mae'r cynigion ar gyfer diwygio yr hoffwn gael barn pobl amdanynt yn berthnasol i sawl maes: sut mae'r llysoedd yn delio ag achosion sy'n dibynnu ar fân-ddiffygion gweithdrefnol; cydbwysu cymhellion ariannol; cyflymu apeliadau i'r Goruchaf Lys mewn nifer fach o achosion cenedlaethol bwysig, a fyddai'n ymestyn y tu hwnt i adolygiad barnwrol; a sialensau cynllunio. Hefyd, mae gennyf ddiddordeb arbennig mewn holi barn pobl am y potensial i ddiwygio'r prawf ynghylch pwy all ddwyn adolygiad barnwrol, a hefyd a oes trefniadau heblaw am adolygiad barnwrol i ddatrys anghydfodau'n ymwneud â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

Ar ôl gwrandao ar bryderon a godwyd yn yr ymgynghoriad ar Drawsnewid Cymorth Cyfreithiol, ddaeth i ben fis Mehefin, mae'r papur hwn hefyd yn cynnwys cynigion yng nghyswllt talu darparwyr cymorth cyfreithiol mewn achosion adolygiad barnwrol. Yn ogystal â'n cynnig gwreiddiol y byddai darparwyr ond yn sicr o gael eu talu am weithio ar adolygiad barnwrol lle rhoddir caniatâd gan y Llys, mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig y byddai gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ddisgresiwn i dalu darparwyr mewn rhai

achosion gwirioneddol deilwng lle mae methodd y darparwr â chael gorchymyn neu gytundeb costau fel rhan o'r setliad.

Mae hwn yn ymgynghoriad cynhwysfawr sydd taer ei angen ar gyflwyno diwygiadau pellach, gan adeiladu ar y gwaith da a wnaeth y Llywodraeth eisoes yn y maes hwn. Mae adolygiad barnwrol yn ffordd greiddiol o ddal Llywodraeth i gyfrif, ond mae'r cynigion a gyflwynwn, yn fy marn i, yn bendant o fudd i'r genedl gyfan. Edrychaf ymlaen at dderbyn barn am gynigion y Llywodraeth a'r cwestiynau a ofynnwn.



## 1. Rhagarweiniad

1. Mae adolygiad barnwrol yn brawf hanfodol ar bŵer y Wladwriaeth, gan gynnig dull effeithiol o herio penderfyniadau, gweithredoedd neu esgeulustod cyrff cyhoeddus i sicrhau eu bod yn gyfreithlon. Bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod adolygiad barnwrol yn parhau i gadw ei rôl hanfodol. Er hynny mae'r Llywodraeth yn poeni bod adolygiadau barnwrol annheilwng yn cael eu defnyddio i achosi oedi, i greu cyhoeddusrwydd ac i rwystro'r broses benderfyniadau briodol. Mae hyn yn ddrwg i'r economi ac i'r trethdalwr.
2. Ym mis Rhagfyr 2012 lansiodd y Llywodraeth ymgynghoriad *Adolygiad Barnwrol: Cynigion i Ddiwygio*, oedd yn holi barn pobl ynghylch cyfres o gynigion i ddiwygio adolygiad barnwrol. Ar 23 Ebrill 2013 cyhoeddodd y Llywodraeth ei hymateb i'r ymgynghoriad gan nodi'r diwygiadau yr oedd yn bwriadu eu cyflwyno.<sup>1</sup> Y rhain oedd:
  - rhoi llai o amser i ddod ag adolygiad barnwrol mewn rhai achosion cynllunio, sef chwe wythnos yn lle tri mis, a thriddeg diwrnod mewn rhai achosion caffael, fel eu bod yn unol â'r cyfyngiadau amser ar gyfer apeliadau statudol;
  - gwneud i ffwrdd â'r hawl i gais llafar lle mae barnwr wedi asesu bod yr achos yn gwbl annheilwng ar bapur; a
  - codi ffi ar wrandawriad llafar lle mae caniatâd wedi'i wrthod yn barod ar sail papurau ond mae'r hawlydd yn gofyn am i'r penderfyniad gael ei ailystyried mewn gwrandawriad.
3. Daeth y ddau gyntaf o'r diwygiadau hyn i rym ar 1 Gorffennaf 2013 drwy ddiwygiad i'r Rheolau Trefniadaeth Sifil.<sup>2</sup> Bydd y Llywodraeth yn ceisio gweithredu'r newid ffioedd cyn gynted ag y bo modd. Bydd y Llywodraeth hefyd yn ystyried eto a yw ffioedd adolygiad barnwrol wedi eu gosod ar lefel briodol fel rhan o adolygiad ffioedd ehangach ar draws y llysoedd sifil. Mae'r mesurau trefniadaeth hyn wedi eu targedu at achosion annheilwng, a'r nod yw chwynnu'r rhain yn gyflym ar y dechrau, tra'n sicrhau bod achosion teilwng yn gallu symud ymlaen at gasgliad heb oedi.
4. Yn ddiweddar mae gwaith wedi'i gwblhau ar drosglwyddo adolygiadau barnwrol mewn fudo a lloches o'r Llys Gweinyddol i'r Uwch Dribiwnlys. Dylai hyn leihau llwyth gwaith yr Uchel Lys yn sylweddol a chreu system llawer mwy effeithlon.
5. Mae'r mesurau hyn yn gam pwysig ymlaen. Fodd bynnag mae'r Llywodraeth yn teimlo bod angen gwneud mwy i atal camddefnyddio'r adolygiad barnwrol.
6. Mae'r Llywodraeth yn poeni bod twf sylweddol wedi bod yn y defnydd a wneir o adolygiad barnwrol, ac y defnyddir hyn weithiau fel tacteg oedi mewn achosion sydd heb fawr obaith o lwyddo. Mae mwy na dwywaith gymaint o geisiadau am adolygiad barnwrol ag oedd ddeng mlynedd yn ôl. Er bod llawer o'r twf wedi bod mewn achosion mewn fudo a lloches, mae'r achosion hyn yn llyncu llawer iawn o adnoddau llys a barnwrol gyda chanlyniadau i ddelio ag achosion eraill. Gall achosion annheilwng

<sup>1</sup> Ar gael yma: <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/judicial-review-reform>

<sup>2</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2013/1412/made>

mewn meysydd eraill achosi oedi i ddiwygiadau ehangach gan y llywodraeth ac i gynnydd prosiectau seilwaith mawr i ysgogi twf a hyrwyddo adferiad yr economi. Mae'r Llywodraeth hefyd yn poeni y dylid targedu adnoddau cymorth cyfreithiol yn fwy priodol at yr achosion adolygiad barnwrol hynny sydd fwyaf angen yr adnoddau hynny, os yw'r system cymorth cyfreithiol i fod yn gredadwy ac i ennyn ffydd y cyhoedd.

7. Yn y papur hwn mae'r Llywodraeth yn cynnig cyfres o ddiwygiadau pellach sy'n ceisio rhoi sylw i dri mater cysylltiedig:

- i) **effaith adolygiad barnwrol ar dwf ac adferiad yr economi.** Fel y nodir yn Adolygiad o Wariant 2013<sup>3</sup>, elfen bwysig o gynllun economaidd y Llywodraeth yw blaenoriaethu gwariant cyfalaf fydd yn rhoi hwb i fuddsoddi mewn prosiectau seilwaith hirdymor er mwyn cefnogi twf economaidd. Gall prosiectau seilwaith hanfodol a phrosiectau sy'n bwysig i'r economi mewn ardaloedd lleol gael eu gohirio gan heriau annheilwng a chyson gan achosi mwy o gostau a risg. Mae hyn yn lleihau fforddiadwyedd a hyfywedd ariannol ac yn rhwystro'r prosiectau eu hunain a hefyd y twf ac adferiad economaidd y dylent fod yn ei ysgogi;

#### **Astudiaeth achos: datblygiad preswyl**

Yn Ionawr 2011 rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl oedd i gynnwys 360 o gartrefi ac a fyddai wedi creu 45 o swyddi adeiladu pob blwyddyn.

Arweiniodd gyfres o heriau cyfreithiol gan wrthwynebwyr i'r datblygiad at oedi o ddwy flynedd cyn dechrau'r prosiect. Gwrthodwyd caniatâd i ddechrau ar bob sail a chadarnhawyd hyn mewn ail wrandawriad llafar a chais papur i apelio i'r Llys Apêl. Pan gynhaliwyd gwrandawriad llafar ar y cais i apelio, rhoddwyd caniatâd i gynnal yr adolygiad barnwrol ar ddwy sail. Yn y gwrandawriad terfynol yn y Llys Apêl, gwrthodwyd dadleuon yr hawlydd ar y ddwy sail.

O ganlyniad i'r heriau hyn, roedd costau cyfreithiol y datblygwr oddeutu £100,000, ond nid oedd hynny ond yn gyfran fach o'r costau ehangach iddyn nhw a'r gymuned leol. Mewn astudiaeth a gomisiynwyd gan y datblygwr, roedd effaith y ddwy flynedd o oedi i'r economi leol tua £3.8 miliwn, gan gynnwys y colledion refeniw i fusnesau lleol ac mewn taliadau treth y cyngor.

Mae'r asesiad a wnaed o effaith yr achos hwn yn dangos bod modd i adolygiadau barnwrol maith a pharhaus ohirio datblygiadau cynllunio a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar yr economi. Medrant gael effeithiau canlyniadol negyddol ar ddatblygwyr, cymunedau lleol a'r economi'n ehangach.

- ii) **defnydd amhriodol o adolygiad barnwrol fel tacteg ymgyrchu.** Mae'r Llywodraeth yn poeni bod adolygiadau barnwrol yn cael eu defnyddio i greu cyhoeddusrwydd ac i ymestyn ymgyrchoedd ar ôl i benderfyniadau priodol gael eu gwneud; a

<sup>3</sup> [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/209036/spending-round-2013-complete.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/209036/spending-round-2013-complete.pdf)

**Astudiaeth achos: ysgol rydd**

Cafodd y broses o ddatblygu safle parhaol ar gyfer Ysgol Rydd ei gwneud yn llawer mwy cymhleth a chostus drwy ofyn am adolygiad barnwrol o'r penderfyniad i roi caniatâd cynllunio.

Roedd yr Ysgol Rydd, oedd yn rhedeg o adeiladau dros dro, wedi prynu tir ar brydles a ddefnyddiwyd yn flaenorol fel canolfan arddio, y bu'n rhaid iddi gau am resymau masnachol. Sefydlwyd grŵp ymgyrchu lleol oedd yn gwrthwynebu i gau'r ganolfan arddio. Gyda chefnogaeth y grŵp hwn, gwnaeth breswylwr lleol gydag anableddau gais am adolygiad barnwrol o benderfyniad y Cyngor i roi caniatâd cynllunio i ddefnyddio'r tir fel safle parhaol ar gyfer yr Ysgol Rydd. Roedd yr adolygiad barnwrol yn dibynnu ar amryw o seiliau, gan gynnwys torri dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (PSED). Ail-edrychodd y Cyngor ar y penderfyniad cynllunio i dawelu pryderon ynghylch y PSED, gan ddod i'r un casgliad.

Yna heriwyd y penderfyniad hwn ymhellach, a chafodd dri chais am waharddeb i atal yr Ysgol Rydd rhag dechrau'r gwaith adeiladu eu gwrthod gan yr Uchel Lys. Ar ôl gwrandawriad llawn, penderfynodd yr Uchel Lys hefyd wrthod y cais am adolygiad barnwrol ar bob sail, a gwrthod caniatâd i apelio. Ar ôl oedi o fwy na thri mis, penderfynodd yr hawlydd adnewyddu ei gais am ganiatâd i apelio i'r Llys Apêl.

Mae'r ymgyfreitha wedi parhau am ddwy flynedd hyd yma. Doedd dim modd i'r hawlydd gyflawni ei nod dywededig o achub y ganolfan arddio. Ar y mwyaf, gallai'r ymgyfreitha fod wedi atal yr Ysgol Rydd rhag cael ei lleoli yno.


Achosodd yr ymgyfreitha ansicrwydd ynghylch penderfyniad yr ysgol i symud i'w safle parhaol, fel bod angen i'r corff llywodraethu dreulio amser aruthrol ar y broses llys a chostio degau o filoedd o arian cyhoeddus i'w hamddiffyn. Aflonyddwyd yn ddifrifol ac yn gwbl ddiangen ar bwrpas craidd yr Ysgol Rydd o redeg ysgol newydd oedd taer ei hangen ar y gymuned leol.

- iii) **defnyddio'r oedi a'r costau sy'n gysylltiedig ag adolygiad barnwrol i rwystro gweithredoedd y mae awdurdodau cyhoeddus am eu cymryd.** Mae'r Llywodraeth yn poeni bod ceisiadau annheilwng am adolygiad barnwrol yn cael eu defnyddio i ohirio, rhwystro neu gymell y weithrediaeth yn erbyn cymryd camau cwbl gyfreithlon. Yn achos cymorth cyfreithiol, mae'r Llywodraeth yn poeni bod adolygiadau barnwrol gwan yn cael eu hariannu, gan danseilio ffydd y cyhoedd yn y system cymorth cyfreithiol.
8. Mae'r Llywodraeth eisiau sicrhau bod adolygiad barnwrol ar gael yn rhwydo lle bo'i angen er budd cyfiawnder ac i ddal y weithrediaeth i gyfrif, ond na ellir ei ddefnyddio dim ond i ymgyrchu yn erbyn, i rwystro neu i ohirio penderfyniadau. Pwrpas y cynigion yn y papur ymgyngori hwn yw sicrhau, ynghyd â'r diwygiadau a drafodir ym mharagraffau 3 a 4, bod pobl gyda chwynion cyfreithlon dilys yn gallu dwyn achos fydd yn cael ei wrando'n gyflym ond bod y trethdalwr a busnesau'n cael eu gwarchod rhag effaith achosion annheilwng.

## Y twf mewn adolygiadau barnwrol

9. Mae nifer y ceisiadau am adolygiad barnwrol wedi mwy na dyblu yn y blynyddoedd diwethaf. Dengys data'r Llys Gweinyddol fod dros 4,500 o geisiadau am adolygiad barnwrol ym 1998, a bod hyn wedi cyrraedd 12,400 erbyn 2012.<sup>4</sup>
10. Prif sbardun y twf yma mewn ceisiadau adolygiad barnwrol yw'r cynnydd mewn ceisiadau mewnfudo a lloches, sydd wedi mwy na dyblu rhwng 2007 a 2012 ac oedd yn cyfrif am 76% o'r holl geisiadau yn 2012. Mae nifer y ceisiadau am adolygiad barnwrol mewn achosion troseddol, ac achosion sifil heblaw am rai mewnfudo a lloches, hefyd wedi cynyddu dros y cyfnod er yn llawer mwy graddol, fel a welir yn Siart 1 isod.

Siart 1: Nifer y ceisiadau am ganiatâd i gynnal adolygiad barnwrol yn ôl y math o achos (2007-2012)



## Caniatâd i ddwyn achos adolygiad barnwrol

11. Mae'r data'n awgrymu bod y rhan fwyaf o'r ceisiadau am ganiatâd sy'n dod gerbron y llys yn cael eu gwrthod pan ystyrir hwynt gyntaf ar sail eu papurau. Ar gyfer achosion wedi eu dwyn yn 2012, dim ond 1 o bob 6 a gyrhaeddodd y cam hwn<sup>5</sup> gafodd ganiatâd i gael adolygiad barnwrol.
12. Fodd bynnag, dengys y data hefyd fod cyfran sylweddol o geisiadau adolygiad barnwrol yn cael eu tynnu'n ôl cyn i'r penderfyniad i'w caniatáu gael ei wneud. Ar gyfer achosion wedi eu dwyn yn 2012, cafodd dros 40% o'r holl geisiadau eu tynnu'n ôl cyn cael eu hystyried am ganiatâd gan y llys. Er na chofnodir y rhesymau dros dynnu'n ôl,

<sup>4</sup> Mae'r data ar Adolygiadau Barnwrol ar gael yma: <https://www.gov.uk/government/publications/court-statistics-quarterly-jan-mar-2013>. Mae'r holl ddata'n dod o'r ffynhonnell hon oni nodir yn wahanol.

<sup>5</sup> Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys achosion sy'n tynnu'n ôl cyn i benderfyniad i'w caniatáu gael ei wneud.


<sup>6</sup> Er bod hyn efallai oherwydd bod gan y ceisydd gŵyn gyfreithlon, mae'r Llywodraeth eisiau bod yn siŵr nad oes achosion lle mae'r ymatebydd yn ildio dim ond oherwydd am eu bod eisiau osgoi'r oedi a'r gost sy'n gysylltiedig â brwydr gyfreithiol hir. Dyma pam fod y cynigion hyn wedi eu dyfeisio i sicrhau bod heriau'n cael eu gwrando'n gyflym, bod fframwaith costau cywir yn ei lle a pham fod y Llywodraeth yn edrych ar bwy ddylai a phwy na ddylai gael herio penderfyniadau.

13. Ar gyfer achosion wedi eu dwyn yn 2012, gofynnwyd am wrandawriad llafar ar ôl gwrthod caniatâd ar sail y papurau mewn tua 2,600 o achosion (tua 21% o'r holl geisiadau) a rhoddwyd caniatâd i tua 300 o'r rhain fynd yn eu blaenau wedyn. Gyda'r 2,300 achos oedd yn weddill, gwrthodwyd caniatâd yn dilyn y gwrandawriad llafar neu cawsant eu tynnu'n ôl cyn hynny.

### Datblygiad achos

14. Mae'r diagram isod yn bwrw trosolwg lefel uchel ar ddatblygiad achos lle gwneir cais am adolygiad barnwrol. Mae hyn yn gysylltiedig ag achosion wedi eu dwyn yn 2011, sy'n fwy tebygol o fod wedi cael eu penderfynu na rhai wedi eu dwyn yn 2012.

*Siart 2: Proses a nifer y ceisiadau adolygiad barnwrol wedi eu dwyn yn 2011 (gan ddechrau o'r chwith)*



<sup>6</sup> Bondy, V., & Sunkin, M. (2009). The Dynamics of Judicial Review Litigation: The resolution of public law challenges before final hearing.

*Dalier sylw: Mae'r mwyafrif llethol o achosion yn y categorïau tynnu'n ôl / arall wedi cael eu tynnu'n ôl. Mae'r canlyniadau yn y categori "arall" yn cynnwys achosion a ohiriwyd, na aeth yn eu blaenau, dim gorchymyn, a gyfeiriwyd at y Llys Apêl ac a ailgyflwynwyd.*

15. O ganlyniad i'r nifer fawr gafodd eu tynnu'n ôl, a'r ceisiadau mynychu lle gwrthodwyd caniatâd ar sail y papurau ac yn dilyn gwrandawriad llafar, dim ond cyfran fechan o geisiadau adolygiad barnwrol sy'n cyrraedd gwrandawriad terfynol. Ar gyfer achosion gafodd eu dwyn yn 2011<sup>7</sup>, dim ond tua 4% o'r holl geisiadau a gyrhaeddodd wrandawriad terfynol (422 o achosion). Mae'r canlyniadau yn y gwrandawriad terfynol yn tueddu i fod yn fwy cytbwys nag yn y cam caniatâd (sy'n adlewyrchu'r ffaith bod yr achosion hyn wedi pasio drwy'r hidlydd cyntaf); ar gyfer achosion wedi eu dwyn yn 2011, roedd tua 40% o'r penderfyniadau barnwrol yn y gwrandawriadau terfynol yn rhai o blaid yr hawlydd.

### Goblygiadau

16. Fel y dengys y data, mae nifer fawr a chynyddol o geisiadau am adolygiad barnwrol. Mae llawer ohonynt yn aflwyddiannus, a'r rhain yw'r cyd-destun ar gyfer y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn. Mae'r Llywodraeth o'r farn bod gan y sefyllfa bresennol y goblygiadau canlynol:

- Gall ceisiadau adolygiad barnwrol aflwyddiannus ohirio gweithredu polisïau a phrosiectau. Ar gyfer achosion wedi eu dwyn yn 2012, cymrodd ar gyfartaledd tua 83 diwrnod i gais gael ei ystyried am ganiatâd ar y papurau, a 95 diwrnod pellach am benderfyniad ar ganiatâd yn dilyn gwrandawriad llafar (lle'r oedd un). Yn gyffredinol, ar gyfer ceisiadau wedi eu dwyn yn 2011 a gyrhaeddodd wrandawriad terfynol, cymrodd ar gyfartaledd 313 diwrnod i'r achosion hyn gyrraedd gwrandawriad terfynol o'r dyddiad y cawsant eu dwyn.
- Mae adolygiadau barnwrol yn achosi costau i'r sector cyhoeddus drwy orfod amddiffyn hawliadau. Mae gwybodaeth reoli enghreifftiol gan Adran Cyfreithwyr y Trysorlys<sup>8</sup> yn awgrymu, i ddiffynnydd, bod dim ond y costau cyfreithiol mewn achosion heb fod yn rhai mewnfudo a lloches, yn tueddu i fod rhwng £8,000 a £25,000 ac mewn achosion mewnfudo a lloches yn tueddu i fod rhwng £1,500 a £10,000. Mae'r gost mewn achosion unigol yn dibynnu ar ffactorau fel pa mor bell y mae'r achos yn mynd, a pha mor gymhleth ydyw. Nid yw pob achos yn dod o fewn y bandiau cost hyn, weithiau gall y costau cyfreithiol fod yn llawer uwch. Ym mhob achos, gall y gost ychwanegol ddifedur i'r diffynnydd, fel eu costau staff eu hunain wrth amddiffyn yr achos, fod yn sylweddol uwch na'r costau cyfreithiol.
- Gall adolygiadau barnwrol hefyd achosi costau i drydydd partion. Mewn achosion seilwaith, er enghraifft, gall oedi gyda phenderfynu heriau i benderfyniadau cynllunio ymestyn amser cwblhau prosiect ac achosi costau cyfreithiol, goblygiadau o ran llif arian a chostau benthyca. Gallai'r costau ychwanegol hyn a'r ansicrwydd gael eu hadlewyrchu yn y pris terfynol a delir am allbwn y prosiect dan sylw a hefyd yn y bid cychwynnol am brosiect.

<sup>7</sup> Defnyddiwyd data 2012 ar gyfer nifer y ceisiadau a'r cam caniatâd oherwydd dyma'r flwyddyn ddiweddaraf sydd ar gael. Fodd bynnag, o ystyried yr amser hir y gallai ei gymryd i achosion gyrraedd y gwrandawriad terfynol (dros 300 diwrnod ar gyfartaledd), ni fydd rhai achosion a ffeiliwyd yn 2012 wedi cyrraedd eu gwrandawriad terfynol eto ac, felly, defnyddiwyd data 2011 ar gyfer ffigurau gwrandawriadau terfynol.

<sup>8</sup> Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar wybodaeth reoli lefel uchel gan Adran Cyfreithwyr y Trysorlys. Dylid edrych arnynt fel rhai dangosol yn unig.

- Gallai rhai achosion adolygiad barnwrol achosi costau ehangach i'r economi. Er enghraifft, medrant effeithio'n andwyol ar brosiectau seilwaith neu adfywio a ddylai fod yn cefnogi twf economaidd a mynediad i'r farchnad.

### **Cymorth Cyfreithiol: Adolygiad Barnwrol**

17. Mae'r Llywodraeth yn poeni y dylid targedu adnoddau cymorth cyfreithiol yn fwy priodol at yr achosion adolygiad barnwrol hynny sydd fwyaf angen yr adnoddau hynny, os yw'r system cymorth cyfreithiol i fod yn gredadwy ac i ennyn ffydd y cyhoedd.

### **Casgliad**

18. Mae'r Llywodraeth yn credu bod angen diwygio adolygiad barnwrol ymhellach. Mae'r penodau canlynol yn cynnwys cyfres o gynigion a materion i'w hystyried. Byddem yn croesawu eich barn amdanynt, neu am sut ellid eu gweithredu, ac unrhyw awgrym ar opsiynau eraill neu ychwanegol.

19. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn mewn chwe maes:

- Heriau cynllunio;
- Y cwestiwn o gymhwyster h.y. gan bwy mae'r hawl i wneud cais am adolygiad barnwrol;
- Sut mae'r llysoedd yn delio gyda mân-ddiffygion gweithdrefnol, ac a ellir gwella ar hyn;
- Defnyddio adolygiad barnwrol i ddatrys anghydfod yn ymwneud â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus;
- A yw'r trefniadau presennol ar gyfer costau'n cynnig y cymhellion ariannol cywir, gan gynnwys cymorth cyfreithiol; a
- Y sgôp ar gyfer gwneud mwy o orchmynion 'neidio', fel bod achosion priodol yn gallu symud yn ddi-oed i'r Goruchaf Lys.

20. Pwrpas ein cynigion yw cymell y rhai sy'n ystyried adolygiad barnwrol mewn achosion annheilwng i beidio â gwneud cais tra'n helpu i gyflymu'r achosion hynny sy'n symud ymlaen drwy'r llysoedd.

## 2. Cefndir

### *Adolygiad Barnwrol*

21. Proses yw adolygiad barnwrol lle gall unigolion, busnesau a phartïon eraill yr effeithir arnynt herio cyfreithlondeb penderfyniadau neu weithredoedd<sup>9</sup> cyhoeddus, gan gynnwys rhai gan Weinidogion, awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus eraill a rhai sy'n ymarfer swyddogaethau cyhoeddus. Gweithdrefn wedi'i datblygu gan farnwyr ydyw'n bennaf a gellir ei nodweddu fel rheol y gyfraith ar waith, gan gynnig dull pwysig i unigolion ddal y weithrediaeth i gyfrif. Fodd bynnag, dylai fod yn cael ei gweithredu'n gyflym a chymesur. Nid yw'n ddull i herio gweithredoedd a phenderfyniadau'r Senedd – nid yw'r rhain yn fater y gall y llysoedd edrych arnynt.<sup>10</sup> Felly hefyd, nid yw deddfwriaeth sylfaenol a'r penderfyniad i gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol neu beidio yn agored i adolygiad barnwrol.<sup>11</sup> O ran is-ddeddfwriaeth, mae gan y llysoedd wrth gwrs rôl mewn sicrhau bod ewyllys y Senedd yn y ddeddfwriaeth sylfaenol gychwynnol berthnasol yn cael ei barchu. Felly mae'n briodol defnyddio adolygiad barnwrol i sicrhau nad yw is-ddeddfwriaeth y tu allan i'r pwerau y mae'r Senedd wedi eu rhoi i'r Gweinidog perthnasol. Fodd bynnag mae'r Senedd yn glir na ddylid, mewn achosion eraill, defnyddio adolygiad barnwrol i wrthdroi penderfyniadau a wnaed gan y Senedd neu i fynnu bod y Senedd yn gwneud penderfyniadau neilltuol.
22. Mae tair prif sail y gellir herio penderfyniad neu weithred arnynt:<sup>12</sup>
- **anghyfreithlondeb:** er enghraifft, ni chafodd ei wneud neu ei chyflawni'n unol â'r gyfraith berthnasol neu mae'n mynd y tu hwnt i bwerau'r corff;
  - **afresymoldeb:** er enghraifft, ni ystyriwyd yr holl ffactorau perthnasol, neu ni allai person rhesymol fod wedi gwneud y penderfyniad ayb; a
  - **annhegwch gweithdrefnol:** er enghraifft, methu ag ymgynghori'n briodol neu weithredu'n unol â chyfiawnder naturiol neu'n unol â'r rheolau gweithdrefnol sylfaenol.
23. Mae rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y seiliau dros adolygiad ac mae'r rhain wedi parhau i ddatblygu er mwyn ystyried newidiadau i'r tirlun cyfreithiol. Mae ehangu'r dyletswyddau statudol ar Lywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill hefyd wedi arwain at fwy o adolygiadau barnwrol ar sail eu methiant i gydymffurfio â'r dyletswyddau hyn (er enghraifft, dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010).
24. Dylai adolygiad barnwrol fod yn cael ei weithredu'n gyflym a chymesur. Mewn egwyddor, rhoddir amodau penodol i warchod rhag hawliadau annilys: dim ond rhai gyda budd digonol sy'n cael dwyn achos a rhaid iddynt yn gyntaf gael caniatâd i'w hachos gael ei wrando.<sup>13</sup> Fe'i disgrifir yn aml fel ateb yn niffyg popeth arall: fel arfer bydd y llysoedd yn disgwyl i'r partïon fod wedi disbyddu pob ateb arall lle mae'r rhain

<sup>9</sup> Gallai gynnwys gweithredu a diffyg gweithredu.

<sup>10</sup> Erthygl 9 Mesur lawnderau

<sup>11</sup> *R (Wheeler) v Office of the Prime Minister* [2008] EWHC 1409 (Gweinyddol)

<sup>12</sup> *Council of Civil Service Unions v Minister for the Civil Service* [1985] AC 374 (Arglwydd Diplock para. 410).

<sup>13</sup> Adran 31(3) Deddf Uwchlysoedd Act 1981 (c. 54).



ar gael, gan gynnwys hawl i apelio, gweithdrefn gwyno fewnol neu, lle bo hynny'n briodol, cwyno i'r Ombwdsman. Mae'n ofynnol i bartïon sy'n dwyn achosion adolygiad barnwrol ddilyn y Protocol Cyn-Weithredu perthnasol<sup>14</sup>, sy'n eu hannog i geisio datrys yr anghydfod rhyngddynt heb fynd i'r llys. Fodd bynnag, mewn materion brys, gall y bartïon roi heibio'r Protocol hwn.<sup>15</sup>

25. Llywodraethir rhai agweddau ar yr adolygiad barnwrol gan Adran 31 Deddf Uwchlysoedd 1981 a nodir y weithdrefn yn y Rheolau Trefniadaeth Sifil (CPR), yn Rhan 54 yn benodol (ac yn y Cyfarwyddiadau Ymarfer cysylltiedig).<sup>16</sup> Sefydlir llawer o'r fframwaith cyfreithiol o ran seiliau a'r sgôp i gynnal adolygiad, cymhwyster, cyfiawnhad a chostau, gan benderfyniad barnwrol, sydd wedi newid dros amser.
26. Fel arfer mae ceisiadau am adolygiad barnwrol yn cael eu gwrando yn y Llys Gweinyddol, sy'n rhan o Is-adran Mainc y Frenhines yn yr Uchel Lys.<sup>17</sup> Fel arfer un o Farnwyr yr Uchel Lys sy'n llywyddu ond weithiau gall y Llys Adrannol hefyd eu gwrando (gyda dau Farnwr).
27. Mae adolygiad barnwrol yn ymwneud â chyfreithlondeb penderfyniadau. Nid rôl y llys yw disodli'r penderfyniad gwreiddiol gyda'i ddyfarniad ei hun. Lle daw'r llys i'r casgliad bod penderfyniad yn un anghyfreithlon, gall wneud un o'r gorchmynion canlynol:<sup>18</sup>
  - **gorchmyn dileu**, yn rhoi heibio'r penderfyniad gwreiddiol;
  - **gorchmyn gorfodi**, lle gorfodir y corff cyhoeddus i wneud rhywbeth neu gymryd camau penodol;
  - **gorchmyn gwahardd** sy'n atal corff cyhoeddus rhag gwneud rhywbeth neu gymryd camau penodol;
  - **datganiad**, er enghraifft bod gweithred neu benderfyniad yn anghyfreithlon; a
  - **gwaharddeb**, er enghraifft i atal corff cyhoeddus rhag gweithredu mewn ffordd anghyfreithlon.

## Proses yr Adolygiad Barnwrol

28. Rhaid i achos adolygiad barnwrol ddechrau drwy ffeilio ffurflen hawliad yn y llys yn disgrifio'r mater y mae'r hawlydd eisiau penderfyniad y llys arno a pha gamau unioni y mae'n eu ceisio. Rhaid cyflwyno'r hawliad yn brydlon ac yn sicr o fewn tri mis i'r seiliau a arweiniodd at yr hawliad, ac eithrio mewn rhai achosion cynllunio<sup>19</sup> lle mae'n rhaid cyflwyno'r hawliad o fewn chwe wythnos, ac mewn rhai achosion caffael<sup>20</sup> lle mae'n rhaid cyflwyno'r hawliad o fewn 30 diwrnod. Rhaid cyflwyno'r ffurflen hawliad i'r diffynnydd, ac i'r holl bartïon budd eraill (oni bai fod y llys yn cyfarwyddo fel arall) o

<sup>14</sup> Gweler: [http://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/civil/protocol/prot\\_jrv](http://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/civil/protocol/prot_jrv) (nid yw'r protocol cyn-weithredu'n berthnasol i adolygiadau barnwrol mewn fudo neu loches).

<sup>15</sup> Lle mae cyfyngiadau amser byrrach yn berthnasol i achosion cynllunio a chaffael, ni fydd y llys yn cyflwyno'r sancsiynau cost arferol am fethu â chydymffurfio â'r protocol cyn-weithredu er y pwysir ar bartïon i wneud hynny lle medrant. Nid yw'r protocol cyn-weithredu'n berthnasol mewn achosion mewn fudo a lloches.

<sup>16</sup> Gweler: <http://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/civil/rules>.

<sup>17</sup> Gwrandewir rhai Adolygiadau Barnwrol Mewn fudo a Lloches yn yr Uwch Dribiwnlys.

<sup>18</sup> Adran 31(1) a (2), Deddf Uwchlysoedd 1981.

<sup>19</sup> Lle mae'r hawliad yn ymwneud â phenderfyniad a waned gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu awdurdod cynllunio lleol o dan y deddfau cynllunio, fel a ddiffinnir yn adran 336 Deddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990.

<sup>20</sup> Lle mae'r hawliad yn ymwneud â phenderfyniad a lywodraethir gan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2006.

fewn saith diwrnod i'w ffeilio. Os yw'r partïon budd eraill am gymryd rhan yn yr achos, rhaid iddynt ffeilio Ffurflen Cydnabod Cyflwyno o fewn 21 diwrnod i gyflwyno'r ffurflen hawliad iddynt.

29. Mae angen caniatâd y llys i hawliad am adolygiad barnwrol fynd yn ei flaen. Fel arfer ystyrir y penderfyniad ynghylch caniatáu drwy adolygu'r papurau a ffeiliwyd. Gellir rhoi caniatâd llawn, neu roi caniatâd ar seiliau penodol a nodir yn yr hawliad.
30. Mewn achosion lle mae'r llys yn gwrthod caniatâd (yn llwyr neu'n rhannol), bydd yn rhoi'r rhesymau ac yn eu cyflwyno i'r hawlydd ac i'r partïon eraill yn yr achos. Gall yr hawlydd ofyn i'r penderfyniad gael ei ailystyried mewn gwrandawriad (cyfeiriwn at hyn fel "gwrandawriad llafar" yn y papur hwn), oni bai fod y llys yn gwrthod caniatâd i symud ymlaen ac yn cofnodi bod y cais yn llwyr heb deilyngdod, ac os felly ni fydd hawl i wrandawriad llafar. Rhaid ffeilio cais am wrandawriad llafar o fewn saith diwrnod i gyflwyno'r rhesymau dros wrthod caniatâd.
31. Bydd y gwrandawriad llafar yn ailystyried y mater yn llawn, wedi'i gefnogi gan gyflwyniadau llafar. Lle rhoddir caniatâd, bydd yr hawliad yn parhau fel y byddai fel arfer. Lle gwrthodir caniatâd, gall yr hawlydd ystyried a yw am wneud cais i'r Llys Apêl am ganiatâd i apelio.
32. Lle rhoddir caniatâd, gall y llys gyfarwyddo ar sut ddylai'r achos gael ei gynnal a'i reoli gan roi cyfyngiadau amser, er enghraifft, ar gyfer ffeilio a chyflwyno manylion yr hawliad, ar gyfer amddiffyn yr hawliad ac ar unrhyw dystiolaeth y bydd y partïon efallai eisiau dibynnu arni.
33. Gellir cyflymu'r mater gyda chaniatâd y llys: er enghraifft, gellir "cyfuno'r" caniatâd a'r gwrandawriad llawn fel bo'r ddau'n cael eu gwrandawrio yn yr un gwrandawriad. Mae gan y llys hefyd bŵer cyffredinol i ymestyn unrhyw gyfyngiad amser a nodir yn y rheolau, lle mae hynny er budd cyfiawnder.

### 3. Cynllunio

#### Symleiddio heriau cynllunio

##### Rhagarweiniad

34. Yng nghyllideb 2013, ymrwymodd y Llywodraeth i symleiddio'r broses gyfreithiol ar gyfer penderfynu heriau i brosiectau cynllunio a seilwaith mawr (naill ai gan adolygiadau barnwrol neu herio statudol) er mwyn delio gyda nhw mewn cyn lleied o amser â phosibl. Dylai hyn leihau faint mae heriau cyfreithiol yn rhwystro datblygiad ac adfywiad economaidd, yn ddiangen.

##### Y Sefyllfa Bresennol

35. Fel arfer gwneir penderfyniadau ar geisiadau am ganiatâd cynllunio ar lefel leol gan awdurdodau cynllunio lleol, er bod gan yr Ysgrifennydd Gwladol bŵer i alw mewn ceisiadau o'r fath i'w penderfynu drosto'i hun, ac mae'n gwneud hynny mewn amgylchiadau eithriadol. Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol hefyd yn gwneud penderfyniadau i gymryd camau gorfodi am dorri rheolau cynllunio. Gall pobl apelio yn erbyn y penderfyniadau hyn i'r Ysgrifennydd Gwladol, ac ymdrinnir â'r rhan fwyaf o'r apeliadau hyn ar ei ran gan yr Arolygiaeth Gynllunio (PINS) oni bai ei fod yn penderfynu adfer yr apêl i'w phenderfynu ei hun. Gall penderfyniad a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol (gan gynnwys gan PINS ar ei ran) gael ei herio yn yr Uchel Lys ar bwynt o gyfraith yn unig, drwy apêl statudol gan unrhyw berson a gafodd gam o dan adran 288 (caniatâd) neu gan yr apelydd neu'r Awdurdod Cynllunio Lleol neu unrhyw berson arall gyda budd yn y tir o dan adran 289 (gorfodi) Deddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990. Caiff ceisiadau am ganiatâd ar gyfer prosiectau seilwaith pwysig mawr eu penderfynu gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Gynllunio 2008, a gellir eu herio drwy adolygiad barnwrol o dan ddarpariaethau cul adran 118 Deddf 2008. Dim ond drwy adolygiad barnwrol y gellir herio penderfyniadau eraill a wneir gan Awdurdod Cynllunio Lleol neu'r Ysgrifennydd Gwladol o fewn y cyd-destun cynllunio.

##### Y mater dan sylw

36. Unwaith y mae datblygiad neu brosiect mawr wedi cael caniatâd cynllunio mae'n bwysig bod unrhyw heriau statudol pellach neu adolygiad barnwrol yn cael eu gwranddo cyn gynted â phosibl. Mae'r Llywodraeth yn poeni bod y system bresennol yn rhy araf deg gyda phenderfynu heriau o'r fath, gan lusgo weithiau am flynyddoedd, a bod yr oedi yma'n rhwystro prosiectau seilwaith mawr yn enwedig, gan greu ansicrwydd nid yn unig i ddiwydiant ond hefyd i breswylwyr, busnesau ac awdurdodau lleol. Felly, mae'r Llywodraeth eisiau symleiddio'r prosesau barnwrol a gweinyddol presennol a chyflymu'r broses o wrando heriau statudol ac adolygiadau barnwrol.
37. Yn 2011 derbyniodd y Llys Gweinyddol tua 400 o achosion cynllunio ac, o'r rhain, roedd rhwng 150 a 200 yn geisiadau am adolygiad barnwrol.<sup>21</sup> Ar gyfer adolygiadau

<sup>21</sup> Mae data ar Adolygiadau Barnwrol ar gael yma: <https://www.gov.uk/government/publications/court-statistics-quarterly-jan-mar-2013>. Mae ystadegau cryno ar heriau statudol ar gael yn Tabl 5.31 – ar gael yma: [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/207807/court-stats-q1-ad-tables.xls#5.30!A1](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/207807/court-stats-q1-ad-tables.xls#5.30!A1)

barnwrol, cymrodd tua 100 diwrnod ar gyfartaledd o wneud cais i gynnal y gwrandawriad rhagarweiniol a 370 diwrnod o wneud cais i'r gwrandawriad llawn. Ers tro bellach mae'r Llys Gweinyddol wedi bod yn rhedeg system o glustnodi achosion pwysig sydd angen penderfyniad mwy brys arnynt a / neu farnwr arbenigol, ac mae nifer o achosion cynllunio a seilwaith mawr yn disgyn i'r categori hwn. Y llynedd yn unig, clustnodwyd 15 o achosion gan gynnwys heriau statudol o dan y Ddeddf Gynllunio Gwlad a Thref<sup>22</sup> ac adolygiad barnwrol o brosiectau seilwaith mawr.

38. Gall achosion cynllunio eraill nad ydynt yn cael eu clustnodi gymryd llawer hirach i gael eu rhestru ac mae'r Llywodraeth yn poeni bod y penderfyniadau cynllunio llai pwysig hyn – a allai er hynny fod yn eithriadol bwysig i ddatblygu rhanbarthol, swyddi a thwf yr economi – yn wynebu oedi annerbyniol. Gwaethygir hyn yn aml gan wahanol heriau a wneir ar wahanol adegau yn y broses (er enghraifft adolygiad barnwrol o weithdrefnau ymgynghori ac asesiad o'r effaith amgylcheddol nes ymlaen, neu adolygiad barnwrol o gyfundrefnau caniatâd eraill) sy'n debygol o gael eu gwrandawro gan wahanol farnwyr. Gall yr oedi yma olygu bod rhai datblygiadau'n cael eu gohirio am gyfnod amhenodol neu y rhoir gorau iddynt yn llwyr, tra bo'r risg o oedi a'r gost gysylltiedig yn gallu cael effaith arswydus weithiau ar ddatblygiad – gan ychwanegu at ansicrwydd, tansellio hyder a chymell buddsoddwyr i gefnu arnynt.
39. Mae'r barnwyr sy'n eistedd yn y Llys Gweinyddol yn llywyddu dros ystod eang o achosion gan amrywio o geisiadau lloches i adolygiadau cynllunio mawr ac adolygiad o dreialon troseddol. Mae'r ffaith bod eu dyfarniadau fel arfer yn cael eu cadarnhau ar apêl yn profi bod eu penderfyniadau'n rhai cadarn, ond mae'r farnwriaeth a chynrychiolwyr cyfreithiol yn derbyn y bydd barnwyr anarbenigol yn cymryd hirach i wrando a phenderfynu achosion cynllunio, o ystyried y materion cymhleth a hynod dechnegol yn aml o ran y ffeithiau a'r gyfraith. Gellir dadlau bod defnyddio barnwyr cynllunio i llywyddu dros faterion barnwrol mwy cyffredinol yn ddefnydd aneffeithlon ohonynt, eto yn 2012 gwrandawodd tua 40 o farnwyr yr Uchel Lys 120 o achosion cynllunio terfynol yn y Llys Gweinyddol, y rhan fwyaf yn gwrandawro dim ond un achos.<sup>23</sup>

### Gwelliannau Diweddar

40. I geisio ateb y broblem hon, ym mis Gorffennaf 2013 cyflwynwyd Cynllunio Carlam i'r Llys Gweinyddol. O'r amrywiol ystyriaethau wrth restru achosion cynllunio yn y Llys Gweinyddol, mae dwy sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn. Y gyntaf yw bod angen nodi adolygiadau barnwrol a heriau cynllunio'n fuan yn y broses; yr ail yw sicrhau bod yr achosion hyn yn cael eu cyfeirio at aelodau priodol o'r farnwriaeth. Bydd Cynllunio Carlam yn darparu gwelliannau sylweddol o ran y ddau beth, fel bo'r heriau hyn yn cael eu penderfynu'n gynt yn unol â thargedau newydd.
41. Mae rhestru'n swyddogaeth farnwrol ac mae'r cyfrifoldeb am ddyrannu barnwyr i'r Llys Gweinyddol yn gorwedd gyda llywydd Is-adran Mainc y Frenhines a aeth ati, ynghyd â'i gydweithwyr yn yr uwch-farnwriaeth, i weithredu'r newidiadau i'r system restru a dyrannu barnwyr o dan y drefn Cynllunio Carlam newydd fel bo'r amser rhwng gwneud cais a'r penderfyniad terfynol mewn heriau cynllunio'n llawer llai.
42. Ail elfen y drefn Cynllunio Carlam newydd, sydd wedi bod yn ei lle ers Gorffennaf, yw bod Barnwr Cyswilt Cynllunio arbenigol yn adolygu pob achos cynllunio i sicrhau bod

<sup>22</sup> Ar sail gwybodaeth reoli ddangosol o'r Llys Gweinyddol.

<sup>23</sup> Ar sail gwybodaeth reoli ddangosol o'r Llys Gweinyddol.

pob achos seilwaith mawr o dan Ddeddf 2008 yn cael ei wrando gan Farnwr Uchel Lys arbenigol yn eistedd yn Llundain, y Rhanbarthau neu yng Nghymru. Ym mhob achos, bydd yr un barnwr yn delio â phob agwedd ar yr adolygiad barnwrol o'r dechrau i'r diwedd, gan wneud defnydd llawn o'r pwerau rheolaeth achosion sydd ar gael.

43. Fel rhan o'r drefn hon, mae gan y Llys Gweinyddol weithdrefnau newydd i glustnodi achosion cynllunio mor fuan â phosibl a blaenoriaethu eu rheolaeth gan sicrhau eu cynnydd yn unol â'r targedau canlynol:
- **Ceisiadau papur:** ceisiadau lle mae angen caniatâd i'w hanfon i gael eu dyrannu o fewn saith diwrnod i dderbyn y ffurflen cydnabod cyflwyno neu i'r dyddiad y daw'r cyfyngiad amser ar gyfer cyflwyno i ben. Yna i'w hanfon at farnwr o fewn pedwar diwrnod ar ddeg i'w derbyn.
  - Ceisiadau am ganiatâd **Adran 289** (gorfodi): i'w delio gyda nhw o fewn un mis i'w ffeilio neu gyflwyno.
  - **Gwrandawiadau Llafar:** i'w delio gyda nhw o fewn un mis i dderbyn y cais am wrandawriad llafar.
  - **Adran 288** (heriau statudol): i'w delio gyda nhw o fewn chwe mis i'w ffeilio.
  - **Adolygiadau barnwrol terfynol:** i'w gwrandao o fewn tri mis i hysbysiad o wrandawriad dros dro.
44. Mae'r gwelliannau hyn wedi eu cyflwyno ynghyd â mesurau eraill i leihau oedi gyda phenderfynu achosion cynllunio a seilwaith mawr yn gyffredinol. Fel y nodwn yn y rhagarweiniad i'r papur hwn, o'r 1 Gorffennaf 2013 ymlaen mae newidiadau i'r Rheolau Trefniadaeth Sifil wedi lleihau'r amser y mae'n rhaid cyflwyno her i benderfyniad cynllunio gan adolygiad barnwrol, o dri mis i chwe wythnos. Ac o'r hydref hwn, fel y nodwn hefyd ar ddechrau'r papur hwn, bydd adolygiadau barnwrol o geisiadau mewnfudo a lloches yn trosglwyddo i Siambr Mewnfudo a Lloches yr Uwch Dribiwnlys, cam y disgwylir iddo leihau'r ôl-groniad gwaith yn y Llys Gweinyddol yn sylweddol fel y gellir ymdrin yn llawer cynt ag achosion cynllunio, ymhlith eraill.
45. Mae amryw o geisiadau cynllunio'n cael effaith sylweddol ar gymunedau lleol ac yn cynhyrchu diddordeb dwys yn lleol. I gydnabod hyn, mae barnwyr cynllunio arbenigol wedi eu nodi yng nghanolfannau eraill y Llys Gweinyddol y tu allan i Lundain (Birmingham, Caerdydd, Manceinion, Bryste a Leeds) i wrando achosion lle nad oes angen Barnwyr Uchel Lys arbenigol.

## Y Cynigion

46. Mae'r Llywodraeth yn disgwyl i'r Cynllunio Carlam arwain at leihad sylweddol yn yr amser y mae'n ei gymryd i adolygiadau barnwrol o achosion cynllunio a seilwaith gael eu penderfynu, ac y byddwn yn glir ar hyn erbyn diwedd y flwyddyn.
47. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn credu y gallai fod sgôp i fynd ymhellach ac mae'n ystyried a oes potensial i wneud gwelliannau pellach drwy greu Siambr Gynllunio Arbenigol yn yr Uwch Dribiwnlys, er mwyn trosglwyddo heriau statudol ac adolygiadau barnwrol cynllunio i'r Siambr hon. Barn y Llywodraeth yw y byddai hyn yn debygol o gynnig mwy fyth o fantais ac, yn amodol ar farn pobl a'r gwelliannau gwirioneddol a

ddaw o weithredu'r drefn Cynllunio Carlam, bydd yn ceisio cyflwyno'r Siambr newydd cyn gynted ag y bo modd.<sup>24</sup>

48. Byddai hyn yn golygu bod barnwyr cynllunio arbenigol yn eistedd yn y Siambr Tir, sy'n uwch lys cofnodion ac sydd eisoes â phwerau o dan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 i wrando adolygiadau barnwrol. Mae ei barnwyr presennol yn cynnwys arbenigwyr mewn cyfraith tir, prisio a chynllunio.
49. Mae creu Siambr Gynllunio Arbenigol yn debygol o dawelu pryderon datblygwyr (cenedlaethol a rhyngwladol) y caiff unrhyw heriau eu datrys yn ddioed, yn enwedig os oes rheolau trefniadaeth ar gael i nodi cyfyngiadau amser penodol ar gyfer penderfynu heriau statudol ac adolygiadau barnwrol, gan arwain at broses gynt yn gyffredinol.
50. Dylai trosglwyddo achosion i'r Siambr Tir olygu bod achosion cynllunio'n cael eu blaenoriaethu'n well. Byddai hefyd yn golygu y gallai barnwyr arbenigol, a fyddai wedi eu penodi'n barod i'r Siambr Tir, wneud y mwyaf o'u sgiliau a'u gwybodaeth arbenigol i sicrhau bod achosion yn symud ymlaen yn ddioed at benderfyniad. Fodd bynnag, dylid nodi bod holl farnwyr cynllunio arbenigol yr Uchel Lys yn eistedd yn y Llys Gweinyddol ac y gellir ei defnyddio yn Llundain neu'r tu allan i Lundain, fel y bo'n briodol.
51. Os gweithredir yr opsiwn hwn, cynigir bod y Siambr Tir yn cael ei hail-enwi i adlewyrchu ei chylch gwaith ehangach - er enghraifft y Siambr Tir a Chynllunio.
52. Hefyd, yn sgîl awgrymiadau gan y farnwriaeth, bydd y Llywodraeth yn ystyried ynghyd â'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol a oes dadl dros gyflwyno 'chwynwr' caniatâd ar gyfer heriau adran 288 i atal achosion gwan rhag mynd ymhellach.

## **Cwestiynau**

**Cwestiwn 1: A ydych yn rhagweld manteision i greu Siambr Tir a Chynllunio arbenigol sy'n fwy na'r rhai y disgwylir eu gweld o'r Cynllunio Carlam?**

**Cwestiwn 2: Os credwch fod angen Siambr Tir a Chynllunio newydd, pa ofynion gweithdrefnol fyddai'n hwyluso ei rhedeg a pha fathau eraill o achosion (caniatadau amgylcheddol cysylltiedig, er enghraifft) allai'r Siambr newydd eu gwranddo?**

**Cwestiwn 3: A oes achos dros gyflwyno 'chwynwr' caniatâd ar gyfer heriau statudol o dan y Ddeddf Gynllunio Gwlad a Thref?**

**Cwestiwn 4: A oes gennych unrhyw enghreifftiau / tystiolaeth o'r effaith y mae adolygiad barnwrol, neu her statudol i benderfyniadau gan lywodraeth, yn ei chael ar ddatblygiad, gan gynnwys seilwaith?**

**Cwestiwn 5: Yn fwy cyffredinol, a oes unrhyw awgrymiadau yr hoffech eu gwneud i gyflymu gweithrediad y prosesau adolygiad barnwrol neu herio statudol yng nghyswllt datblygiad, gan gynnwys seilwaith?**

---

<sup>24</sup> Pe bai heriau statudol o dan Ddeddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990 yn cael eu symud i'r siambr newydd, byddai angen pasio deddfwriaeth sylfaenol. Gellid ail-ddyrannu ceisiadau adolygiad barnwrol i siambr o'r fath drwy gyfarwyddyd gan yr Arglwydd Brif Ustus ond byddai newidiadau i'r rheolau gweithdrefnol yn cymryd o leiaf chwe mis i'w datblygu a'u gweithredu.

## Awdurdodau Lleol yn Herio Prosiectau Seilwaith

53. Mae'r Llywodraeth yn poeni bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i ddwyn ac amddiffyn adolygiadau barnwrol. Mae hyn yn bryder arbennig lle mae'r herio'n ymwneud â phrosiectau seilwaith sy'n hanfodol i sbarduno twf ac adferiad yr economi genedlaethol neu brosiectau sy'n allweddol fel arall i ddatblygiad mewn ardal benodol.
54. Pan basiwyd Deddf Gynllunio 2008 crëwyd cyfundrefn caniatáu datblygu symlach ar gyfer prosiectau seilwaith cenedlaethol bwysig yn ymwneud, er enghraifft, â thrafnidiaeth, ynni a dŵr. Mae Deddf Twf a Seilwaith 2013 yn golygu bod modd defnyddio'r gyfundrefn honno ar gyfer prosiectau busnes neu fasnachol eraill o bwys cenedlaethol.
55. O dan gyfundrefn Deddf 2008, yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol sy'n penderfynu llawer o'r ceisiadau am ganiatâd ar gyfer prosiectau, wedi ystyried unrhyw Ddatganiad Polisi Cenedlaethol perthnasol a dilyn argymhelliad awdurdod archwilio penodedig. Mae'r gyfundrefn yn rhedeg yn unol ag amserlen statudol.
56. Caiff penderfyniadau eu herio gan adolygiad barnwrol, ond gyda chyfyngiadau amser byrrach fel y rhagnodir o dan adran 118 Deddf 2008.
57. Mae gan gyfundrefn Deddf 2008 elfennau tebyg i Ddeddf Argyfwng ac Adferiad 2010 (yn yr Iseldiroedd) sydd hefyd yn darparu proses symlach ar gyfer cyflawni prosiectau seilwaith pwysig ac yn hwyluso penderfyniadau gan lywodraeth ganolog. Ond yn wahanol i Ddeddf 2008 mae deddfwriaeth yr Iseldiroedd yn cyfyngu ar hawl unrhyw gorff llywodraeth i herio penderfyniadau o dan y gyfundrefn hon drwy'r llysoedd gweinyddol. O dan y gyfundrefn honno gall corff o'r fath, gan gynnwys awdurdod lleol, herio'r penderfyniad dim ond lle mai'r corff hwnnw yw'r ymgeisydd am ganiatâd cynllunio o dan y Ddeddf.<sup>25</sup>

## Y Rhesymeg

58. Mae prosiectau seilwaith cenedlaethol bwysig yn greiddiol i gyflawni agenda seilwaith ac economaidd ehangach y Llywodraeth. Wrth natur, mae'r prosiectau hyn yn cael effaith llawer ehangach na'r ardal neu'r ardaloedd awdurdod lleol yn unig. Mae cyfyngiadau'n barod ar bryd all awdurdod lleol (neu unrhyw gorff arall) herio'r broses o ganiatáu prosiectau seilwaith cenedlaethol bwysig o dan Ddeddf 2008, fel bod angen dwyn adolygiadau barnwrol o amrywiol rannau o'r broses o fewn 6 wythnos i'r digwyddiad perthnasol, yn unol ag adran 118 y Ddeddf. Fodd bynnag, gwahoddwn farn yma ynghylch a ddylid cyfyngu ymhellach ar hyn.
59. Barn y Llywodraeth yw bod gan bob rhan o'r sector cyhoeddus gyfrifoldeb i wario arian trethdalwyr yn ddoeth, gan gynnwys drwy ddefnyddio dulliau datrys anghydfod eraill lle bo'n bosibl yn hytrach na throi at achosion llys drud. Mae'r Llywodraeth eisoes wedi cymryd camau i annog holl adrannau ac asiantaethau'r Llywodraeth i ystyried opsiynau eraill fel cyfryngu neu gymrodeddu cyn mynd ag anghydfod i'r llys, drwy Ymrwymiad Datrys Anghydfod 2011<sup>26</sup>, oedd yn adnewyddu a chryfhau Adduned Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod 2001. Mae gan y Llywodraeth ddiddordeb mewn gweld a

<sup>25</sup> Ond medrant dal ddwyn heriau sifil, o dan y gyfraith contractau er enghraifft.

<sup>26</sup> Gweler: <http://www.justice.gov.uk/downloads/courts/mediation/drc-may2011.pdf>

ddylai'r egwyddorion hyn gymhwyso i awdurdodau lleol ac a ddylid eu cryfhau yn achos prosiectau seilwaith cenedlaethol bwysig.

60. Hyd yma nid yw awdurdodau lleol wedi herio prosiectau seilwaith cenedlaethol bwysig, ac mae 12 o'r rhain wedi cwblhau'r broses ers i'r gyfundrefn ddod i rym ym mis Mawrth 2010. Fodd bynnag mae'r Llywodraeth yn awyddus i ddeall a oes pryderon y gallai hyn fod yn broblem yn y dyfodol, o ystyried cyfrifoldebau awdurdodau lleol dros geisiadau am brosiectau seilwaith cenedlaethol bwysig o dan Ddeddf 2008. Mae'r awdurdod neu'r awdurdodau lleol lle bydd Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol Bwysig i'w lleoli, a'u cyffiniau, wedi eu cynnwys ar y rhestr o ymgylgoreion cyn-cais (h.y. rhaid i'r hyrwyddwr holi eu barn am y cais drafft ac ystyried eu barn cyn gwneud y cais llawn). Mae hyn yn rhoi cyfle i Awdurdodau Lleol gymryd rhan yn y broses.

### Y Cynnig

61. Felly mae'r Llywodraeth eisiau holi barn ynghylch a ddylid cyfyngu ymhellach ar hawliau awdurdodau lleol i herio penderfyniadau ar brosiectau seilwaith cenedlaethol bwysig yng Nghymru a Lloegr, oni bai mai nhw yw'r ymgeisydd am ganiatâd datblygu.
62. Byddai pobl a grwpiau a allai fodloni'r prawf cymhwyster cyffredinol dal yn gallu herio penderfyniadau a byddai'r cymhwyster hwnnw, hyd yn oed pe cawsai ei ddiwygio fel a gynigir mewn rhan arall o'r papur hwn, yn parhau i ymgorffori dull eang yn achos heriau amgylcheddol. Gallai cyrff llywodraeth dal gael dylanwad dros a herio prosiectau perthnasol drwy ddulliau heblaw am adolygiad barnwrol.

### Cwestiynau

**Cwestiwn 6: A ddylid cyfyngu ymhellach ar hawliau awdurdodau lleol i herio penderfyniadau ar brosiectau seilwaith cenedlaethol bwysig?**

**Cwestiwn 7: A oes gennych unrhyw dystiolaeth neu enghreifftiau o achosion wedi eu dwyn gan awdurdodau lleol ac effaith hyn (e.e. cost neu oedi)?**

### **Heriau i benderfyniadau cynllunio o dan adrannau 288 a 289 Deddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990**

63. Mae'r Llywodraeth hefyd yn ystyried a fyddai'n briodol bod pwrs y wlad yn parhau i ariannu cymorth cyfreithiol ar gyfer heriau statudol i benderfyniadau cynllunio gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 288 a 289 Deddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990, yn benodol heriau o dan yr adrannau hyn lle apeliwyd penderfyniad neu ddiffyg penderfyniad yr awdurdod cynllunio lleol i'r Ysgrifennydd Gwladol yn barod, neu lle cymerodd benderfyniad ar gais a alwyd i mewn (a fyddai fel arfer yn golygu ymchwiliad cyhoeddus).
64. Ar hyn o bryd ac fel rheol nid oes cymorth cyfreithiol ar gael i achosion cynllunio neu heriau statudol o dan adrannau 288 a 289 Deddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990 ond mae ar gael (yn amodol ar brawf modd a haeddiant) lle mae unigolyn yn wynebu perygl taer o golli ei gartref o ganlyniad i'r achos llys dan sylw.
65. Nid adolygiadau barnwrol yw'r heriau hyn. Mae'r heriau statudol hyn yn digwydd ar ddiwedd proses drylwyr, sydd hefyd yn cael ei hariannu gan bwrs y wlad, ac sydd eisoes wedi rhoi cyfle i unigolion roi eu hachos gerbron naill ai i'r awdurdod cynllunio lleol ac yna ar apêl i Arolygydd Cynllunio annibynnol, neu i ymchwiliad cyhoeddus.



66. Yn yr achosion hyn, mae'r llywodraeth ganolog yn gwario mwy o arian trethdalwyr i ariannu heriau cyfreithiol i benderfyniadau a wnaed gan lywodraeth ganolog ar ôl i'r achos gael ei wrando'n barod gan Arolygydd Cynllunio annibynnol. O ystyried hyn oll, yn ogystal â'r lles cyhoeddus cryf iawn na ddylai achosion llys achosi oedi diangen i achosion cynllunio, byddem yn croesawu barn ynghylch a ddylai gymorth cyfreithiol wedi'i ariannu gan y trethdalwr barhau i fod ar gael i'r heriau hyn (ac eithrio lle byddai methu ag ariannu her o'r fath yn arwain at fethu neu risg o fethu â chynnal hawliau'r ECHR neu'r UE).

**Cwestiwn 8: A oes gennych farn ynghylch a ddylai cymorth cyfreithiol wedi'i ariannu gan y trethdalwr barhau i fod ar gael i herio penderfyniadau cynllunio'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 288 a 289 Deddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990 lle apeliwyd yn barod i'r Ysgrifennydd Gwladol neu lle mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud penderfyniad ar gais a alwyd i mewn (ac eithrio lle byddai methu ag ariannu her o'r fath yn arwain at fethu neu risg o fethu â chynnal hawl y ceisydd i dderbyn cymorth cyfreithiol o dan yr ECHR neu'r UE)?**

## 4. Cymhwyster

### Rhagarweiniad

67. Mae'r cwestiwn o gymhwyster (neu *locus standi*) yn ymwneud â phwy sy'n gallu dwyn hawliad i gynnal adolygiad barnwrol. Mae p'un ai yw hawlydd yn gymwys neu beidio'n dibynnu ar faint o fudd sydd ganddynt yn y mater sydd i'w benderfynu. Mae'r Llywodraeth yn poeni bod y diffiniad o gymhwyster ynghylch pwy all ddod â hawliad yn rhy eang, fel bod unigolion neu grwpiau sydd heb unrhyw fudd uniongyrchol ac amlwg yn y mater dan sylw'n gallu dwyn adolygiad barnwrol, weithiau dim ond i greu cyhoeddusrwydd neu achosi oedi. Mae'r Llywodraeth am holi barn ynghylch a ddylai hawlwr sydd heb fudd uniongyrchol neu amlwg fod yn gallu dwyn adolygiad barnwrol, neu a oes angen diwygio'r drefn.

### Y Sefyllfa Bresennol

68. Mae'r prawf cymhwyster presennol wedi'i ragnodi yn adran 31(1) Deddf Uwchlysoedd 1981, ac o dan y prawf hwn ni ddylai'r llys ganiatáu cais am adolygiad barnwrol oni bai fod y llys yn "ystyried bod gan yr hawlydd fudd digonol yn y mater sy'n destun y cais". Mae'r prawf hwn wedi'i ddechongli gan y llysoedd i fod yn cynnwys achosion lle byddai er budd i'r cyhoedd bod mater yn cael ei adolygu.<sup>27</sup>

69. Mae Rhan 54 yn y Rheolau Trefniadaeth Sifil yn nodi'r broses o wneud cais am ganiatâd. O dan Reol 54.8, os yw'r diffynnydd am herio'r hawliad, dylid cynnwys crynodeb o'r seiliau dros wneud hynny yn y ffurflen cydnabod cyflwyno a'i ffeilio ddim mwy na 21 diwrnod ar ôl cyflwyno'r ffurflen hawliad i'r diffynnydd. Gall y seiliau hyn gynnwys nad oes gan y ceisydd fudd digonol ac, felly, y dylid gwrthod caniatâd i herio.

70. Os yw'r llys yn ystyried yn y cam caniatâd bod gan y ceisydd fudd (neu gymhwyster) digonol (a bod yr adolygiad barnwrol yn mynd yn ei flaen, gellir edrych o'r newydd ar faint budd yr hawlydd pan fydd y llys yn ystyried nes ymlaen a ddylid caniatáu'r camau unioni a hawlir yn y gwrandawriad terfynol.<sup>28</sup>

71. Cafodd y broses dau gam yma ei grynhai gan yr Arglwydd Donaldson (pan oedd yn Feistr y Rholiau) fel a ganlyn:

"Bydd y prawf cam cyntaf ynghylch cael caniatâd yn arwain at wrthod os nad oes gan y ceisydd unrhyw fudd o gwbl ac, mewn gwirionedd, nad yw'n ddim mwy na niwsans busneslyd. Fodd bynnag, os yw'r cais yn ymddangos i fod yn un y gellir ei ddadlau fel arall ac nid oes rhwystr disgresiynol arall, fel arafwch ar ran y ceisydd, gall y ceisydd ddisgwyl cael caniatâd i ddwyn cais ac yna byddai'r prawf budd neu gymhwyster yn cael ei ail-gymhwyso ar sail disgresiwn pan wrandewir y cais terfynol. Yn yr ail gam hwn, byddai cryfder budd y ceisydd yn un o'r ffactorau fyddai'n cael ei gloriannu."<sup>29</sup>

<sup>27</sup> *R v Secretary of State for Foreign and Commonwealth Affairs, ex p Lord Rees- Mogg* [1994] QB 552

<sup>28</sup> *R v Secretary of State ex p Presvac Engineering Ltd* (1991) 4 Admin L Rep 121 at 145G-146B

<sup>29</sup> *R v Monopolies and Mergers Commission ex parte Argyll Group* [1986], 1 WLR 763 773.

72. Yn y ddau gam, mae'r cwestiwn o fudd digonol yn gwestiwn cymysg o ffeithiau a chyfraith ac yn seiliedig ar y berthynas rhwng y ceisydd a'r mater sy'n berthnasol i'r hawliad, gan gynnwys yr holl amgylchiadau eraill.<sup>30</sup> Bydd cymhwyster (a materion gweithdrefnol eraill) yn cael ei farnu yng ngoleuni barn y llys o haeddiannau a phwysigrwydd yr her, absenoldeb tebygol unrhyw heriwr cyfrifol arall, natur y tor-hawliau honedig ac unrhyw rôl gan y person neu'r grŵp dan sylw yn y mater.<sup>31</sup> Mae'r llysoedd yn cydnabod y gallai dinesydd cydwybodol heb unrhyw fudd cyfreithiol uniongyrchol yng nghanlyniad achos, ac yn wahanol i "niwsans busneslyd", gael caniatâd i ofyn am adolygiad barnwrol mewn achosion sy'n cyflwyno mater difrifol o bwysigrwydd cyhoeddus.<sup>32</sup>
73. Mae'r ystyriaeth o gymhwyster yn llysoedd Cymru a Lloegr yn ddarostyngedig i ofynion cyfraith yr UE sy'n ymgorffori Confensiwn Aarhus<sup>33</sup> ynghylch mynediad at gyfiawnder mewn materion amgylcheddol. Mae hyn yn rhoi hawl i aelodau o'r "cyhoedd perthnasol" a rhai cyrff anllywodraethol ddefnyddio gweithdrefn i herio materion amgylcheddol (yn amodol ar ofynion y gyfraith genedlaethol). Mae'r dehongliad presennol o "fudd digonol" sy'n cynnwys rhai o fudd cyhoeddus yn cynnig dull mwy hael na'r hyn sydd ei angen o dan Aarhus.

### Y mater dan sylw

74. Dros amser, mae'r llysoedd wedi mabwysiadu dull cynyddol eang at y prawf "budd digonol" fel nad oes bellach angen budd personol yn y mater sy'n destun sylw'r cais. Daeth y prawf "budd digonol" yn glwyd gymharol isel i ddarpar hawlwyd neidio drwyddi, fel bod lles cyhoeddus cryf yn gallu cymhwyso rhywun hyd yn oed lle nad oes gan yr hawlwydd unrhyw fudd uniongyrchol. Roedd y Llys Apêl yn gwbl glir wrth nodi'r egwyddor o fudd digonol lle mae person "sydd, er yn gyfreithlon ac efallai gyda diddordeb angerddol mewn sicrhau'r unioni a geisir, yn dibynnu am seiliau dros geisio'r unioni hwnnw ar faterion nad oes ganddo unrhyw fudd personol ynddynt" yn wahanol i rywun sydd heb fudd o gwbl yn y canlyniad.<sup>34</sup>
75. Cytunwyd bod gan yr actifydd heddwch Maya Evans, er enghraifft, gymhwyster i herio arfer yr Ysgrifennydd Amddiffyn o drosglwyddo i'r awdurdodau Afghan unrhyw wrthryfelwyr dan amheuaeth wedi eu caethiwo gan luoedd arfog y Deyrnas Unedig fel rhan o'r ymgyrch yn Afghanistan. Nid oedd yr arfer yn effeithio arni hi'n uniongyrchol ond roedd ganddi fudd yn y mater fel aelod pryderus o'r cyhoedd ac ystyriai'r llys bod ganddi felly fudd digonol. Nodwyd gan y llys y byddai cymhwyster y ceisydd wedi bod yn broblem ar un adeg.<sup>35</sup>
76. Felly hefyd, nid oedd gan Fudiad Datblygu'r Byd (mudiad ymgyrchu) aelodau na chefnogwyr oedd yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y penderfyniad i roi cymorth

<sup>30</sup> *R v Inland Revenue Commissioners Ex p National Federation of Self Employed and Small Businesses Ltd* [1982] AC 617

<sup>31</sup> *R(Grierson) v. OFCOM and Atlantic Broadcasting* [2005] EWHC 1899; *R v Secretary of State for Foreign and Commonwealth Affairs Ex p World Development Movement Ltd* [1995] 1 WLR 386.

<sup>32</sup> *R v Secretary of State for Foreign and Commonwealth Affairs, ex p Lord Rees-Mogg* [1994] QB 552.

<sup>33</sup> Cyfarwyddyd 2011/92/EU ar asesu effeithiau prosiectau cyhoeddus a phreifat penodol ar yr amgylchedd, OJ L26/1.

<sup>34</sup> *R (Kides) v South Cambridgeshire District Council* [2002] EWCA Civ 1370, [2003] JPL 431 at 132.

<sup>35</sup> *R (on the application of Maya Evans) v Secretary of State for Defence* [2010] EWHC 1445 (Admin) per LJ Richards – gw. para 2.

tramor i Lywodraeth Malaysia ond tybiwyd eu bod yn gymwys i herio'r penderfyniad ar sail lles y cyhoedd.<sup>36</sup>

77. Mae'n bosibl i hawliad gael ei ddwyn gan grwpiau ymgyrchu a chymdeithasau anghorfforedig, rhai ohonynt wedi eu sefydlu'n un swydd er mwyn dwyn heriau cyfreithiol ac i osgoi'r goblygiadau cost llawn.<sup>37</sup> Mewn rhai achosion, nid yw'r grŵp na'i aelodau'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y penderfyniad neu'r weithred dan sylw, ac mae eu budd yn y bôn yn un gwleidyddol. Ym mharagraffau 167-179, mae'r Llywodraeth yn ymgynghori ar newid y rheolau ar ddyfarnu costau yn erbyn trydydd partïon sy'n ymyrryd a phartïon allanol sy'n cyfrannu at hawliad adolygiad barnwrol.
78. O gofnodion y Llys Gweinyddol ar gyfer achosion gafodd eu dwyn rhwng 2007 a 2011, cafwyd bod tua 50 o adolygiadau barnwrol pob blwyddyn wedi eu dwyn i bob golwg gan gyrff anllywodraethol, elusennau, grwpiau ymgyrchu a mudiadau ffydd, h.y. gan hawlwyd heb efallai unrhyw fudd uniongyrchol yn y mater dan sylw.<sup>38</sup> Roedd yr achosion hyn yn tueddu i fod yn gymharol lwyddiannus o'u cymharu ag achosion Adolygiad Barnwrol eraill; ar gyfartaledd roedd 20 yn cael eu caniatáu'n flynyddol, roedd tua 13 yn cael eu gwrandawriad terfynol a 6 yn llwyddiannus i'r hawlydd. O ran y rhain, mae archwiliad pellach ohonynt yn awgrymu y gallai fod bron i 30% o'r ceisiadau yn gysylltiedig â materion amgylcheddol (gw. para. 81 isod).
79. Mae'r Llywodraeth yn poeni bod y dull eang hwn o ystyried cymhwyster wedi troi'r fantol yn rhy bell, fel bod adolygiad barnwrol yn cael ei ddefnyddio i greu cyhoeddusrwydd neu i achosi oedi i broses lle gwneir penderfyniadau priodol.
80. Mae'r pryderon yn seiliedig ar yr egwyddor mai'r Senedd a'r Llywodraeth mewn grym sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu beth sydd o les neu fudd i'r cyhoedd. Ar y sail hon, ni ddylid defnyddio adolygiad barnwrol i danseilio'r rôl hon drwy adael i unigolion ddod ag achosion i'r llys lle nad oes ganddynt unrhyw fudd uniongyrchol yn y canlyniad. Mae'r Llywodraeth yn credu y dylai fod gan bobl sy'n dwyn adolygiadau barnwrol fudd yn yr achos ac, felly, mae eisiau holi barn ynghylch a ddylai'r prawf cymhwyster fynnu budd mwy uniongyrchol ac amlwg yn y mater sy'n destun y cais am adolygiad barnwrol. Byddai hynny'n eithrio pobl gyda dim ond budd gwleidyddol neu theoretig, fel grwpiau ymgyrchu.
81. Mae'r Llywodraeth yn derbyn bod gofynion cyfraith yr UE a Chonfensiwn Aarhus yn golygu y byddai angen ymdrin yn wahanol ag achosion lle codir materion amgylcheddol. Mae gan gyrff anllywodraethol sy'n ymgyrchu dros warchod yr amgylchedd hawliau cymhwyster wedi eu gwarantu o dan y Confensiwn a chyfraith yr UE, hyd yn oed os nad effeithir yn uniongyrchol arnynt. Ni fyddai hyn yn ymestyn i gyrff anllywodraethol nad ydynt yn ymgyrchu dros faterion amgylcheddol neu nad yw gwarchod yr amgylchedd yn un o'u hamcanion. Rhaid i rai unigolion hefyd fod â chymhwyster yng nghyswllt materion amgylcheddol lle na effeithir yn uniongyrchol arnynt. Ond gallai hynny fod yn gyfyngedig i achosion lle gall yr unigolyn ddangos bod ganddo ef neu hi fudd diffuant yn y mater amgylcheddol dan sylw a digon o wybodaeth i weithredu ar ran lles y cyhoedd.<sup>39</sup> Gallai ddangos hyn, er enghraifft, drwy fod yn

<sup>36</sup> *Ex p World Development Movement Ltd* [1995] 1 WLR 386

<sup>37</sup> *R. v Leicestershire CC Ex p. Blackfordby and Boothorpe Action Group Ltd* [2001] Env. L.R. 2 per Richards J

<sup>38</sup> Ar sail llaw-ddadansoddiad o wybodaeth ar lefel achosion. Oherwydd ansicrwydd o ran cofnodi a dehongli, dangosol yn bennaf yw'r dadansoddiad hwn.

<sup>39</sup> *Walton v The Scottish Minsters* [2012] UKSC 44

aelod o gymdeithas, drwy gymryd rhan mewn gweithgaredd, drwy brofiad o weithio mewn maes penodol neu drwy fod â chymwysterau academaidd addas. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu'r egwyddor gyffredinol y dylai fod gan unrhyw un sy'n dwyn adolygiad barnwrol fudd cryf yn y canlyniad.

82. Mae meysydd eraill lle mae angen i gorff, yn gyfreithiol, fod â chymhwyster i herio penderfyniad. Er enghraifft, mae gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol bŵer i ddwyn achos adolygiad barnwrol mewn materion yn ymwneud â'i swyddogaethau statudol, gan gynnwys rhai enghreifftiau o gydraddoldeb. Nid yw'r Llywodraeth am wneud i ffwrdd â'r trefniadau presennol hyn.

### Opsiynau eraill

83. Mae amryw o brofion eraill sy'n cael eu cymhwyso mewn gwahanol feysydd a allai fod yn sail ar gyfer prawf newydd o gymhwyster adolygiad barnwrol. Ar gyfer y profion cymhwyster o dan gyfraith yr UE, Deddf Hawliau Dynol 1998 ac ar gyfer apeliadau cynllunio statudol, rhaid cael budd mwy uniongyrchol yn yr achos ac mae'r prawf cymorth cyfreithiol sifil yn canolbwyntio ar y berthynas rhwng y ceisydd a'r canlyniad posibl. Byddai mabwysiadu unrhyw un o'r rhain ar gyfer adolygiad barnwrol yn gofyn diwygio'r prawf 'budd digonol' yn Neddf Uwchlysoedd 1981.
84. Mae'r prawf cymhwyster cyffredinol i herio mesurau'r UE yn Llys Cyfiawnder Ewrop yn gofyn cael "pryder uniongyrchol ac unigol".<sup>40</sup> Mae hwn yn brawf caeth sy'n mynnu bod y nodweddion a'r amgylchiadau'n golygu bod gan yr hawlydd mewn sefyllfa arbennig – yn hytrach nag eraill – bryder "unigol".<sup>41</sup> O ganlyniad cafwyd sefyllfa, er enghraifft, lle nad oedd gan fasnachwyr bananas penodol gymhwyster i herio'r rheolau ar fewnforio bananas oherwydd iddynt fetu â phrofi y cawsant eu heffeithio mewn ffordd unigryw (o'u cymharu â masnachwyr bananas eraill).<sup>42</sup> Barn y Llywodraeth y byddai prawf mor gaeth yn annhebygol o fod yn briodol mewn achos adolygiad barnwrol.
85. Darperir dull cul ond llai caeth o ystyried cymhwyster o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. O dan adran 7(1), gall rhywun ond dwyn hawliad o dan y Ddeddf os ydynt neu byddent yn dioddef o dor-hawliau dynol honedig. Mae hyn yn adlewyrchu dull Llys Cyfiawnder Ewrop<sup>43</sup> o ymdrin â chymhwyster. Mae hwn yn cyfyngu ar allu grwpiau ymgyrchu i ddefnyddio tor-hawliau dynol fel sail dros herio oni bai mai nhw'n bersonol yw'r dioddefwr. Mae perthnasoedd teuluol agos wedi bod yn ddigon i brofi statws dioddefwr fel sail er na fydd angen hyn ym mhob amgylchiad.<sup>44</sup> Gallai fod angen rhywfaint o gysylltiad â'r hawl yr honnir iddi gael ei thorri, er enghraifft gwrthwynebiad buan yn ystod y broses y cwynir amdani, neu dystiolaeth o geisio gwneud hawliad am bensiwn yr honnwyd iddo fod yn wahaniaethol.<sup>45</sup>
86. Mewn heriau cynllunio statudol, dim ond "person sydd wedi cael cam"<sup>46</sup> sydd â hawl i herio'r penderfyniad. Yn y rhan fwyaf o achosion, rhaid i rywun felly fod wedi cymryd

<sup>40</sup> Erthygl 230 EC gall unigolion ofyn bod deddf gyfreithiol Gymunedol yn cael ei dileu, ar yr amod ei bod yn ymwneud yn uniongyrchol â nhw fel unigolion.

<sup>41</sup> *Plaumann v Commission* 1963 Case 25/62

<sup>42</sup> *Comafrica SpA v Commission of the European Communities* (T-139/01) (Heb adrodd, Chwefror 3, 2005) (CFI)

<sup>43</sup> Erthygl 34 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

<sup>44</sup> *Timurtas v Turkey* (2001) 33 EHRR 6

<sup>45</sup> *Austin Hall Building Ltd v Buckland Securities Ltd* [2001] BLR 272; *Hooper v Secretary of State for Work and Pensions* [2005] UKHL 29

<sup>46</sup> Adran 288 Deddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990

rhan ymlaen llaw yn y broses benderfynu (er enghraifft rôl weithredol yn y broses gynllunio) neu fod â budd perthnasol yn y tir dan sylw (ei berchennog er enghraifft). Barn y Llys Apêl yw mai mater gwrthrychol yw penderfynu a yw person “y wedi cael cam”, felly bod gwahaniaeth rhwng teimlo eich bod wedi cael cam a’ch bod wedi cael cam.<sup>47</sup>

87. Mae’r prawf o ran darparu arian cyhoeddus sifil ar gyfer hawliad adolygiad barnwrol yn mynnu bod gan y ceisydd am gymorth cyfreithiol fudd uniongyrchol a bod:

“...potensial i greu budd i’r unigolyn,  
i aelod o deulu’r unigolyn neu i’r amgylchedd.”<sup>48</sup>

88. I bwrpas y prawf ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil, gall unigolyn gynnwys personau cyfreithiol eraill fel cwmnïau. Mae unigolyn yn aelod o deulu unigolyn arall os ydynt yn berthynas (p’un ai drwy waed, hanner gwaed, priodas neu bartneriaeth sifil), yn cydfyw neu os oes gan un gyfrifoldeb rhiant dros y llall.<sup>49</sup> Mae elfen deuluol y prawf yn bwysig oherwydd, fel arall, ni allai rhieni ddwyn achos ynghylch mater oedd yn effeithio’n uniongyrchol ar eu plant.

89. Mae’r Llywodraeth hefyd yn glir na fyddai unrhyw brawf newydd yn mynnu bod unrhyw ddifrod neu ymyrryd uniongyrchol wedi digwydd. Fel ar hyn o bryd, byddai budd posibl yn y dyfodol yn ddigon.

90. Pe bai prawf cymhwyster mwy caeth yn cael ei ddewis, byddai angen ystyried y cwestiwn cysylltiedig o rôl trydydd partïon mewn adolygiadau barnwrol. Mae’r Llywodraeth yn cydnabod, mewn rhai achosion, y gallai’r llys elwa o’r wybodaeth y gallai grwpiau arbenigol ei darparu, ond ni fyddai am weld adolygiadau barnwrol yn cael eu gor-gymhlethu gan roi mwy o rôl i drydydd partïon na allent ddod ag achos ar eu pen eu hunain. Mae gan y llys ddewisiadau iddo’n barod i ddefnyddio’r wybodaeth yma lle nad yw’r grwpiau hyn yn un o’r partïon. Gallai’r llys adael i drydydd partïon ffeilio tystiolaeth neu ymddangos mewn gwrandawriad adolygiad barnwrol ac, mewn amgylchiadau eithriadol, gwahodd trydydd partïon i ymyrryd.<sup>50</sup> Mae’r Llywodraeth am holi barn a fyddai hefyd angen, pe bai’n dewis prawf cymhwyster culach, newid y rheolau’n ymwneud â phartïon budd a phartïon ymyrryd, a pha newidiadau allent fod.

## Cwestiynau

**Cwestiwn 9: A gredwch fod problem gyda dwyn achos lle nad oes gan yr hawlydd fawr ddim neu ddim budd uniongyrchol o gwbl yn y mater? Unrhyw enghreifftiau?**

**Cwestiwn 10: Pe bai’r Llywodraeth yn deddfu i ddiwygio’r prawf cymhwyster, a fyddai unrhyw un o’r opsiynau eraill presennol yn darparu sail resymol? A ddylai’r Llywodraeth ystyried opsiynau eraill?**

**Cwestiwn 11: A oes unrhyw faterion eraill, fel y rheolau ar bartïon sy’n ymyrryd, y dylai’r Llywodraeth eu hystyried wrth geisio datrys y broblem o ddefnyddio adolygiad barnwrol fel offeryn ymgyrchu?**

<sup>47</sup> *Ashton v. Secretary of State for Communities and Local Government and Coin Street Builders* [2010] EWCA civ 600

<sup>48</sup> Paragraff 19(3) Atodlen 1 i Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyd 2012

<sup>49</sup> Op. cit. para. 9.

<sup>50</sup> Gweler, er enghraifft, *Rogers v Merthuyr Tydfil County Borough Council* [2006] EWCA Civ 1134.

## 5. Diffygion Gweithdrefn

### Rhagarweiniad

91. Mae'r Llywodraeth yn credu y gallai heriau'n ymwneud â materion gweithdrefn yn unig gael eu penderfynu'n gynt a gyda llai o adnoddau. Mewn rhai amgylchiadau nid yw achos sy'n seiliedig ar weithdrefn wallus, er yn dechnegol yn llwyddiannus, o unrhyw fudd i'r hawlydd drwy fod yr un penderfyniad neu weithred yn digwydd eto. O ganlyniad, mae'r Llywodraeth eisiau cryfhau pwerau'r llys lle byddai cywiro gwall honedig mae'n debyg wedi gwneud 'dim gwahaniaeth o gwbl' i'r canlyniad gwreiddiol.

### Y Sefyllfa Bresennol

92. Mae gweithdrefn afreolaidd neu amhriodol yn sail dros adolygiad barnwrol. Er y gallai gynnwys annhegwch sylweddol, yn aml iawn efallai bod yr hawlydd yn dadlau bod corff wedi methu â dilyn proses weithdrefnol benodol.
93. Mae'r llysoedd eisoes wedi sefydlu egwyddor o 'ddim gwahaniaeth': lle mae'r llys yn fodlon y byddai'r canlyniad yn anochel wedi bod yr un fath hyd yn oed pe na bai'r diffyg honedig wedi digwydd, gall wrthod yr unioni a geisir.<sup>51</sup> Mae'r llys yn edrych y tu hwnt i'r cwestiwn cul a wnaed y penderfyniad mewn ffordd weithdrefnol amhriodol, gan hefyd ystyried y cwestiwn ehangach a fyddai penderfyniad o'i gymryd yn briodol wedi bod o fudd i'r hawlydd.
94. Mae dull y llysoedd yn seiliedig ar nad oes y fath beth â thor-degwch gweithdrefnol technegol – rhaid cael rhywfaint o sgôp i effeithio ar y canlyniad. Yn yr achosion hyn, rhaid i'r hawlydd sefydlu bod yna bosibilrwydd gwirioneddol, yn hytrach nag un bach iawn, y byddai'r canlyniad wedi bod yn wahanol pe na bai'r diffyg honedig wedi digwydd.<sup>52</sup>
95. Mae llawer o'r gyfraith achosion yn y maes hwn yn ymwneud â methiant ynghylch dyletswyddau ymgynghori.<sup>53</sup> Er enghraifft, er bod awdurdod lleol wedi torri ei ddyletswydd statudol i ymgynghori drwy fethu â hysbysu preswylwyr unigol yn ddigonol o'i gynlluniau i greu croesfan *toucan*, gallai'r penderfyniad i gymeradwyo'r groesfan sefyll oherwydd nid oedd posibilrwydd gwirioneddol y byddai'r awdurdod lleol wedi gwneud penderfyniad gwahanol pe bai wedi cydymffurfio â'i ddyletswydd i ymgynghori.<sup>54</sup>
96. Yn *R (Ghadami) v. Harlow District Council*<sup>55</sup> ni chafodd unigolyn ei hysbysu o fanylion y broses benderfyniadau. Er hynny, roedd yn ymwybodol o fodolaeth y broses honno a dewisodd beidio â chymryd rhan ynddi. Derbyniodd y llys y ddadl ei bod yn anochel, pe na bai'r diffyg wedi digwydd, y byddai'r canlyniad gwreiddiol yr un fath.

<sup>51</sup> *R.(Cotton) v Chief Constable of Thames Valley Ex p. Cotton* [1990] I.R.L.R. 344

<sup>52</sup> *R (Cotton) v. Chief Constable of Thames Valley* [1990] I.R.L.R. 344.

<sup>53</sup> *R ( Smith )a NE Derbyshire PCT* 2006 1 WLR, *R (Dudley) v SoS DCLG* 2012 EWHC 1964; *R v Haberdashers' Aske's Hatcham School Governors Ex p ILEA* The Times Mawrth 9, 1989; *R (ar gais Midcounties Co-Operative Ltd) v Wyre Forest DC* [2009] EWHC 964 (Gweinyddol)

<sup>54</sup> *R (wainwright) v. Richmond upon Thames London Borough Council* [2001] EWCA Civ 2062

<sup>55</sup> [2004] EWHC 1883 yn [73]

97. Lle'r diffynnydd yw dadlau na wnaeth diffyg honedig 'ddim gwahaniaeth' ar unrhyw bwynt yn y broses, gan gynnwys ar y pwynt Cydnabod Cyflwyno (sy'n cynnwys crynodeb o'r seiliau dros herio'r hawliad). Fodd bynnag, yn y cam caniatâd, mae'r llys yn annhebygol yn aml o fod yn gallu ystyried dadleuon o'r fath yn briodol, o ystyried bod angen deall natur y diffyg posibl ac ym mha gyd-destun ffeithiol y digwyddodd.
98. Fodd bynnag, mae'r llys yn ymarfer ei ddisgresiwn i wrthod achos ar y sail na fyddai'r diffyg wedi gwneud 'dim gwahaniaeth' yn bur ofalus. Lle heriwyd penderfyniadau ynghylch darparu gwasanaethau meddygon teulu ar sail diffyg ymgynghori priodol, er i'r barnwr yn y gwrandawriad cyntaf amau a allai'r sawl a wnaeth y penderfyniad fod wedi gwneud penderfyniad gwahanol pe bai wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd berthnasol,<sup>56</sup> barn y Llys Apêl oedd bod y tebygolrwydd y byddai'r penderfyniad wedi bod yr un fath yn annigonol a bod angen iddo fod yn 'anochel'.<sup>57</sup> Mewn gwrandawriad caniatâd cyfun mewn achos diweddar wedi'i ddwyn gan Gymdeithas y Cyfreithwyr Anafiadau Personol, yn nodi methiant y Weinyddiaeth Gyfiawnder i ymgynghori ar benderfyniad mewn egwyddor ynghylch costau sefydlog y gellid eu hadennill mewn achosion o dan y Protocol Cyn-Weithredu ar gyfer Hawliadau Anafiadau Personol Gwerth Is mewn Damweiniau Traffig Ffordd, gwrthodwyd y cais i ofyn am adolygiad barnwrol. Penderfynodd y llys nad oedd dyletswydd i ymgynghori yn yr achos hwn gan ychwanegu, hyd yn oed pe bai dyletswydd wedi bod, na fyddent mae'n debyg wedi dileu'r penderfyniad oherwydd ei bod yn amlwg hyd yn oed pe bai ymgynghori pellach wedi bod, na fyddai barn yr Ysgrifennydd Gwladol wedi bod ddim gwahanol.<sup>58</sup>

### Y mater dan sylw

99. Mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir defnyddio adolygiad barnwrol yn rhy aml i ohirio penderfyniadau neu weithredoedd hollol resymol. Yn aml bydd hyn yn rhan o ymgyrch neu weithgaredd cysylltiadau cyhoeddus arall a bydd yr adolygiad barnwrol yn seiliedig ar ddiffyg gweithdrefn yn hytrach na phwynt pwysig o anghyfreithlondeb. Mae'r Llywodraeth yn ystyried cryfhau'r gyfraith ac ymarfer fel bo'r Llysoedd yn gallu delio'n fwy chwim â cheisiadau lle na fyddai'r diffyg honedig y cwynir yn ei gylich wedi gwneud 'dim gwahaniaeth'.

### Y Cynigion

100. Mae'r Llywodraeth am holi barn ynghylch dau opsiwn yng nghyswllt y dadleuon 'dim gwahaniaeth': cyflwyno'r ystyriaeth yn gynt yn y broses a darparu trothwy gwahanol yn seiliedig ar a fyddai'r diffyg wedi effeithio ar y canlyniad neu beidio. Gellid cymhwyso'r rhain i bob math o ddiffyg gweithdrefn.

### Opsiwn 1 - Cyflwyno Ystyriaeth yn Gynt

101. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r broses yn cael ei newid fel bod dadleuon 'dim gwahaniaeth' yn cael eu gwneud yn briodol a'u profi'n gynt yn y cam caniatâd. Mewn theori, gellir gwneud y dadleuon hyn ar bapur yn barod yn y cam caniatâd ond os ydynt i gael eu hystyried yn llawn, gallai fod angen dadleuon llafar wedi eu cefnogi gan ddogfennau llawnach. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod yna risg y gallai hyn ychwanegu at hyd a chymhlethdod y cam caniatâd ac, yn ei droi, yr achos cyfan pe

<sup>56</sup> R (Smith) v. N.E. Derbyshire PCT and the Secretary of State for Health [2006] EWHC 1338 (Gweinyddol).

<sup>57</sup> R(Smith) v. North East Derbyshire PCT 1 WLR 3315 gw. Arglwydd Ustus May ym mhara. 10

<sup>58</sup> [2013] EWHC 1358 (Gweinyddol).



rhoddid caniatâd. Ond lle gellir gwrthod hawliad yn gynt yn y cam hwn, bydd yn lleihau effaith yr achosion hyn yn gyffredinol.

102. Mae'r Llywodraeth yn cynnig, lle mae'r diffynnydd yn honni ar y ffurflen Cydnabod Cyflwyno na fyddai neu na allai'r diffyg fod wedi gwneud unrhyw wahaniaeth i'r canlyniad, y bydd yn bosibl i'r barnwr ystyried y cwestiwn yn fwy llawn fel rhan o ystyried rhoi caniatâd. Ar hyn o bryd nid yw'r Llywodraeth yn bwriadu rhoi dyletswydd gadarnhaol ar y farnwriaeth i ystyried gyda phob cais a allai diffyg y cwynir yn ei gylch fod wedi gwneud gwahaniaeth, dim ond lle mae'r diffynnydd yn codi'r ddadl honno ac nid oes unrhyw seiliau na dadleuon eraill dros yr her sy'n haeddu ymchwiliad llawn gan y llys.

103. Yn y sefyllfa hon, byddai'r Llywodraeth yn cynnig naill ai bod penderfyniad yn cael ei wneud ar y papurau (gan ofyn am dystiolaeth bellach gan y naill neu'r ddwy ochr fel y bo'n briodol) neu fod y mater yn cael ei benderfynu mewn gwrandawriad llafar. Byddai angen cael gwrandawriad llafar lle oedd y llys am wrando'r ddadl ar bwyntiau nad oedd y cais papur yn eu trafod yn foddhaol. Fodd bynnag, gallai gwrandawriad llafar olygu bod y broses yn cymryd hirach a'i bod yn fwy costus.

### **Cwestiynau**

**Cwestiwn 12: A ddylid cyflwyno'r ystyriaeth o'r ddadl "dim gwahaniaeth" yn gynt fel rhan o'r cam caniatâd ar sail yr hyn a honnir gan y diffynnydd ar y ffurflen Cydnabod Cyflwyno?**

**Cwestiwn 13: Sut allai'r Llywodraeth liniaru'r risg bod ystyried y ddadl "dim gwahaniaeth" yn troi'n rihyrsal llawn ar gyfer y gwrandawriad terfynol, ac felly'n ychwanegu at gost yr achos llys?**

### **Opsiwn 2 - Trothwy gwahanol**

104. O dan yr opsiwn hwn byddai'r Llywodraeth yn cyflwyno trothwy statudol newydd i farnu a ddylid gwrthod achos yn ymwneud â diffyg gweithdrefn neu beidio. Yn hytrach na'r gofyniad presennol y byddai'r un casgliad yn anochel fod wedi cael ei gyrraedd, byddai'n ddigon ei bod yn rhesymol glir na fyddai neu na allai'r diffyg fod wedi gwneud dim gwahaniaeth. Byddai hwn yn brawf tebygolrwydd is, er enghraifft "tebygol iawn".

105. Byddai'n dal i olygu y byddai'r llys yn ystyried unrhyw achos lle oedd amheuaeth wirioneddol ynghylch a fyddai'r canlyniad wedi bod yr un fath, fel ar hyn o bryd.

### **Cwestiynau**

**Cwestiwn 14: A ddylid newid y trothwy ar gyfer asesu a ddylid gwrthod achos sy'n seiliedig ar ddiffyg gweithdrefn i fod yn "debygol iawn" y byddai'r canlyniad wedi bod yr un fath? A oes prawf arall a allai gyflawni'r canlyniad sydd mewn golwg yn well?**

**Cwestiwn 15: A oes mesurau eraill y gallai'r Llywodraeth eu cymryd i leihau effaith adolygiadau barnwrol sy'n cael eu dwyn dim ond ar sail diffygion gweithdrefn?**

**Cwestiwn 16: A oes gennych unrhyw dystiolaeth neu enghreifftiau o achosion yn cael eu dwyn ar sail diffyg gweithdrefn yn unig, ac effaith yr achosion hyn (e.e. cost neu oedi)?**

## 6. Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r Adolygiad Barnwrol

106. O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) yn gofyn bod cyrff cyhoeddus yn rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, yn hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol bobl wrth gyflawni eu gweithgareddau. Lle honnir bod corff cyhoeddus wedi torri'r PSED, gellir ei herio yn y llysoedd drwy adolygiad barnwrol. Wrth ystyried heriau, gwaith y llys yw penderfynu a yw'r awdurdod cyhoeddus wedi rhoi sylw dyledus i'r tri nod cydraddoldeb, yn hytrach nag a gafodd ganlyniad penodol ei gyflawni neu beidio.
107. Ym mis Mai 2012, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref adolygiad o'r PSED fel rhan o'r Adolygiad o Fiwrocratiaeth. Cyflawnwyd yr adolygiad gan Grŵp Llywio annibynnol a'i bwrpas oedd sefydlu a oedd y PSED yn gweithredu fel y dylai fod yn ei wneud. Fel rhan o'r adolygiad, sy'n adrodd heddiw, bu'r Grŵp Llywio'n ystyried rôl adolygiadau barnwrol sy'n cael eu dwyn yn erbyn cyrff cyhoeddus lle honnwyd na wnaethant gydymffurfio â'r PSED. Yn ei adroddiad ar ddarganfyddiadau'r adolygiad hwn, darganfu'r Grŵp Llywio fod ansicrwydd ynghylch sut fyddai'r llysoedd yn dehongli'r cysyniad o 'sylw dyledus' efallai wedi creu sefyllfa lle oedd rhai cyrff cyhoeddus yn mabwysiadu dull gwrth-risg gormodol wrth reoli risg gyfreithiol. Mae'r Grŵp Llywio felly wedi gwneud argymhellion i roi sylw i'r materion a nodwyd gan yr adolygiad, gan gynnwys gorfodaeth.
108. Darganfu'r adolygiad hefyd, hyd yn oed lle mae llys wedi dyfarnu y methodd gorff cyhoeddus â chydymffurfio â'r PSED, ei fod yn aml ond yn gorchymyn bod y corff yn ail-gymryd y penderfyniad. Nid yw'n anghyffredin i'r corff ddod i'r un casgliad ar ôl gwaith pellach i ddangos ei fod wedi cyflawni'r ddyletswydd yn effeithiol. Nid yw'n glir a yw hyn o fudd i unrhyw un yn y pen draw ac mae'r Grŵp Llywio felly wedi argymhell y dylai'r Llywodraeth ystyried a oes ffyrdd cynt a mwy cost-effeithiol o ddatrys anghydfod yn ymwneud â'r PSED.
109. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, mae'r Llywodraeth am holi barn ynghylch dulliau eraill o orfodi'r ddyletswydd heblaw am adolygiad barnwrol. Ochr yn ochr â hyn, mae'r Llywodraeth hefyd yn gwneud gwaith i ddeall maint a natur heriau cysylltiedig â PSED yn well, a byddai'n croesawu unrhyw dystiolaeth ar hyn.

### Cwestiynau

**Cwestiwn 17: A allwch awgrymu unrhyw ddulliau eraill o ddatrys anghydfodau sy'n gysylltiedig â'r PSED a fyddai'n gynt a mwy cost-effeithiol nag adolygiad barnwrol? Eglurwch sut allai'r rhain weithio'n ymarferol.**

**Cwestiwn 18: A oes gennych unrhyw dystiolaeth o faint a natur yr heriau sy'n gysylltiedig â'r PSED? Os oes, a fyddech gystal â'i darparu?**

## 7. Cydbwysu Cymhellion Ariannol

### Rhagarweiniad

110. Os yw person neu sefydliad yn rhan o achos llys bydd yn achosi treuliau penodol drwy, er enghraifft, gyfarwyddo cynrychiolydd cyfreithiol neu gael gwyddonydd i ddarparu adroddiad tyst arbenigol. Gelwir y treuliau hyn yn 'gostau' a phennir y rhain fel arfer ar ddiwedd yr achos. Fel rheol yng Nghymru a Lloegr, gorchymynnir bod y parti aflwyddiannus yn talu costau'r ochr lwyddiannus.
111. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae pryderon bod costau ymgyfreitha sifil wedi mynd yn rhy uchel. Arweiniodd hyn at yr adolygiad a wnaed gan yr Arglwydd Ustus Jackson, a edrychodd ar sut ellid rheoli'r costau hyn. Mae'r rhan fwyaf o'i argymhellion, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2010<sup>59</sup>, wedi eu gweithredu gan y Llywodraeth a chan y farnwriaeth. Bydd y diwygiadau hyn yn cyfrannu llawer at sicrhau bod costau'n fwy cymesur a chytbwys fel rhwng yr hawlydd a'r diffynnydd mewn adolygiadau barnwrol, fel mewn achosion eraill.
112. Mae'r Llywodraeth yn credu y dylai fynd ymhellach, yn enwedig o ran costau'r cam caniatâd mewn achosion adolygiad barnwrol. Nid yw'r dull presennol yn adlewyrchu holl gostau'r achos ac nid yw'n rhoi'r cymhelliad iawn i atal hawliadau parhaus ac annheilwng ar gost i'r trethdalwr. Mae angen ystyried diwygiadau i gydbwysu'r system fel bod gan y partiön fudd ariannol cymesur yng nghostau'r achos. Mae'r ffi newydd am wrandawriad llafar sydd i'w chyflwyno cyn gynted ag y bo modd yn gam cyntaf synhwyrol fel bod gan yr hawlydd fwy o fudd ariannol yn yr achos. Mae'r Llywodraeth yn disgwyl y bydd effaith gyfunol y ffi newydd a dileu'r hawl, o'r 1 Gorffennaf 2013 ymlaen, i wrandawriad llafar mewn achosion a ddyfarnwyd i fod yn hollol annheilwng, yn golygu llai o geisiadau am wrandawriadau llafar yn y dyfodol.
113. Er yn cydnabod bod angen sicrhau nad yw ystyriaethau ariannol yn rhwystri gyfiawnder, mae'r Llywodraeth am holi barn ynghylch sut i ddelio'n wahanol gyda chostau mewn adolygiad barnwrol i annog hawlwyd a'u cynrychiolwyr cyfreithiol i feddwl yn fwy gofalus ynghylch haeddiant dwyn adolygiad barnwrol a'r ffordd y maent yn delio ag achos llys. Mae'r Llywodraeth eisiau edrych ar bum maes, sef cyfyngu taliadau i ddarparwyr cymorth cyfreithiol oni bai y rhoddir caniatâd (yn amodol ar daliad disgresiynol gan yr LAA), cost gwrandawriadau llafar, gorchmynion costau a wastraffwyd, gorchmynion gwarchod costau a chostau'n ymwneud ag ymyriadau gan drydydd partiön.

<sup>59</sup> Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Ustus Jackson (2010) *Review of Civil Litigation Costs: Final Report*.

## Talu am waith caniatâd mewn achosion adolygiad barnwrol

### Rhagarweiniad

114. Yn yr ymgynghoriad diweddar *Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol* cynigiodd y Llywodraeth drosglwyddo risg ariannol y cais i'r darparwr er mwyn rhoi mwy o gymhelliad i'r darparwr feddwl yn ofalus ynghylch cryfder yr achos cyn gwneud cais am ganiatâd i gynnal adolygiad barnwrol.
115. Yna cyhoeddodd y Llywodraeth yr ymateb i'r ymgynghoriad oedd yn awgrymu y dylid canolbwyntio cymorth cyfreithiol ar yr achosion adolygiad barnwrol hynny lle mae gwir angen y cymorth hwnnw.<sup>60</sup> Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth wedi gwrandao ar bryderon a godwyd gan nifer o ymatebwyr oedd yn dadlau bod y cynnig gwreiddiol nid yn unig yn targedu achosion adolygiad barnwrol gwan ond hefyd yn effeithio'n annheg ar achosion haeddiannol lle na roddir caniatâd oherwydd bod yr achos yn dod i ben cyn cael ei ystyried gan y llys. Mae'r cynnig diwygiedig yn ceisio ateb y pryderon hyn.

### Y Sefyllfa Bresennol

116. Mae cymorth cyfreithiol ar gael fel arfer i achosion adolygiad barnwrol, yn amodol ar haeddiant a phrawf modd, a nifer o eithriadau.<sup>61</sup>

### Y mater dan sylw

117. Mae'r Llywodraeth yn poeni y dylid targedu adnoddau cymorth cyfreithiol yn fwy priodol at yr achosion adolygiad barnwrol hynny sydd fwyaf angen yr adnoddau hynny, os yw'r system cymorth cyfreithiol i fod yn gredadwy ac i ennyn ffydd y cyhoedd.

### Y Cynnig

118. Mae'r Llywodraeth yn cynnig y dylid ond talu darparwyr am waith a wneir ar gais am ganiatâd (gan gynnwys cais i ail-ystyried y cais mewn gwrandawriad, mewn gwrandawriad llafar neu mewn apêl am ganiatâd i'r Llys Apêl), os rhoddir caniatâd gan y llys. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r pryder a godir ynghylch achosion nad ydynt yn cyrraedd penderfyniad caniatâd, mae'r Llywodraeth hefyd yn cynnig cyflwyno disgresiwn i adael i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA) dalu darparwyr mewn rhai achosion sy'n dod i ben cyn i benderfyniad caniatâd gael ei wneud. Byddai'r disgresiwn yn golygu cymhwyso meini prawf (gw. para. 125 isod) i achosion lle na lwyddodd y darparwr i gael gorchymyn neu gytundeb costau fel rhan o'r setliad. Ni chynigir talu darparwyr ym mhob achos sy'n dod i ben heb benderfyniad caniatâd; byddai'r meini prawf disgresiynol yn cael eu defnyddio i benderfynu'r achosion haeddiannol hynny lle dylid talu, tra'n cadw at yr amcan polisi o beidio â thalu mewn achosion gwan.
119. Byddai'r cynnig hwn ond yn berthnasol i achosion wedi eu cychwyn. Byddai cymorth cyfreithiol yn parhau i gael ei dalu fel ag ar hyn o bryd ar gyfer camau cyntaf achos, i ymchwilio i ragolygon a chryfder hawliad (gan gynnwys cyngor gan Gwnsler ar haeddiannau'r hawliad) ac i gyflawni gohebiaeth cyn-weithredu er mwyn osgoi mynd

<sup>60</sup> Rhoddir crynodeb llawn o'r materion a godwyd gan yr ymatebwyr yn *Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol: Y Camau Nesaf*. Ar gael yn <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/transforming-legal-aid>

<sup>61</sup> O dan baragraff 19 Rhan 1 Atodlen 1 i Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012.

i'r llys o dan y Protocol Cyn-Weithredu ar gyfer Adolygiad Barnwrol. Hefyd, ni fyddai cwestiwn ynghylch talu am waith a wnaed ar gais am ryddhad interim o dan Ran 25 y Rheolau Trefniadaeth Sifil, p'un ai fyddai'r darparwr yn cael ei dalu mewn cysylltiad â phrif wrandawriad yr adolygiad barnwrol yn y pen draw neu beidio. Byddai all-daliadau rhesymol, fel ffioedd arbenigwyr a ffioedd llys (ond nid ffioedd Cwnsler), sy'n codi wrth baratoi'r cais am ganiatâd, yn parhau i gael eu talu, hyd yn oed pe bai'r llys yn gwrthod caniatâd.

120. O ran achosion wedi eu cychwyn, byddai'r hawlydd hefyd yn parhau i elwa o warchodaeth costau.<sup>62</sup>
121. O dan y cynnig hwn, byddai'r holl waith i ddwyn cais am adolygiad barnwrol o dan Ran 54 y Rheolau Trefniadaeth Sifil neu Ran 4 Rheolau Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd (Uwch Dribiwnlys) 2008 yn waith ar eu menter eu hunain. Byddai'r cynnig yn berthnasol i adolygiadau barnwrol yn yr Uchel Lys ac i'r achosion hynny a ddeuai o dan drefniadau adolygiad barnwrol yr Uwch Dribiwnlys. Byddai'r holl waith ar y cais am ganiatâd i ymgeisio am adolygiad barnwrol (gan gynnwys drafftio seiliau'r hawliad neu gyfarwyddo Cwnsler i ddrafftio seiliau'r hawliad, paratoi ffurflen hawlio neu gais am ganiatâd a'r bwndel dogfennau) yn cael ei wneud, pe bai'r achos yn cael ei gychwyn, gan ddarparwyr ar eu menter eu hunain. Byddai unrhyw waith ar wrandawriad cyfun hefyd yn cael ei wneud ar eu menter eu hunain.
122. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod y meini prawf haeddiant yn eu lle i helpu i chwynnu achosion gwan. Mae'r LAA hefyd wedi cymryd camau i sicrhau mwy o graffu ar achosion drwy wneud i ffwrdd â hawl darparwyr i ddyfarnu cynrychiolaeth frys iddynt eu hunain yn y rhan fwyaf o achosion adolygiad barnwrol. Fodd bynnag, nid yw'r Llywodraeth yn meddwl bod y mesurau hyn yn ddigon ynddynt eu hunain i ateb y broblem benodol yr ydym wedi'i nodi mewn achosion adolygiad barnwrol. Wrth wneud cais am gymorth cyfreithiol, mae'r darparwr yn ardystio eu hasesiad o haeddiannau'r achos ar sail eu gwybodaeth fanwl am yr achos. Wrth reswm, mae'r LAA wedi'i thywys yn gryf gan asesiad y darparwr o ragolygon llwyddiant yr hawliad adolygiad barnwrol arfaethedig wrth benderfynu a ddylai'r hawliad gael ei ariannu neu beidio.
123. Mae'r Llywodraeth yn ystyried ei bod yn briodol i holl risg ariannol y cais am ganiatâd orwedd gyda'r darparwr. Mae'n gyfreithlon defnyddio'r prawf caniatâd fel y trothwy ar gyfer rhoi cymorth cyfreithiol. Mae'r darparwr mewn sefyllfa dda i asesu cryfder achos eu cleient a pha mor debygol yw o gael caniatâd; ac felly mewn sefyllfa dda hefyd i wneud dyfarniad gwybodus ynghylch a yw'r prawf caniatâd yn cael ei fodloni.
124. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth hefyd yn cydnabod pryderon yr ymatebwyr ynghylch achosion haeddiannol sy'n dod i ben cyn y gwneir penderfyniad ar ganiatâd. Lle mae achos yn setlo ar ôl i hawliad gael ei ffeilio ond cyn iddo gael ei ystyried gan y llys, mae'r Llywodraeth yn ystyried y dylai darparwyr fel arfer sicrhau cytundeb costau fel rhan o'r setliad neu ofyn am orchymyn costau gan y llys.<sup>63</sup> Mae'r llysoedd yn ddiweddar wedi nodi'n glir er bod y mater o gostau'n hynod ffaith-benodol, bod y

<sup>62</sup> Ni chaiff yr egwyddor y dyfarnir costau yn unol â hi yn erbyn parti sy'n derbyn cymorth cyfreithiol mewn achos sifil fod yn fwy na swm rhesymol ar ôl ystyried adnoddau ariannol ac ymddygiad y partiön yn yr achos.

<sup>63</sup> O dan baragraff 6.58 Manyleb Gyffredinol Contractau Sifil Safonol 2013, rhaid i ddarparwyr lle bynnag y bo hynny'n bosibl geisio a sicrhau gorchymyn neu gytundeb costau i'w cleient, fel y byddent yn ei wneud pe byddent yn gweithredu ar ran cleient yn talu'n breifat.

rheol arferol mewn ymgyfreitha mai'r ochr sy'n colli a ddylai dalu costau'r ochr lwyddiannus yn berthnasol i hawliadau cyfraith gyhoeddus, er bod y diffynnydd yn gorff cyhoeddus.<sup>64</sup> Fodd bynnag, caiff ei gydnabod na fydd y llys yn gwneud gorchymyn costau o blaid yr hawlydd bob tro ac, yn ymarferol, dim ond heb orchymyn costau y gallai'r achos gael ei setlo. Gellir hefyd gollwng achos o dan Ran 38 y Rheolau Trefniadaeth Sifil. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd y darparwr yn gallu gofyn bod y LAA yn talu eu costau<sup>65</sup> ar sail cyfraddau cymorth cyfreithiol. Bydd y LAA yn ystyried yn ofalus pam na chafodd gorchymyn costau ei wneud neu pam gafodd achos ei setlo heb gytundeb costau. Byddai unrhyw benderfyniad o blaid y darparwr yn parhau i fod yn destun asesiad costau i sicrhau bod yr holl gostau wedi eu hachosi'n rhesymol. Fel y nodir uchod, ni fyddai'r costau cymorth cyfreithiol yn cael eu hadennill ym mhob achos o'r fath, yn hytrach byddai talu'r darparwr yn cael ei asesu yn erbyn y meini prawf.

125. Mae'r Llywodraeth yn cynnig pennu a fydd taliad yn cael ei wneud ar sail y rhestr gynhwysfawr isod o feini prawf:

- i) Y rheswm pam na wnaeth y darparwr sicrhau cytundeb costau (p'un ai'n llawn neu'n rhannol) fel rhan o unrhyw setliad, pam na ofynnodd am orchymyn costau, neu pam na ddyfarnodd y llys orchymyn costau (p'un ai'n llawn neu'n rhannol). Bydd hyn yn cynnwys ystyried ymddygiad y darparwr o dan y protocol cynweithredu ac yn yr achos ei hun;
- ii) I ba raddau yr enillodd y cleient yr unioni, yr iawn neu'r budd yr oedd yn ei geisio drwy'r achos llys;
- iii) Y rheswm pam yn wir yr enillodd y cleient unrhyw unioni, iawn neu fudd yr oedd yn ei geisio drwy'r achos<sup>66</sup>;
- iv) Pa mor debygol, i'w ystyried ar y pwynt y bydd y setliad yn cael ei wneud (neu pan ddaw'r achos i ben fel arall), yw i ganiatâd fod wedi cael ei roi pe bai'r cais wedi'i ystyried, p'un ai ar bwynt penodol yn yr achos llys gan y Llys neu ar sail cryfder yr hawliad ar y pwynt hwnnw<sup>67</sup> i)

126. Mater i'r LAA fydd penderfynu ynghylch talu, ar ran yr Arglywydd Ganghellor. Disgwylir y byddai'r LAA, ar gais y darparwr, yn ystyried pob achos drwy gymhwyso'r meini prawf hyn yn eu cyfanrwydd fel y bo'n briodol ar sail y ffeithiau penodol. Mewn rhai achosion bydd nifer o feini prawf yn berthnasol; mewn eraill gallai'r achos droi ar un maen prawf, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau. Er y bydd penderfyniadau ar sail y meini prawf yn troi o reidrwydd ar ffeithiau pob achos, bwriad y Llywodraeth yw bod disgresiwn yn cael ei ymarfer mewn achosion lle oedd yr hawliad yn haeddiannol yn y bôn a rhesymau da pam na wnaeth y darparwr gael gorchymyn neu gytundeb costau fel rhan o'u setliad, er gwneud pob ymdrech i wneud hynny'n unol â thelerau eu contract gyda'r Arglywydd Ganghellor.

<sup>64</sup> Mae'r egwyddorion yng nghyswllt gorchymynion costau mewn achosion adolygiad barnwrol wedi eu nodi yn *R(M) v Croydon London Borough Council (CA)* [2012] EWCA Civ 595.

<sup>65</sup> Bydd y darparwr yn gallu gwneud cais am y costau llawn, neu fel sy'n digwydd yn barod, am gostau rhannol o'r gronfa cymorth cyfreithiol lle derbyniodd rhan o'i gostau o dan orchymyn neu gytundeb costau.

<sup>66</sup> Er enghraifft, pam gafodd yr achos ei setlo, neu a lwyddodd y cleient i sicrhau'r camau unioni o ganlyniad uniongyrchol i'r achos neu oherwydd rheswm arall.

<sup>67</sup> Er enghraifft, yng ngoleuni sut bleidiwyd yn yr achos neu ohebiaeth a thystiolaeth a ddaeth i law ers i'r achos gael ei benderfynu, bod y cleient wedi cymhwyso i dderbyn cymorth cyfreithiol i ddwyn yr hawliad.

127. Un enghraifft lle gallai'r meini prawf disgrisiynol weithio o blaid y darparwr fyddai lle mae'r hawliad yn gryf ar ei ffeithiau (gan gynnwys, efallai, lle rhoddir rhyddhad interim) ond, cyn cael caniatâd, roedd trydydd parti wedi ymyrryd yn ffafriol gan olygu bod yr hawliad yn un academaidd. Yn y math yma o achos, ni fyddai'r llys o reidrwydd yn gwneud gorchymyn costau o blaid yr hawlydd, ond byddai'r hawliad yn aros yn haeddiannol ar ei ddiwedd. Felly hefyd, gallai diffynnydd setlo achos yn dilyn penderfyniad gan lys uwch o blaid yr hawlydd - yn yr achos hwn, byddai'r Llywodraeth yn disgwyl i'r hawlydd ofyn am gostau, ond ni fyddai'r hawlydd o reidrwydd yn derbyn eu costau i gyd o dan orchymyn costau. Yn yr achos hwn, mae'r hawliad wedi'i setlo o blaid yr hawlydd oherwydd penderfyniad yr uwch lys gan wneud yr hawliad yn gryfach, felly byddai'r meini prawf yn gweithio o blaid y darparwr. Pe bai'r llys yn gwneud gorchymyn costau rhannol o blaid yr hawlydd, byddai disgrisiwn yr LAA yn ymwneud â'r costau eraill, ar sail cyfraddau cymorth cyfreithiol.
128. Ar y llaw arall, diben y meini prawf hefyd yw sicrhau nad yw darparwyr yn cael eu talu mewn achosion lle mae haeddiannau'r achos yn wan ar y diwedd neu y dylai'r darparwr fod wedi gofyn am a chael costau gan ei wrthwynebydd. Ymhellach, gallai fod achosion lle mae'r hawlydd yn cael peth budd, ond nid oes a wnelo hynny â'r achos na'r ffordd y plediwyd yr achos (maen prawf (iii)). Er enghraifft, ac eto'n dibynnu ar y ffeithiau a roddir i'r LAA, gall yr hawlydd geisio sicrhau bod penderfyniad gan gorff cyhoeddus yn cael ei ddileu, ac yn wir gallai'r corff cyhoeddus wneud hynny, sydd o fudd i'r hawlydd, ond gallai'r diffynnydd fod wedi cyrraedd y penderfyniad i wneud hynny am resymau nad oedd a wnelo hwynt â seiliau hawliad yr hawlydd. Yn yr amgylchiadau hyn, lle nad yw seiliau'r hawlydd wedi cynorthwyo'r corff cyhoeddus i adnabod y gwall, nid yw'r Llywodraeth yn credu y dylid cymhwyso'r meini prawf o blaid y darparwr.
129. Bydd angen i ddarparwyr ofyn bod yr LAA yn gwneud taliad o dan y meini prawf, gan ddarparu tystiolaeth i gefnogi eu hawliad yn unol â'r meini prawf. Bydd yr ystyriaeth gychwynnol o'r hawliad yn cael ei wneud gan yr LAA. Os nad yw'r darparwr yn fodlon gyda phenderfyniad yr LAA, bydd ganddynt gyfle i gael adolygiad mewnol gan yr LAA. Bydd hwn yn benderfyniad cynt ac ar wahân i benderfyniadau ar asesu'r costau presennol.
130. Ni fwriedir cymhwyso'r disgrisiwn mewn unrhyw achos lle gwrthodir caniatâd. Diben y disgrisiwn yw caniatáu talu mewn rhai achosion sy'n setlo (neu'n fwy prin, yn cael eu gollwng) ac oedd yn ddigon teilwng i gyfiawnhau talu costau. Lle cyrhaeddodd achos y cam lle gwneir penderfyniad ar ganiatâd ac mae barnwr wedi dyfarnu na ddylai'r achos fynd ymhellach, mae'r Llywodraeth yn credu, yn unol â'n polisi o beidio ag ariannu achosion gwan, na ddylid talu'r darparwr. Lle cafodd achos ei wrthod i ddechrau ond caiff ei ganiatáu wedyn mewn gwrandawriad pellach, er enghraifft gwrandawriad llafar, bydd y darparwr yn cael ei dalu.
131. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod achosion lle gwrthodir caniatâd ond sydd wedi eu cofnodi ar hyn o bryd gan y darparwr fel rhai lle oedd "budd pendant i'r cleient". Mae'n bwysig nodi nad yw budd pendant o reidrwydd yn golygu bod y budd yn gymesur â'r costau a achoswyd neu fod yr achos yn un cryf. Nid yw'r Llywodraeth yn credu y byddai'n briodol i'r achosion hyn barhau i dderbyn taliad.

## Data

132. Mae'r data<sup>68</sup> ar y cynnig hwn wedi'i nodi yn yr asesiad o effaith sydd ynghlwm wrth y papur ymgynghori<sup>69</sup>. Yn yr Asesiad o Effaith hwnnw, mae'r Llywodraeth yn nodi'n llawn yr holl ddata oedd ar gael i'r LAA yn 2011/12 a 2012/13 fel a gofnodwyd gan ddarparwyr wrth ddychwelyd eu ffigurau terfynol ar achosion adolygiadau barnwrol i'r LAA. Am y rhesymau a eglurir yn yr asesiad o effaith, mae peth ansicrwydd ynghylch rhai o'r ffigurau. Fodd bynnag, ystyrir bod y ffigurau er hynny'n cynnig sail ddefnyddiol a dichonadwy i nodi effaith bosibl y cynigion y gwahoddir ymatebion i'r ymgynghoriad arnynt. Ystyrir hefyd y bydd ffigurau hanesyddol ond yn rhoi amcan neu arwydd o effaith y cynigion yn y dyfodol.
133. Yn 2012/13<sup>70</sup> roedd 3,633<sup>71</sup> o achosion adolygiad barnwrol a dderbyniodd gymorth cyfreithiol ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol. O'r rhain, cafodd 543 ganiatâd a byddent yn mynd ymlaen i dderbyn cyllid o dan y cynnig. Mewn 597 o achosion, ni chawsant eu ffeilio. Ni fyddai'r achosion hyn yn cael eu heffeithio gan y cynnig. Mewn 754 o achosion, ni roddwyd caniatâd. Ni fyddai'r achosion hyn mwyach yn derbyn cymorth cyfreithiol o dan y cynnig.
134. Mae ystod o achosion pellach (ar sail ffigurau 2012/13, hyd at uchafswm o 1739) a allai gael eu heffeithio gan y cynnig, gan ddibynnu a fyddent yn cael eu ffeilio ac, os felly, a fyddent yn dod i ben cyn neu ar ôl y penderfyniad i'w caniatáu.<sup>72</sup> Byddai'r meini prawf disgrisiynol yn berthnasol, ar y sail uchod, i'r achosion hynny o fewn yr ystod hon sy'n ffeilio ac sy'n dod i ben cyn cael caniatâd.<sup>73</sup>

## Cwestiynau

**Cwestiwn 19: A ydych yn cytuno y dylid ond talu darparwr am y gwaith a wneir ganddynt ar gais am adolygiad barnwrol mewn achosion naill ai lle rhoddir caniatâd, neu lle mae'r LAA yn ymarfer ei disgrisiwn i dalu'r darparwr mewn achos sydd wedi'i gychwyn ond lle daw'r achos i ben cyn y penderfyniad i'w ganiatáu? Rhowch resymau.**

**Cwestiwn 20: A ydych yn cytuno gyda'r meini prawf y byddai'r LAA yn eu defnyddio i ymarfer ei disgrisiwn? Rhowch resymau.**

<sup>68</sup> Achosion yw'r rhain a dderbyniodd gymorth cyfreithiol, ac ni chawsant i gyd eu ffeilio gyda'r Llys Gweinyddol, felly mae'r data yma ar wahân i'r data'n ymwneud â nifer yr achosion llys mewn rhan arall o'r ymgynghoriad hwn.

<sup>69</sup> Mae'r data y cyfeiriwyd ato yn y papur ymgynghori diwethaf wedi'i ail-ystyried a chyflwynir y canlyniadau yn yr Asesiad o Effaith sy'n cyd-fynd â'r papur ymgynghori hwn. Mae data 2012/13 yn rhoi darlun llawer mwy cynhwysfawr ac felly'r data hwn ddylid ei ddefnyddio wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

<sup>70</sup> Mae Tabl 1 yn yr Asesiad o Effaith yn cyflwyno'r ffigurau'n llawn yn erbyn y codau diweddbwynt perthnasol. Mae'r ffigurau'n deillio o wybodaeth a roddwyd gan ddarparwyr yn erbyn codau diweddbwynt a nodir yn y ddolen ganlynol: [www.justice.gov.uk/downloads/forms/legal-aid/civil-forms/certificate-outcomes-checklist-version-2.pdf](http://www.justice.gov.uk/downloads/forms/legal-aid/civil-forms/certificate-outcomes-checklist-version-2.pdf)

<sup>71</sup> Mae'r ffigur 3,633 yn cyfeirio at achosion a dderbyniodd Gymrychiolaeth Gyfreithiol ond nid yw'n cynnwys achosion a dderbyniodd Gymorth Cyfreithiol. Nid yw'n bosibl penderfynu faint o achosion Cymorth Cyfreithiol ydoedd lle rhodddwyd cyngor ar adolygiad barnwrol (posibl). Mae hefyd yn eithrio achosion heb unrhyw gôd: 111 yn 2011/12 & 232 yn 2012/13.

<sup>72</sup> Gweler yr Asesiad o Effaith, tudalen 7. Mae nifer yr achosion wedi eu cyflwyno fel ystod oherwydd y ffordd y cofnodir canlyniadau gan y LAA.

<sup>73</sup> O'i gymharu â 2011/12 pan oedd 4,074 o achosion adolygiad barnwrol a dderbyniodd gymorth cyfreithiol ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol. O'r rhain, rhodddwyd caniatâd mewn 663 o achosion ac, mewn 618 o achosion, ni chafodd achos ei gychwyn. Mewn 845 o achosion, ni roddwyd caniatâd. Roedd yr ystod o achosion pellach (gweler para.134) hyd at 1948.



## Costau Gwrandawiadau Caniatâd Llafar

### Y Sefyllfa Bresennol

135. Rhaid i berson sydd am wneud cais am adolygiad barnwrol ofyn caniatâd y llys yn gyntaf. Gwneir hyn drwy gyflwyno cais papur yn disgrifio eu hawliad gyda'r diffynnydd yn ymateb i hwn drwy lenwi ffurflen Cydnabod Cyflwyno yn nodi eu hymateb hwy. Os nad yw'r llys yn rhoi caniatâd ar sail y papurau, gall yr hawlydd ofyn i'r cais am ganiatâd gael ei ail-ystyried mewn gwrandawriad llafar lle gall yr hawlydd a'r diffynnydd gyflwyno eu dadleuon yn llafar (er nad oes raid i'r diffynnydd fynychu oni bai fod y llys yn gorchymyn iddo wneud hynny).
136. Ar hyn o bryd, mae hawlydd y gwrthodir ei gais am ganiatâd i ddwyn adolygiad barnwrol yn atebol dim ond am gostau'r diffynnydd o lenwi'r ffurflen Cydnabod Cyflwyno, p'un ai y gofynnir am wrandawriad caniatâd llafar neu beidio, a hyd yn oed os yw'r diffynnydd yn ymddangos ac yn gwneud cyflwyniadau llafar. Mae gan y llys ddisgresiwn cyffredinol o dan adran 51 Deddf Uwchlysoedd 1981 i ddelio gyda chostau, ond fel rheol nid yw'n gorchymyn bod ceisydd aflwyddiannus yn talu costau i'r diffynnydd - neu i unrhyw barti arall sy'n mynychu - am fynychu'r gwrandawriad a pharatoi amddiffyniad. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol fydd y llys yn dyfarnu costau caniatâd ar wahân i'r gost o gwblhau Cydnabod Cyflwyno,<sup>74</sup> er enghraifft lle camddefnyddiwyd y broses neu lle mai'r achos llafar, i bob pwrpas, yw'r gwrandawriad terfynol. Nid yw costau fel arfer yn cael eu dyfarnu i'r hawlydd lle rhoddir caniatâd (ar unrhyw bwynt) oherwydd gellir ymdrin â'r costau nes ymlaen yn y gwrandawriad terfynol.

### Y mater dan sylw

137. Yn 2012 cafodd tua 12,400 o geisiadau am adolygiad barnwrol eu cyflwyno. Mewn tua 2,600 o achosion, gofynnodd yr hawlydd am wrandawriad llafar o'r cais am ganiatâd ar ôl i ganiatâd gael ei wrthod ar sail y papurau. Mae'r rhan fwyaf o geisiadau sy'n symud ymlaen at wrandawriad caniatâd llafar yn cael eu gwrthod. Ar gyfer achosion a ffeiliwyd yn 2012 yn unig, cafodd tua 300 a wnaeth gais am wrandawriad llafar ganiatâd i symud ymlaen, tra gwrthodwyd caniatâd mewn tua 1,200 o achosion a chafodd tua mil (neu 38%) eu tynnu'n ôl cyn i'r penderfyniad yn y gwrandawriad llafar gael ei wneud. O'r holl geisiadau a ffeiliwyd yn 2012, cafodd tua 5,000 (40%) eu tynnu'n ôl cyn y cam caniatâd.<sup>75</sup>
138. Ar sail achosion mewnfudo a lloches (mae tua 70% o'r gwrandawiadau llafar hyn yn rhai mewnfudo a lloches<sup>76</sup>) ar gyfartaledd mae'n costio rhwng £1,000 a £1,500 i'r diffynnydd (Asiantaeth Ffiniau'r DU) baratoi ar gyfer a mynychu gwrandawriad caniatâd llafar<sup>77</sup>. Bydd y costau mewn mathau eraill o achosion yn amrywio gan ddibynnu ar natur a chymhlethdod yr achos. Mae'r Llywodraeth yn mynychu'r rhan fwyaf o wrandawiadau caniatâd llafar lle mae'n ddiffynnydd.

<sup>74</sup> *Mount Cook Land and Another v Westminster City Council* [2003] EWCA Civ 1346 per Auld LJ ym mhara. 76.

<sup>75</sup> Mae'r holl ffigurau yn y paragraff hwn yn deillio o ddata'r Llys Gweinyddol sydd ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/court-statistics-quarterly-jan-mar-2013>

<sup>76</sup> Ar sail data gan y Llys Gweinyddol: <https://www.gov.uk/government/publications/court-statistics-quarterly-jan-mar-2013>

<sup>77</sup> Ar sail gwybodaeth reoli lefel uchel wedi'i darparu gan Adran Cyfreithwyr y Trysorlys.

## Y Cynigion

139. Mae'r Llywodraeth am holi barn ynghylch cyflwyno'r egwyddor y dylai fel arfer fod yn bosibl adennill costau gwrandawriad caniatâd llafar ac y dylai fod yn bosibl i hawlydd aflwyddiannus gael ei orchymyn i dalu costau rhesymol y diffynnydd am amddiffyn y cais aflwyddiannus. Gallai hyn gynnwys y gost o baratoi a chynrychiolaeth yn y gwrandawriad llafar. Mae'r Llywodraeth yn ystyried na ddylai diffynnydd llwyddiannus, fel rheol, orfod ysgwyddo'r gost o amddiffyn hawliad.
140. Mater i'r llys, fel ar hyn o bryd, fyddai penderfynu a ddylid gwneud gorchymyn costau mewn achos penodol. Byddai hyn yn golygu y gallai'r llysoedd wneud gorchymyn yn erbyn y diffynnydd i dalu costau rhesymol yr hawlydd pe bai'n caniatáu ei gais. Fodd bynnag, mae'n debyg yn yr amgylchiadau hyn y byddai'r llys yn gwneud gorchymyn 'costau buddugol' fel bod costau'r gwrandawriad caniatâd llafar yn cael eu hystyried gan y llys ar ddiwedd yr achos fel rhan o ystyried yr holl gostau y byddai'n rhaid i'r ochr aflwyddiannus yn y prif achos eu talu.

## Cwestiwn

**Cwestiwn 21: A ddylai'r llysoedd ystyried dyfarnu costau gwrandawriad caniatâd llafar fel mater o gwrs yn hytrach na dim ond mewn amgylchiadau eithriadol?**

## Gorchmynion Costau a Wastraffwyd

### Y Sefyllfa Bresennol

141. Mae gorchmynion costau a wastraffwyd yn golygu bod y llys yn gallu gorchymyn bod cynrychiolydd cyfreithiol yn bersonol atebol am gost yr ymgyfreitha a achoswyd yn ddiangen (a wastraffwyd) i ymgyfreithiwr oherwydd ymddygiad y cynrychiolydd cyfreithiol lle mae'n afresymol, oherwydd yr ymddygiad hwnnw, i'r ymgyfreithiwr eu talu. Gall ymgyfreithiwr ofyn am orchymyn costau a wastraffwyd yn erbyn cynrychiolydd cyfreithiol unrhyw barti, gan gynnwys cynrychiolydd yr ymgyfreithiwr ei hun.<sup>78</sup> Rhaid i'r cynrychiolydd cyfreithiol gael ei hysbysu o gais am orchymyn costau a wastraffwyd a chyfle i baratoi amddiffyniad. Rhaid i'r cynrychiolydd cyfreithiol fod wedi achosi'r costau a wastraffwyd drwy ymddwyn yn amhriodol, afresymol neu'n esgeulus. Nid cosbi'r cyfreithiwr neu gynrychiolydd cyfreithiol arall am gam-ymddwyn yw'r pwrpas, ond gwarchod eu cleient a phartion eraill rhag canlyniadau'r ymddygiad. Math o iawndal ydyw – rhaid i berson sy'n gofyn am gostau a wastraffwyd ddangos ei fod wedi dioddef colled.<sup>79</sup> Dim ond yr elfen o'r costau cyffredinol a 'wastraffwyd' oherwydd ei ymddygiad sy'n rhaid i'r cynrychiolydd cyfreithiol eu talu.
142. Nodir y ddarpariaeth ar gyfer gwneud gorchymyn costau a wastraffwyd yn adran 51 Deddf Uwchlysoedd 1981 ac yn Rheol 46.8 y Rheolau Trefniadaeth Sifil a Chyfarwyddyd Ymarfer 46; cyfraith achosion sy'n penderfynu sut gymhwysir y rhain. Nid yw'r darpariaethau ar orchymynion costau a wastraffwyd wedi eu cyfyngu i achosion adolygiad barnwrol; maent yn berthnasol i unrhyw ymgyfreitha sifil. Er bod

<sup>78</sup> *Metcalf v Mardell* [2003] 1 AC 120

<sup>79</sup> Yn *Harrison v Harrison* [2009] EWHC 428 QB dyfarnodd yr Uchel Lys nad oedd costau a wastraffwyd yn fater o gosbi na rheoleiddio ond, yn hytrach, yn fater o iawndal ac felly un o'r rhagofynion oedd bod angen i geisydd ddangos bod yr ymddygiad yr oeddent yn cwyno yn ei gylch wedi achosi colled iddynt - gweler *Ridehalgh v Horsefield* [1994] CH 205 CA Civ.

ein cynigion yn ymwneud yn bennaf ag adolygiad barnwrol, mae'r Llywodraeth hefyd am ystyried a oes sgôp i'w cymhwyso i ystod ehangach o achosion sifil.

143. O dan Adran 51(6) a (7) yn Neddf Uwchlysoedd 1981, darperir:

“Mewn unrhyw achos y cyfeirir ato yn isadran (1) [yn y Llys Apêl, yr Uchel Lys neu mewn Llys Sirol], gall y llys wrthod neu (fel y bo'n briodol) orchymyn bod y cynrychiolydd cyfreithiol neu gynrychiolydd arall yn talu'r costau cyfan a wastraffwyd neu ran ohonynt fel y penderfynir yn unol â rheolau'r llys.

(7) Yn isadran (6), mae “costau a wastraffwyd” yn golygu unrhyw gostau a achoswyd gan barti -

(a) o ganlyniad i weithred neu anwaith amhriodol, afresymol neu esgeulus ar ran y cynrychiolydd cyfreithiol neu gynrychiolydd arall neu gan unrhyw weithiwr i gynrychiolydd o'r fath; neu

(b) lle mae'r llys, yng ngoleuni unrhyw weithred neu anwaith o'r fath a ddigwyddodd ar ôl eu hachosi, yn ystyried ei bod yn afresymol i'r parti hwnnw eu talu.”

144. Mae gan y llys hefyd bwerau o dan Reol 44.11 y Rheolau Trefniadaeth Sifil (pwerau'r llys yng nghyswllt camymddwyn) i wneud gorchymyn costau yn erbyn cynrychiolydd cyfreithiol lle oedd ei ymddygiad yn afresymol neu'n amhriodol. Mae hwn yn bŵer ehangach nag o dan CPR 46.8, ac o dan y pŵer hwn gall y llys wrthod costau'n gyffredinol a hefyd gorchymyn naill ai'r parti neu'r cynrychiolydd cyfreithiol i dalu costau a achoswyd i'r parti arall o'u herwydd. Gall y barnwr costau wneud gorchymyn ar ei liwt ei hun neu ar gais y naill ochr neu'r llall.

145. Edrychir ar orchymyn costau a wastraffwyd fel mater pur ddifrifol. Mae'r llysoedd wedi dehongli “gweithred neu anwaith amhriodol, afresymol neu esgeulus” yn adran 51(7) fel un lle mae angen i ymddygiad y cynrychiolydd cyfreithiol fod yn amlwg ddi-gyfiawnhad<sup>80</sup> ac yn golygu bod y cynrychiolydd cyfreithiol wedi torri ei ddyletswydd i'r llys. Mae'r prawf yn adran 51(7) wedi'i ddehongli'n gaeth gan y llysoedd ac, fel rheol, ni chymerir fod cynrychiolydd cyfreithiol wedi ymddwyn yn amhriodol neu'n afresymol neu'n esgeulus dim ond oherwydd iddynt weithredu ar ran parti a fynnodd fynd ar ôl achos oedd yn anobeithiol.<sup>81</sup> Gallai'r cynrychiolydd cyfreithiol gynghori ei gleient o wendid yr achos ond mae gan y cleient bob hawl i ddiystyru'r cyngor a symud ymlaen gyda'r achos. Rhaid i farnwr lwfa'n llawn am yr anawsterau sy'n wynebu cynrychiolydd cyfreithiol yn y llys; fodd bynnag, ni all cynrychiolydd cyfreithiol “roi ei gymorth mewn achos lle camddefnyddir proses y llys”.<sup>82</sup>

146. Gellir penderfynu gorchymyn costau a wastraffwyd fel rhan o'r hawliad terfynol neu ar wahân iddo. O dan Reol 46.8(2) yn y Rheolau Trefniadaeth Sifil rhaid i'r llys (yn gyson â difrifoldeb gorchymyn costau a wastraffwyd) roi cyfle rhesymol i'r cynrychiolydd cyfreithiol wneud cyflwyniadau ysgrifenedig neu, os yw'n well gan y cynrychiolydd cyfreithiol, i fynychu gwrandawriad cyn y mae'n gwneud gorchymyn o'r fath.

<sup>80</sup> Ridehalgh v Horsefield fel yr uchod

<sup>81</sup> Ridehalgh v Horsefield

<sup>82</sup> Ridehalgh v Horsefield

## Y mater dan sylw

147. Pur anaml y gwneir gorchmynion costau a wastraffwyd. Rhwng Mawrth 2011 a Mehefin 2013 dim ond tua hanner cant o'r gorchmynion hyn a wnaed, i gyd yng nghyswllt adolygiadau barnwrol mewnfudo a lloches. Gwnaed tua 95% o'r gorchmynion hyn yn y cam caniatâd, yng nghyswllt hawliadau adolygiad barnwrol annheilwng na lwyddodd i gael caniatâd.<sup>83</sup> Gwerth cyfartalog gorchymyn costau a wastraffwyd rhwng Mawrth 2011 a Mehefin 2013 oedd £400.
148. Yn dilyn newidiadau a gyflwynwyd ar 1 Gorffennaf 2013, gwnaed i ffwrdd â'r hawl i gael gwrandawriad caniatâd llafar lle mae'r barnwr yn dyfarnu bod cais yn gwbl annheilwng ar sail y papurau. Dylai hyn, ynghyd â chyflwyniad y ffi newydd a drafodwn uchod, helpu i leihau nifer yr adolygiadau barnwrol.
149. Mae'r Llywodraeth yn credu y dylid cyflwyno newidiadau pellach i gydbwysu'r cymhellion ariannol sy'n cyfrannu at benderfyniad yr hawlydd i ddwyn cais neu beidio. Dylai hawlwr a'u cynrychiolwyr cyfreithiol bwysu a mesur cryfder eu hachos yn erbyn y costau tebygol.
150. Y cynrychiolydd cyfreithiol sydd yn y sefyllfa orau i gynghori ei gleient ynghylch a yw'r cais yn debygol o lwyddo, yn gyntaf cyn y cais cychwynnol am ganiatâd ar sail y papurau ac yna eto yn y gwrandawriad llafar. Mae llawer o hawlwr yn gwneud eu penderfyniad ar sail y cyngor hwn. Mae'r Llywodraeth yn ystyried y gallai cymhelliad mwy fod o fantais gyda chael cynrychiolwyr cyfreithiol i ystyried cryfder yr achos cyn cyflwyno ac adnewyddu cais am ganiatâd, ac y dylai cynrychiolwyr cyfreithiol ganolbwyntio mwy ar ba mor briodol fyddai cyflwyno pwyntiau sydd eisoes wedi eu hystyried a'u gwrthod gan farnwr, yn enwedig lle nad yw'r achos yn debygol iawn o lwyddo.

## Y Cynigion

151. Mae'r Llywodraeth eisiau holi barn ynghylch a ddylid newid y dull presennol o wneud gorchmynion costau a wastraffwyd fel y gellir ystyried gwneud gorchymyn o'r fath yn erbyn ystod ehangach o ymddygiad, a barn hefyd am sut fath o brawf newydd fyddai hwn - er enghraifft, a fyddai ac os felly sut fyddai'n wahanol i'r prawf yn CPR 44.11 ar gyfer sancsiynau costau am gamymddwyn.
152. Mae'r Llywodraeth hefyd am holi barn ynghylch a ellid symleiddio'r broses o ystyried cais am orchymyn costau a wastraffwyd fel nad yw'n fwy o draul ar amser neu adnoddau na'r costau a wastraffwyd eu hunain. Un posibilrwydd fyddai gwneud mwy o ddefnydd o ystyried ar sail y papurau gyda chyflwyniadau ysgrifenedig, ond yn cadw'r hawl i ofyn am wrandawriad llafar pe bai hynny er budd cyfiawnder.
153. Mae'r Llywodraeth hefyd yn gwahodd barn ynghylch a ddylai cynrychiolwyr cyfreithiol sy'n herio gorchymyn costau a wastraffwyd ac yn gofyn am wrandawriad llafar orfod talu ffi am gost y gwrandawriad llafar hwnnw, er mwyn cwrdd yn iawn â'r gost o wrando'r achos, ac a ddylai'r ffi honno ddibynnu ar y cais yn llwyddo.

---

<sup>83</sup> Ar sail gwybodaeth reoli lefel uchel wedi'i darparu gan Adran Cyfreithwyr y Trysorlys.

## Cwestiynau

**Cwestiwn 22: Sut fyddai modd newid y dull o wneud gorchmynion costau a wastraffwyd fel eu bod yn cael eu hystyried ar gyfer ystod ehangach o ymddygiad? Beth yn eich barn chi fyddai prawf priodol ar gyfer gwneud gorchmynion costau a wastraffwyd yn erbyn cynrychiolydd cyfreithiol?**

**Cwestiwn 23: Sut fyddai'n bosibl symleiddio'r broses o wneud gorchmynion costau a wastraffwyd?**

**Cwestiwn 24: A ddylid codi ffi i gwrdd â chost unrhyw wrandawriad llafar ar gyfer gorchmynion costau a wastraffwyd, ac a ddylai'r ffi honno ddibynnu ar y cais yn llwyddo?**

**Cwestiwn 25: Pa sgôp sydd i gymhwyso unrhyw newid a wneir i orchmynion costau a wastraffwyd i fathau eraill o achosion ar wahân i adolygiadau barnwrol? Rhowch fanylion am unrhyw broblemau ymarferol a allai godi.**

## Gorchmynion Gwarchod Costau

### Y Sefyllfa Bresennol

154. Mae Gorchmynion Gwarchod Costau (PCO) yn cyfyngu ar faint o gostau sy'n rhaid i hawlydd eu talu mewn achos lles y cyhoedd. Dull wedi'i ddatblygu gan farnwyr yw Gorchmynion PCO lle mae'r llys yn capio atebolrwydd yr hawlydd dros dalu costau'r diffynnydd ac weithiau rhoddir croes-gap hefyd ar atebolrwydd y diffynnydd dros gostau'r hawlydd. Fel rheol gwneir Gorchmynion PCO ar ddechrau achos gan bennu, ymlaen llaw, uchafswm y risg ariannol y gallai'r hawlydd ei hwynebu o ran talu costau'r diffynnydd. Fel arfer os yw hawlydd yn colli hawliad, rhaid i'r hawlydd dalu costau'r diffynnydd o amddiffyn yr hawliad yn llwyddiannus. Fodd bynnag, os oes Gorchmynion Gwarchod Costau yn ei le ac mae'r hawlydd yn aflwyddiannus, gall y diffynnydd ond adfer ei gostau hyd at uchafswm y cap a nodir yn y Gorchmynion a byddai'n rhaid iddo dalu'r gweddill ei hun.
155. Sefydlwyd y drefn bresennol ar gyfer Gorchmynion Gwarchod Costau gan y Llys Apêl yn achos *R (Corner House Research) v Secretary of State for Trade and Industry*.<sup>84</sup> Barnodd y Llys Apêl y dylai Corner House, corff anllywodraethol gwrth-dwyll, gael ei warchod fel achos eithriadol rhag gorfod talu costau'r diffynnydd oherwydd "byddai'r materion o bwys cyhoeddus a gododd yn yr achos wedi cael eu mygu ar y dechrau, ac ni fyddai gan y llys unrhyw bŵer i roi'r rhyddhad a geisiwyd gan y cwmni bach hwn".<sup>85</sup> Aeth ati hefyd i nodi'r egwyddorion cyffredinol y dylid rhoi PCO o danynt:
- mae'r materion dan sylw o bwys cyhoeddus cyffredinol;
  - mae angen datrys y materion hynny er lles y cyhoedd;
  - nid oes gan yr hawlydd unrhyw fudd preifat yng nghanlyniad yr achos;
  - mae modd ariannol yr hawlydd yn golygu bod PCO yn deg a chyfiawn;

<sup>84</sup> [2005] EWCA Civ 192

<sup>85</sup> Para 145

- a. os na wneir gorchymyn, mae'n debyg y byddai'r hawlydd yn gollwng yr achos.<sup>86</sup>

156. Mewn achosion heb fod yn rhai amgylcheddol, ni ddaw'r Gorchmynion hyn o dan y Rheolau ar Drefniadaeth Sifil. Mewn achosion adolygiad barnwrol yn ymwneud â materion amgylcheddol a ddaw o fewn sgôp Confensiwn Aarhus, defnyddir cyfundrefn gwarchod costau wahanol (sy'n pennu capiau cost sefydlog) a nodir yn y Rheolau Trefniadaeth Sifil. Yn yr achosion hyn mae costau'r hawlydd yn cael eu capio ar £5,000 lle mae'r hawlydd yn unigolyn, ac ar £10,000 mewn achosion eraill, ac ar £35,000 i'r diffynnydd. O ran Gorchmynion PCO mewn achosion amgylcheddol o dan Gonfensiwn Aarhus, mae'r DU yn aros i weld beth fydd canlyniad achos sydd gerbron Llys Cyfiawnder Ewrop ar hyn o bryd. Nid yw'r Llywodraeth yn cynnig newid y gyfundrefn honno cyn gwybod beth fydd canlyniad yr achos uchod, ond mae'n ystyried y byddai'n briodol edrych ar sut ddefnyddir Gorchmynion PCO mewn achosion heb fod yn rhai amgylcheddol.

### Y mater dan sylw

157. Yn dilyn y penderfyniad yn achos Corner House, mae'r llysoedd wedi mabwysiadu dull cynyddol hyblyg wrth gymhwyso'r egwyddorion uchod, ac erbyn hyn gwneir Gorchymyn Gwarchod Costau mewn amgylchiadau ehangach na rhai y cawsant eu rhagweld yn achos Corner House. Yn benodol, nid oes mwyach angen i'r achos fod yn "eithriadol"<sup>87</sup> ac mae Gorchmynion PCO wedi cael eu gwneud yn gynyddol lle mae budd preifat yn y fantol o achos hawliad adolygiad barnwrol.<sup>88</sup>

158. Mae'r Llywodraeth yn poeni bod y dull eangfrydig hwn wedi troi'r fantol yn rhy bell fel bod Gorchmynion Gwarchod Costau'n cael eu defnyddio bellach pan fo'r hawlydd yn dwyn adolygiad barnwrol er mantais iddo ef neu hi. Mewn achos o'r fath, mae'r Llywodraeth yn cwestiynu a yw'n briodol gwneud Gorchymyn Gwarchod Costau lle byddai'n rhaid i bwrs y wlad gwrdd â chostau hawliad aflwyddiannus wedi'i ddwyn gan yr hawlydd. Mae'r Llywodraeth yn awgrymu y dylai'r rheol gostau "arferol" fod yn berthnasol, ac y dylai'r ochr sy'n colli dalu costau'r ochr lwyddiannus.

159. Fel y trafodwn mewn rhan arall o'r papur hwn, mae'r Llywodraeth yn poeni bod adolygiad barnwrol yn cael ei ddefnyddio fel offeryn ymgyrchu wrth i heriau gael eu dwyn gan grwpiau nad oes ganddynt fudd uniongyrchol nac amlwg yn yr hawliad. Mae rhywfaint o or-gyffwrdd rhwng y mater o gymhwyster a sut ddefnyddir Gorchymyn Gwarchod Costau. Yn benodol, ac i'r graddau bod y rheolau sefydlog yn caniatáu i hawliadau "lles y cyhoedd" gael eu dwyn lle nad oes hawlydd gyda budd uniongyrchol neu amlwg, mae'r Llywodraeth yn cwestiynu a yw'n iawn - fel y byddai Gorchymyn PCO yn ei ddarparu - bod rhaid i ddiffynnydd sy'n gorff cyhoeddus dalu ei gostau ei hun am amddiffyn yr achos hwnnw, pe bai'r hawliad yn methu.

160. Mae'r Llywodraeth hefyd yn poeni am yr anghydraddoldeb gyda'r defnydd presennol o groes-gapiau. I sicrhau cydbwysedd am wneud Gorchymyn PCO, pwrpas croes-gap

---

<sup>86</sup> Para 75

<sup>87</sup> *R (Buglife) v Thurrock Thames Gateway Development Corporation* [2008] EWCA Civ 1209 para 18.

<sup>88</sup> *R (Compton) v Wiltshire PCT* [2009] 1WLR 1436 Waller LJ yn 23; *R (Buglife) v Thurrock Thames Gateway Development Corporation* [2008] EWCA Civ 1209. Gweler hefyd y penderfyniad yn *Morgan v Hinton Organics (Wessex) Ltd* [2009] EWCA Civ 107 ac, yn benodol, paragraffau 35 tan 40 yn nyfarniad y Llys, lle adolygir amrywiol achosion yn ymwneud ag arwyddocâd budd preifat (yng nghyswllt a ddylid gorchymyn PCO neu beidio).

yw gwarchod y diffynnydd yn erbyn costau'r hawlydd. Fodd bynnag, mewn adolygiadau barnwrol heb fod yn amgylcheddol, ni wneir croes-gap bob tro lle gwneir gorchymyn PCO ar gyfer yr hawlydd. Hefyd, lle mae croes-gap yn cael ei orchymyn, yn aml iawn mae gwahaniaeth rhwng symiau'r capiau i'r hawlydd ac i'r diffynnydd. Mewn achosion heb fod yn rhai amgylcheddol, nid oes swm penodol ar gyfer yr hawlydd neu'r diffynnydd ond, yn ymarferol, mae'r cap i'r hawlydd yn is na'r cap i'r diffynnydd. Mae'r Llywodraeth yn credu, wrth ddefnyddio Gorchmynion PCO, y dylid cael cydraddoldeb rhwng achosion amgylcheddol a rhai nad ydynt yn amgylcheddol.

161. Mae'r Llywodraeth o'r farn y dylid cydbwysu'r defnydd o Orchmynion PCO mewn achosion heb fod yn rhai amgylcheddol fel bo'r hawlydd yn ystyried yn fwy gofalus a ddylid dwyn neu wneud cais am adolygiad barnwrol. Mae'r Llywodraeth eisiau taro'r cydbwysedd priodol rhwng y cyfundrefnau costau i sicrhau bod mynediad at gyfiawnder yn parhau ond eto nad yw'r partiön yn cael eu hynysu'n ormodol oddi wrth gostau eu hachos mewn achosion amhriodol.

## Y Cynigion

162. Wrth gymhwyso'n gaeth yr egwyddorion oedd yn berthnasol yn wreiddiol yn achos *Corner House*, ni fyddai PCO yn cael ei wneud pe bai gan yr hawlydd fudd preifat yn yr achos. Fodd bynnag, nid dyma'r dull y mae'r llysoedd yn ei ddilyn ar hyn o bryd wrth ystyried rhoi Gorchmynion PCO. Mae'r Llywodraeth felly eisiau holi barn ynghylch a yw'n iawn i'r llysoedd warchod costau hawlwy'r sydd â budd preifat mewn hawliad adolygiad barnwrol.
163. Yn ogystal, ac os parheir i ddwyn hawliadau adolygiad barnwrol "gwleidyddol" ac "ymgyrchu" lle nad oes hawlydd gyda budd preifat, mae'r Llywodraeth am holi barn ynghylch a ddylid gwarchod costau'r mathau yma o hawliadau ac a yw'n iawn dileu'r defnydd o Orchmynion PCO mewn hawliadau nad ydynt yn rhai amgylcheddol.
164. Fel opsiwn yn lle dileu Gorchmynion PCO, mae'r Llywodraeth am ystyried a yw'r egwyddorion presennol oedd yn sail dros ddyfarnu PCO yn achos *Corner House* yn taro'r cydbwysedd iawn ac yn sicrhau cydraddoldeb rhwng y partiön mewn achos, neu a ddylid eu haddasu.
165. Fel y soniwyd eisoes, mae'r Llywodraeth am holi barn ynghylch a ddylid diwygio'r gofynion i ddarparu gwybodaeth am sut mae achos yn cael ei ariannu a'r pŵer i ddyfarnu costau yn erbyn partiön allanol. Er ei bod eisoes yn egwyddor y dylai'r llys, wrth feddwl am PCO, ystyried modd ariannol yr hawlydd, mae'r Llywodraeth o'r farn y dylai'r broses hon fod yn fwy trylwyr ac mae am holi barn ynghylch a ddylai'r hawlydd, wrth wneud cais am PCO, orfod rhoi manylion am bwy sy'n ariannu'r achos a datganiad o asedau, gan gynnwys cyllid gan drydydd partiön. Byddai angen i'r llys ystyried y manylion hyn wrth benderfynu a fyddai, ar sail y wybodaeth honno a'r cap arfaethedig, yn gymesur gwneud Gorchymyn PCO.
166. Mae'r Llywodraeth hefyd yn cynnig y dylai fod rhagdybiaeth, wrth wneud PCO, bod y llys yn ystyried croes-gapio atebolrwydd y diffynnydd dros dalu costau'r hawlydd. Byddai gan y llys ddisgresiwn o hyd i orchymyn croes-gap, ond byddai hyn yn adlewyrchu'r egwyddor gyffredinol o gadw costau'r achos ar lefel resymol, gan gydnabod nad yw adnoddau cyhoeddus yn ddiderfyn.

## Cwestiynau

**Cwestiwn 26:** Beth yw eich barn ynghylch a fyddai'n briodol amodi na fydd Gorchymynion PCO ar gael mewn unrhyw achos lle mae budd preifat neu unigol, p'un ai yw'r achos er lles ehangach y cyhoedd neu beidio?

**Cwestiwn 27:** Sut fyddai modd addasu'r egwyddorion ar gyfer gwneud Gorchymynion PCO i sicrhau cydbwysedd gwell a) rhwng y partïon yn yr achos, a b) rhwng rhoi mynediad i'r llysoedd a buddiannau'r trethdalwr?

**Cwestiwn 28:** Beth yw eich barn am y cynigion i roi mwy o eglurder ynghylch pwy sy'n ariannu'r achos wrth ystyried gwneud PCO?

**Cwestiwn 29:** A ddylai fod rhagdybiaeth bod y llys yn ystyried croes-gap yn gwarchod atebolrwydd y diffynnydd i dalu costau wrth wneud PCO o blaid yr hawlydd? A oes unrhyw amgylchiadau lle na fyddai'n briodol capio atebolrwydd costau'r diffynnydd?

**Cwestiwn 30:** A ddylid pennu uchafsymiau penodol ar groes-gap i'r hawlydd ac i'r diffynnydd? Os felly, faint fyddai swm addas?

## Costau'n codi o rôl trydydd partïon sy'n ymyrryd a phartïon allanol

### Y Sefyllfa Bresennol

167. O dan y Rheolau Trefniadaeth Sifil, rhaid cyflwyno manylion yr achos i berson y byddai'r unioni a geisir mewn adolygiad barnwrol yn "effeithio'n uniongyrchol" arno. Go brin fyddai'r personau hyn.<sup>89</sup>
168. Fodd bynnag, gallai personau neu gyrff eraill a allai fod â budd mwy cyffredinol yn y materion sy'n destun yr adolygiad barnwrol fod eisiau ymyrryd, drwy ffeilio tystiolaeth neu wneud cyflwyniadau yn y gwrandawriad. Mae'r Rheolau Trefniadaeth Sifil (CPR 54.17) yn caniatáu i gais i ymyrryd gael ei wneud, a bydd yn cael ei benderfynu gan y llys ar ôl iddo wrando barn y partïon yn yr achos. Mater i ddisgresiwn y llys fyddai'r cwestiwn o bwy ddylai ysgwyddo costau a achosir gan ymyrraeth trydydd parti, ac fel arfer byddai'r mater yn cael sylw ar ddiwedd yr achos.
169. O dan Adran 51 Deddf Uwchlysoedd 1981 a CPR 46.2, gall y llys ddyfarnu costau yn erbyn person nad yw'n un o'r partïon mewn hawliad. Dim ond mewn rhai amgylchiadau y mae hyn yn digwydd, fel arfer lle mae'r person yn ariannu neu'n rheoli'r ymglyfreitha'n amhriodol. Mae dyfarniad o'r fath yn "eithriadol".<sup>90</sup>

### Y mater dan sylw

170. Mae gan bartïon ychwanegol sy'n ymyrryd mewn adolygiad barnwrol (ar ôl gwneud cais o dan CPR 54.17) y potensial i gynyddu costau cyfreithiol yr achos yn sylweddol. Mae'n debyg y byddai'r holl bartïon yn yr achos yn croesawu mwy o eglurder a dealltwriaeth - yn fuan yn yr achos - ynghylch y goblygiadau cost tebygol yn dilyn ymyrraeth.

<sup>89</sup> Gweler, er enghraifft, *R v Liverpool City Council ex p Muldoon*, [1996] 1 WLR 1103.

<sup>90</sup> *Dymocks Franchise Systems (NSW) Pty Ltd v Todd* [2004] 1 WLR 2807 (PC) a hefyd *Arkin v Borchard Lines Ltd* (Rhifau 2&3) [2005] 1 WLR 3055.



171. Felly mae'r Llywodraeth am holi barn ynghylch pwy ddylai ysgwyddo'r costau a achosir gan drydydd partiön sy'n ymyrryd ac a fyddai'n briodol i reolau'r llys ragnodi a / neu roi mwy o arweiniad ar sut ddylid delio gyda chostau a achosir gan ymyrraeth trydydd partiön. Y ddwy elfen gostau sy'n arbennig o berthnasol yw costau cyfreithiol y parti sy'n ymyrryd, a'r costau cyfreithiol ychwanegol a achosir gan yr hawlydd / diffynnydd o ganlyniad i faterion a godir gan y parti sy'n ymyrryd.
172. Hefyd, gallai unrhyw newidiadau i'r cymhwyster yr ydym yn ei drafod uchod effeithio ar ariannu trydydd parti neu barti allanol, mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, gallai rheol fwy pwrpasol ynghylch cymhwyster arwain at fwy o geisiadau i ymyrryd. Pe bai hynny'n digwydd, gallai'r cwestiwn o bwy ddylai dalu costau'n codi o ymyrraeth trydydd parti mewn hawliadau adolygiad barnwrol godi'n amlach.
173. Yn ail, fel y trafodwyd eisoes, gallai cyrff cynrychiadol gael eu creu i weithredu fel hawlwy'r er mwyn cyfyngu'r risg ariannol i'w haelodau (oherwydd wedyn dim ond asedau'r corff fyddai yn y fantol, nid asedau'r unigolyn). Yn ogystal, gallai corff yn hawlio hefyd gael ei ariannu gan unigolion neu gyrff eraill na fyddai ganddynt fudd digonol i ddwyn hawliad eu hunain, ond a fyddai'n barod i gyfrannu'r cymorth ariannol ar gyfer yr hawliad oherwydd eu bod yn cytuno gyda'i amcanion.
174. Fodd bynnag, oni bai fod yr hawlydd yn derbyn cytundeb ariannu rhagnodedig, fel Cytundeb Ffioedd Amodol (lle byddai rhan o ffioedd y cyfreithiwr ond yn cael eu talu pe bai'r achos yn llwyddo), nid oes darpariaeth yn y Rheolau Trefniadaeth Sifil i ddatgelu pwy sy'n ariannu'r achos. Gallai hyn olygu na fyddai'n ymarferol bosibl gorfodi costau yn erbyn y sawl a fu'n ariannu, ac mewn rhai achosion a fu'n rheoli, yr achos. Mae'r Llywodraeth yn poeni na fyddai hyn yn cynnig y cymhellion ariannol priodol i hawlwy'r (ac i'r partiön allanol y byddent yn eu cynrychioli neu a fyddai wedi eu cefnogi'n ariannol). Yn unol â hyn, mae eisiau holi barn ynghylch sut i ddelio gyda chostau yn erbyn partiön allanol.

## Y Cynigion

### *Partiön sy'n ymyrryd*

175. Mae'r Llywodraeth eisiau holi barn ynghylch yr egwyddor, lle mae parti'n dewis ymyrryd mewn achos adolygiad barnwrol (ar ôl gwneud cais o dan CPR 54.17), na ddylai hynny fel arfer arwain at gost ychwanegol i'r partiön presennol yn yr achos.
176. Barn y Llywodraeth ar hyn o bryd felly, lle mae parti'n ceisio ymyrryd mewn achos, yw mai'r rhagdybiaeth yw bod y parti hwnnw'n ysgwyddo ei gostau ei hun, beth bynnag fyddai canlyniad yr hawliad adolygiad barnwrol. Felly, er y dylai hawlydd neu ddiffynnydd aflwyddiannus dalu costau ei wrthwynebydd yn yr achos, ni ddylai hefyd orfod talu costau cyfreithiol y trydydd parti a ymyrrodd yn wirfoddol yn yr achos.
177. Yn ogystal, mae'r Llywodraeth am holi barn ynghylch a ddylid bod rhagdybiaeth lle mae parti sy'n ymyrryd yn codi materion lle achoswyd costau cyfreithiol i'r hawlydd neu'r ddiffynnydd, a'r rheini'n sylweddol fwy nag y byddent wedi eu hachosi fel arall, mai'r parti sy'n ymyrryd a ddylai dalu'r costau ychwanegol hynny.
178. Mae'r Llywodraeth yn awgrymu y gellid ymwrthod â'r rhagdybiaethau hyn, a byddai gan y llys bob amser ddisgresiwn cyffredinol, ond mae'r Llywodraeth am holi barn ynghylch a ddylai'r dulliau hyn fod yn fan cychwyn ar gyfer penderfyniadau'r llys. Ymhellach, mae'r Llywodraeth am holi barn yn gyffredinol am y materion costau sy'n codi wrth i drydydd partiön ymyrryd mewn hawliadau adolygiad barnwrol.

*Partïon Allanol Eraill*

179. Mae'r Llywodraeth am holi barn ynghylch a ddylid diwygio'r gofynion i ddarparu gwybodaeth am sut mae achos yn cael ei ariannu a'r pŵer i ddyfarnu costau yn erbyn partïon allanol. Gallai'r partïon allanol hyn gynnwys unigolion sy'n darparu'r cymhwyster angenrheidiol i gorff sy'n hawlio, neu unigolion neu gyrff eraill sy'n darparu'r gefnogaeth ariannol i'r hawlydd. Fodd bynnag, byddai angen i unrhyw newid fod o dan reolaeth y llys ac ni fyddai dyfarniadau o'r fath yn arferol.

**Cwestiynau**

**Cwestiwn 31: A ddylai trydydd partïon sy'n dewis ymyrryd mewn hawliadau adolygiad barnwrol fod yn gyfrifol mewn egwyddor am eu costau cyfreithiol eu hunain, fel na ddylent fel rheol fod yn gallu hawlio'r costau hynny naill ai gan yr hawlydd neu'r diffynnydd?**

**Cwestiwn 32: A ddylai trydydd partïon sy'n dewis ymyrryd mewn hawliadau barnwrol ac sy'n achosi costau ychwanegol sylweddol i'r partïon presennol fod yn gyfrifol fel arfer am y costau ychwanegol hynny?**

**Cwestiwn 33: A ddylai fod yn ofynnol i hawliwyr ddarparu gwybodaeth am sut mae eu hachos yn cael ei ariannu? A ddylid rhoi mwy o bwerau i'r llys i ddyfarnu costau yn erbyn partïon allanol? A ydych yn gweld unrhyw drafferthion ymarferol gyda hyn, a sut fyddai modd datrys y trafferthion hynny?**

**Cwestiwn 34: A oes gennych unrhyw dystiolaeth neu enghreifftiau o orchmynion costau'n cael eu defnyddio, gan gynnwys PCO, gorchmynion costau a wastraffwyd, a chostau yn erbyn trydydd partïon a phartïon sy'n ymyrryd?**

## 8. Neidio

### Rhagarweiniad

180. Mae'r Llywodraeth am holi barn ynghylch ymestyn sgôp apeliadau 'neidio', fel y gallai mwy o achosion symud ymlaen yn syth i'r Goruchaf Lys o lys y gwrandawriad cyntaf. Barn y Llywodraeth yw y dylai rhai achosion, lle mae'n glir na fyddant yn diweddu yn y Llys Apêl ond yn ceisio apelio ymhellach i'r Goruchaf Lys, fod yn gallu cyrraedd yno'n gynt. Byddai'r cynigion hyn yn berthnasol i apeliadau neidio'n gyffredinol, nid yn unig i apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r gwrandawriad cyntaf mewn adolygiadau barnwrol.

### Y Sefyllfa Bresennol

181. Llywodraethir apeliadau neidio gan adran 12 Deddf Gweinyddu Cyfiawnder 1969, a weithredodd y rhan fwyaf o'r model arfaethedig ar gyfer apeliadau o'r fath fel oedd wedi'i nodi yn adroddiad terfynol Pwyllgor Evershed ym 1953.<sup>91</sup>
182. O dan adran 12 y Ddeddf, caiff achosion symud ymlaen yn syth o'r Uchel Lys, neu o unrhyw Lys Adrannol yng Nghymru a Lloegr, i'r Goruchaf Lys. Mae'n disgrifio o ba amgylchiadau y gellir gwneud hyn a'r broses sydd i'w dilyn. Bydd apêl neidio ond yn bosibl lle gallai fod apêl fel arall i'r Llys Apêl.
183. Mae angen tystysgrif i apêl neidio ddigwydd. Dylid gwneud y cais am y dystysgrif i'r barnwr yn y gwrandawriad cyntaf naill ai'n syth ar ôl clywed y dyfarniad neu o fewn 14 diwrnod i'r dyfarniad. Gallai'r barnwr, os cyflwynir achos digonol, roi'r dystysgrif os bydd pob un o'r partïon yn nodi eu caniatâd i'r cais ac mae'r amod berthnasol wedi'i bodloni.<sup>92</sup> Rhaid i Bwyllgor y Goruchaf Lys hefyd gytuno bod yr apêl neidio'n cael digwydd.
184. Mae'r amodau perthnasol wedi eu nodi yn adran 12(3) Deddf 1969. Yn fyr, yr amodau yw bod pwynt o gyfraith o bwys cyffredinol i'r cyhoedd yn berthnasol, a bod y pwynt o gyfraith hwnnw:
- naill ai'n ymwneud â dehongli statud neu is-ddeddfwriaeth, ac wedi cael ei ddadlau'n llawn yn llys y gwrandawriad cyntaf a'i ystyried yn llawn yn y dyfarniad; neu
  - yn un lle mae llys y gwrandawriad cyntaf wedi'i rwymo gan benderfyniad blaenorol naill ai gan y Llys Apêl neu'r Goruchaf Lys, ar ôl cael ei ystyried yn llawn yn yr achos blaenorol.
185. Os rhoddir tystysgrif, mae gan unrhyw barti fis i ddeisebu'r Goruchaf Lys, er bod modd ymestyn yr amser hwnnw. Bydd y ddeiseb yn cael ei hystyried gan Bwyllgor y Goruchaf Lys, sydd â'r disgrisiwn i'w chaniatáu neu beidio.

<sup>91</sup> 'Final Report of the Committee on Supreme Court Practice and Procedure' (1953, Cmd. 8878) – gweler paragraffau 483 tan 504.

<sup>92</sup> Mae gan y barnwr ddisgrisiwn a gallai, er enghraifft, ystyried a yw'r cais yn dod o fewn ysbryd yn ogystal â llythyren y gyfraith ac a fyddai Tŷ'r Arglwyddi'n elwa o gael y Llys Apêl i ystyried y cais – fel ag yn Megarry J in *Inland Revenue Commissioners v. Church Commissioners for England* [1974] 3 All ER 529.

## Y mater dan sylw

186. Mewn nifer fach o achosion pwysig, mae'n amlwg y gofynnir yn y pen draw am yr hawl i apelio i'r Goruchaf Lys. Ar hyn o bryd, gall yr achosion hyn gymryd blynyddoedd lawer i ddod i gasgliad, gan ohirio materion sydd ym marn y Llywodraeth yn bwysig a lle byddai penderfyniad chwim yn amlwg yn ddymunol, a hefyd yn andwyol i ffydd y cyhoedd yn y system gyfiawnder. Gallai fod gan barti fudd mewn gohirio'r mater lle oedd yn amlwg nad oedd hyn er lles ehangach y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth yn credu y dylai'r achosion hyn gael eu penderfynu'n gynt gyda llai o gamau yn y canol.

## Y Cynigion

187. Roedd adroddiad Evershed yn argymhell bod y model neidio cyfyngedig yr oedd yn ei gynnig yn "cael ei gyflwyno fel cam cyntaf arbrofol gyda golwg ar ei ymestyn ymhellach pe bai'n ddefnyddiol ac ymarferol i'w weithredu".<sup>93</sup> Gweithredwyd y model hwnnw ar ffurf wedi'i haddasu yn Neddf 1969.

188. Mae'r Llywodraeth yn ymgynghori ar dri newid i'r model presennol, sef:

- ymestyn yr amodau sy'n rhaid eu bodloni cyn caniatáu cais i neidio;
- dileu'r gofyniad bod angen caniatâd yr holl bartion; a
- caniatáu i apêl neidio gael ei chychwyn yn yr Uwch Dribiwnlys, yn y Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth ac yn y Comisiwn Apeliadau Mewnfudo Arbennig.

## Opsiwn 1 - Ymestyn yr Amgylchiadau Perthnasol

189. Gellir ond dwyn apêl neidio o dan Ddeddf 1969 os bodlonir un o'r ddau amgylchiad perthnasol (yn adran 12(3)). Fel yr eglurir uchod, mae'r broses angen pwynt o gyfraith sydd o bwys cyffredinol i'r cyhoedd lle mae'r llys wedi'i rwymo gan gynsail. Yn y ddau amgylchiad, rhaid i'r pwynt perthnasol fod wedi cael ei ystyried yn llawn gan lys y gwrandawriad cyntaf.

190. Mae'r Llywodraeth am holi barn ynghylch ymestyn y meini prawf perthnasol sy'n rhaid eu bodloni os yw'r achos i fod yn gymwys i symud yn syth i'r Goruchaf Lys. Mae'r Llywodraeth am sicrhau, lle mae achos o bwysigrwydd cenedlaethol neu'n codi materion pwysig (er enghraifft alltudio person sy'n cyflwyno risg i ddiogelwch cenedlaethol, prosiect seilwaith cenedlaethol bwysig, neu achos lle byddai ei ganlyniad yn effeithio ar nifer fawr o bobl), y gallai'r llys ddefnyddio'r pŵer i neidio. Er y byddai dal angen i'r pwynt o gyfraith fod yn un o bwysigrwydd cenedlaethol, y prif ffactor a fyddai'n penderfynu'r mater fyddai a oedd gan yr achos oblygiadau fel y rhai uchod.

191. Achosion sy'n neidio i'r Goruchaf Lys yw rhai a fyddai wedi cyrraedd y Goruchaf Lys beth bynnag o dan y gyfraith bresennol. Byddai ein diwygiad arfaethedig yn gwneud i ffwrdd â'r cam canol, fel bod angen llai o amser i ddatrys yr achos. Barn y Llywodraeth yw na fyddai'r diwygiad neidio'n golygu bod achosion sy'n cyrraedd y Goruchaf Lys na fyddent wedi gwneud fel arall. Mewn rhai achosion, gallai'r Goruchaf Lys deimlo y

---

<sup>93</sup> Paragraff 497.

byddai ystyriaeth y Llys Apêl yn ddefnyddiol i grynhoi'r dadleuon ac, os felly, byddai cais i neidio'n cael ei wrthod.

### Cwestiynau

**Cwestiwn 35: A ydych yn meddwl ei bod yn briodol ychwanegu at y meini prawf ar gyfer neidio fel bod apeliadau sydd o bwysigrwydd cenedlaethol, neu sy'n codi materion pwysig (er enghraifft alltudio person sy'n cyflwyno risg o ddiogelwch cenedlaethol, prosiect seilwaith cenedlaethol bwysig, neu achos lle byddai'r canlyniad yn effeithio ar nifer fawr o bobl) yn cael eu cyflymu?**

**Cwestiwn 36: A oes mathau eraill o achosion lle dylid cymhwyso trefniadau neidio ar eu cyfer?**

### Opsiwn 2 - Caniatâd

192. Fel yr eglurir uchod, ar y funud rhaid i bob un o'r bartïon ganiatáu i gais i'r barnwr yn y gwrandawriad cyntaf. I ddechrau, gwrthododd Bwyllgor Evershed fod angen caniatâd yr holl bartïon.<sup>94</sup> Oherwydd bod angen y caniatâd cyn gwneud cais i'r llys, ac nid yw cais wedi'i wneud os na roddir caniatâd, nid oes data ar gael ar yr achosion lle gwrthodir caniatâd.

193. Mewn nifer o achosion a allai elwa o neidio, efallai mai'r canlyniad sydd gan yr hawlydd mewn golwg yw gohirio, felly ni fyddent yn caniatáu i gyflymu'r achos drwy neidio. Mae'r Llywodraeth am holi barn ynghylch dileu'r angen i'r holl bartïon ganiatáu i neidio, ac ynghylch prosesau amgen o benderfynu cais.

194. Byddai llys y gwrandawriad cyntaf a'r Goruchaf Lys yn cadw eu rolau presennol a'u disgresiwn i wrthod apêl neidio lle oedd hynny'n amhriodol. Dylai hyn sicrhau na fyddai'r newid hwn yn arwain at fwy o achosion yn symud i'r Goruchaf Lys.

### Cwestiynau

**Cwestiwn 37: A ddylid dileu'r gofyniad bod yr holl bartïon yn caniatáu i gais i neidio?**

**Cwestiwn 38: A oes unrhyw risgiau i'r dull hwn, a sut fyddai modd eu lliniaru?**

### Opsiwn 3: Ymestyn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd lle gellid cychwyn apêl i neidio

195. Yn y gorffennol mae galwadau wedi bod i ymestyn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd lle gallai apêl i neidio gael ei chychwyn. Er enghraifft, cynigiodd yr Uwch-Lywydd Tribiwnlysoedd bryd hynny ymestyn y broses i'r Uwch Dribiwnlys a'r Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth yng Ngorffennaf 2008, gan nodi bod yr Arglwydd Bingham, sef yr Uwch Arglwydd Apêl ar y pryd, yn cefnogi'r newid.<sup>95</sup>

---

<sup>94</sup> Paragraff 502(b).

<sup>95</sup> Gweler Anecs B i 'Senior President of Tribunals: Third Implementation Review' (Gorff. 2009) gan yr Arglwydd Ustus Carnwath fel yr oedd ar y pryd (Arglwydd Carnwath bellach).

196. Mae'r Llywodraeth yn ystyried a allai fod manteision i ymestyn i gynnwys yr Uwch Dribiwnlys, y Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth a'r Comisiwn Apeliadau Mewnfudo Arbennig; mae apeliadau o'r rhain yn cael eu hystyried gan y Llys Apêl ar hyn o bryd.
197. Cyrff barnwrol arbenigol yw tribiwnlysoedd, sy'n penderfynu anghydfodau mewn meysydd arbennig o'r gyfraith. Pan basiwyd Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, crewyd dau Dribiwnlys newydd (y Tribiwnlys Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys), sydd wedi eu rhannu'n nifer o siambrau. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodaethau tribiwnlys yn eistedd o fewn y strwythur unedig (mae'r Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth, sydd ag awdurdodaeth ledled Prydain, yn eistedd y tu allan i'r strwythur unedig ond mewn strwythur dwy-haen tebyg gyda'r Tribiwnlys Cyflogaeth). Mae'r Uwch Dribiwnlys yn penderfynu apeliadau ar bwyntiau o gyfraith o'r Tribiwnlys Haen Gyntaf ac, mewn rhai amgylchiadau, adolygiadau barnwrol. Mae gan yr Uwch Dribiwnlys awdurdodaeth ledled y DU a gellir apelio yn erbyn ei benderfyniadau i'r llys apêl mwyaf priodol - byddai achos yn ymwneud â Chymru a Lloegr yn cael ei apelio i'r Llys Apêl.<sup>96</sup>
198. Mae'r Uwch Dribiwnlys yn cynnwys y pedair siambr ganlynol. Mae ystod eang o achosion yn cael eu gwrandio ym mhob siambr, gan gynnwys:
- Yr Uwch Dribiwnlys (Apeliadau Gweinyddol) sy'n ystyried (ymhlith eraill) apeliadau o'r Siambr Reoleiddio Gyffredinol (haen gyntaf) a'r Siambr Hawliau Cymdeithasol (haen gyntaf hefyd). Yn y lle cyntaf mae'n ystyried ceisiadau penodol am adolygiad barnwrol ac achosion fforffedu a diogelu pobl agored i niwed;
  - Mae'r Uwch Dribiwnlys (Treth a Siawnsri) yn gwrandio apeliadau o'r Siambr Dreth (haen gyntaf). Yn y lle cyntaf mae'n ystyried ceisiadau penodol am adolygiad barnwrol ac yn gwrandio achosion a gyfeiriwyd o benderfyniadau a wnaed gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol a'r Rheoleiddiwr Pensiynau;
  - Yr Uwch Dribiwnlys (Mewnfudo a Lloches) sy'n ystyried apeliadau yn erbyn penderfyniadau a wnaed gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Mewnfudo a Lloches); a
  - Yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Tir) sy'n ystyried apeliadau o'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambr Eiddo). Yn y lle cyntaf mae'n penderfynu anghydfodau penodol yn ymwneud â thir, cwestiynau prisio'n benodol (e.e. prisio ar gyfer prynu gorfodol).
199. Mae'r Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth yn gwrandio apeliadau ar bwyntiau o gyfraith o'r Tribiwnlys Cyflogaeth.<sup>97</sup> Ni fydd fel rheol yn ail-archwilio materion o ffaith. Nodir pwerau'r Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth yn Rhan II Deddf Tribiwnlysoedd Cyflogaeth 1996 ac yn Rheolau Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth 1993.
200. Crewyd y Comisiwn Apeliadau Mewnfudo Arbennig gan Ddeddf Apeliadau Mewnfudo Arbennig 1997 ac mae ganddo awdurdodaeth ledled y DU. Mae'n delio ag apeliadau yn erbyn penderfyniadau a wnaed gan y Swyddfa Gartref i alltudio neu eithrio rhywun o'r DU ar sail diogelwch y wlad neu am resymau eraill yn ymwneud â lles y cyhoedd. Mae hefyd yn gwrandio apeliadau yn erbyn penderfyniadau i dynnu statws dinasyddiaeth oddi ar rywun.

<sup>96</sup> Neu, yn yr Alban, y Llys Sesiwn.

<sup>97</sup> Mae hefyd yn ystyried apeliadau gan a cheisiadau'n ymwneud â phenderfyniadau a wnaed gan y Swyddog Ardystio (sydd â swyddogaethau statudol yng nghyswllt undebau llafur, fel a nodir yn Neddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cyfuno) 1992) a'r Pwyllgor Cyflafareddu Canolog (sy'n barnu ceisiadau'n ymwneud â chydabod undebau llafur). Pur anaml y mae'r rhain yn digwydd..

201. Mae pob un o'r tribiwnlysoedd hyn yn ystyried achosion pwysig. Mae hawl apêl ar bwynt o gyfraith yn erbyn eu penderfyniadau i lys apêl priodol (yng Nghymru a Lloegr, y Llys Apêl fyddai hwn). Byddai apelio wedyn o'r Llys Apêl yn digwydd, gyda chaniatâd, i'r Goruchaf Lys.

#### **Cwestiynau**

**Cwestiwn 39: A ddylai apeliadau o'r Comisiwn Apeliadau Mewnfudo Arbennig, y Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth ac o'r Uwch Dribiwnlys fod yn gallu neidio i'r Goruchaf Lys?**

**Cwestiwn 40: A ddylent fod yn destun yr un meini prawf (fel a ddiwygiwyd gan y cynigion uchod) ag apeliadau o'r Uchel Lys? A oes unrhyw feini prawf eraill y dylid eu cymhwyso i'r achosion hyn?**

202. O dan adran 12 Deddf 1969, gall unrhyw achos sifil yn yr Uchel Lys neidio ar yr amod bod gofynion penodol eraill yn cael eu cwrdd. Mae'r Llywodraeth o'r fath bod y rhesymeg dros yr opsiynau uchod yr un mor gymwys i achosion sifil di-adolygiad barnwrol ag i achosion adolygiad barnwrol. O ganlyniad, nid yw'r Llywodraeth yn cynnig cyfyngu ei diwygiadau i adolygiad barnwrol.

#### **Cwestiwn**

**Cwestiwn 41: Os yw'r Llywodraeth yn gweithredu unrhyw un o'r opsiynau ar gyfer diwygio apeliadau neidio, a ddylid cymhwyso'r newidiadau hynny i bob achos sifil?**

## 9. Asesiad o Effaith ac Effeithiau ar Gydraddoldeb

### Asesiad o Effaith

203. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi Asesiad o Effaith i gyd-fynd â'r cynigion hyn yn nodi eu heffeithiau tybiedig pe byddent yn cael eu gweithredu.
204. Bydd y Llywodraeth yn ystyried yr ymatebion i'r cwestiynau a ofynnir yn y papur hwn, a bwriadwn gyhoeddi ymateb y Llywodraeth yn nodi'r diwygiadau hynny y bydd yn bwriadu eu gweithredu. Ar y pwynt hwnnw, mae'r Llywodraeth hefyd yn bwriadu cyhoeddi Asesiad o Effaith diwygiedig, yn nodi effeithiau tybiedig diwygiedig er mwyn ystyried unrhyw newidiadau polisi a gwybodaeth well am yr effeithiau tybiedig.

### Cwestiynau

#### **Cwestiwn 42: A ydych yn cytuno gyda'r effeithiau tybiedig a nodir yn yr Asesiad o Effaith?**

#### **Byddai gan y Llywodraeth ddiddordeb arbennig mewn deall yr effaith y gallai'r cynigion ei gael ar Fusnesau Bach a Chanolig a Busnesau Meicro.**

### Effeithiau ar Gydraddoldeb

205. O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010<sup>98</sup>, mae gan awdurdodau cyhoeddus ddyletswydd barhaus i ystyried yr angen i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl gyda a phobl heb nodweddion a warchodir. Fel rhan o'r rheidrwydd hwn, mae'r Llywodraeth wedi cyflawni asesiad cychwynnol o effaith dybiedig y cynigion hyn ar bobl gyda nodweddion a warchodir.
206. Mae hyrwyddo twf ac adferiad yr economi'n un o amcanion allweddol y cynigion diwygio hyn. Mae'r Llywodraeth yn credu y bydd y cynigion yn helpu i leihau oedi a chwynnu achosion gwan. Felly maent yn debygol o fod o beth budd i fusnesau ac i rai gyda busnesau sy'n cael eu herio.
207. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn cydnabod nad yw'n casglu gwybodaeth gynhwysfawr am ddefnyddwyr llys yn gyffredinol, ac yn benodol rhai sy'n rhan o achosion adolygiad barnwrol, yng nghyswllt nodweddion a warchodir. Mae hyn yn cyfyngu ar ddealltwriaeth y Llywodraeth o effeithiau posibl y cynigion diwygio ar gydraddoldeb.

---

<sup>98</sup> Mae'r dyletswydd cydraddoldeb cyffredinol yn ymwneud â'r nodweddion a warchodir canlynol: oed (gan gynnwys plant a phobl ifanc), anabledd, aibennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a thueddiad rhywiol. Mae hefyd angen i awdurdodau cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon yn erbyn rhywun oherwydd eu statws priodasol neu bartneriaeth sifil. Mae hyn yn golygu bod nod cyntaf y dyletswydd cydraddoldeb cyffredinol yn ymwneud â'r nodwedd hon, ond nid yw'r ddau nod arall. Mae hyn yn berthnasol yng nghyswllt gwaith yn unig, nid i unrhyw ran arall o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.



208. Mae'r Llywodraeth hefyd yn cydnabod mai prin iawn yw'r wybodaeth a gasglwyd am ganlyniad yr adolygiadau barnwrol hynny gafodd eu dwyn ar seiliau i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'n chwilio am fwy o wybodaeth, drwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a thrwy'r monitro a roddwyd yn ei le'n dilyn y diwygiadau blaenorol i adolygiad barnwrol, er mwyn llenwi'r bwch hwn ac i benderfynu a yw'r newidiadau arfaethedig yn debygol o gael effaith neilltuol ar adolygiadau barnwrol sy'n cael eu dwyn ar y seiliau hyn.
209. Fodd bynnag, oherwydd bod y mwyafrif o adolygiadau barnwrol yn ymwneud â materion mewnfudo a lloches, mae'n rhesymol felly tybio bod gan y cynigion hyn botensial i gael effaith wahaniaethol (andwyol) ar nodweddion hil a chrefydd / cred. Gallent hefyd gael effeithiau gwahaniaethol eraill ar grwpiau a warchodir, er enghraifft os na fyddai cyrff anllywodraethol yn gallu dwyn heriau mewn rhai sefyllfaoedd a allai effeithio ar bobl gyda nodweddion a warchodir a fyddai wedi elwa o'r heriau hynny.

### Y Cynnig Cymorth Cyfreithiol: Adolygiad Barnwrol

210. Cyflwynodd y Llywodraeth ein dadansoddiad cychwynnol gan holi barn am effaith ein cynigion ar gydraddoldeb yn yr ymgynghoriad *Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol*<sup>99</sup>. Cododd yr ymatebwyr nifer o faterion cysylltiedig â chydaddoldeb ynghylch y cynnig gwreiddiol y dylid ond talu darparwyr am waith wedi'i wneud ar gais am ganiatâd pe bai caniatâd yn cael ei roi gan y llys. Rhoddir crynodeb llawn o'r materion a godwyd gan yr ymatebwyr, gan gynnwys yng nghyswllt cydraddoldeb, yn yr ymateb i'r ymgynghoriad hwn.<sup>100</sup> Y prif bwyntiau a godwyd oedd y byddai effaith y cynnig (yn enwedig o'i gyfuno gyda rhai o'r cynigion eraill yn yr ymgynghoriad hwnnw) yn ei gwneud yn anodd iawn i bobl gyda nodweddion a warchodir gael gafael ar gymorth cyfreithiol i ddwyn adolygiad barnwrol yn erbyn y wladwriaeth. Y ddadl oedd, pe bai darparwyr yn llai parod i dderbyn achosion adolygiad barnwrol gyda chymorth cyfreithiol, y byddai hyn yn effeithio'n arbennig ar bobl agored i niwed sy'n fwy tebygol o fod â nodwedd a warchodir. Mae bosibl y byddai darparwyr yn llai parod fyth i weithredu ar eu menter eu hunain lle oedd problemau cyfathrebu gyda'r cleient yn ei gwneud yn anodd darogan y canlyniad; byddai hyn yn effeithio ar bobl anabl a phlant yn enwedig (sydd hefyd yn llai abl i ymglyfreitha eu hunain). Codwyd pryderon hefyd ynghylch yr effaith ar y bar iau a fyddai, yn ôl y ddadl, yn effeithio'n anghymesur ar ferched a grwpiau BAME.
211. Mae'r Llywodraeth am holi ymhellach ynghylch effeithiau'r cynnig diwygiedig ar gydraddoldeb lle na fyddai achosion wedi eu cychwyn yn derbyn cymorth cyfreithiol oni bai y cawsant yna ganiatâd, ac yn destun taliadau disgresiynol mewn rhai achosion sy'n dod i ben cyn y penderfyniad i'w caniatáu heb orchymyn na chytundeb costau. Mae'r Llywodraeth yn gwahodd ymgynghoreion i ystyried yn enwedig beth fyddai effaith taliadau disgresiynol ar eu hymateb cychwynnol ynghylch yr effaith ar gydraddoldeb. Diben y cynnig yn yr ymgynghoriad hwn yw cynnig y posibilrwydd o dalu yn yr achosion teilwng hynny sy'n dod i ben cyn penderfynu eu caniatáu. Mae'r Llywodraeth yn ystyried y gellid talu, er enghraifft, lle mae darparwr yn setlo achos yn erbyn awdurdod lleol ar ran cleient anabl neu berson ifanc yng nghyswllt gofal neu dai ac yn sicrhau'r budd clir oedd mewn golwg gan y cleient, ond lle na fedrant

<sup>99</sup> <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/transforming-legal-aid> (Anecs K)

<sup>100</sup> <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/transforming-legal-aid>

gytuno ar gostau er ymdrechion i wneud hynny. Barn gychwynnol y Llywodraeth felly yw bod y cynnig diwygiedig yn lliniaru llawer o'r pryderon a godir gan yr ymgynghoreion yn yr ymgynghoriad gwreiddiol, ynghylch cleientiaid agored i niwed gydag achosion teilwng.

## **Tystiolaeth**

212. I helpu'r Llywodraeth i gyflawni ei dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, byddem yn croesawu gwybodaeth a barn i'n helpu i ddeall yn well yr effaith y gallai pob un o'r diwygiadau arfaethedig yn yr ymgynghoriad hwn ei chael ar gydraddoldeb.

## **Cwestiynau**

**Cwestiwn 43: O'ch profiad chi, a oes unrhyw grwpiau o unigolion gyda nodweddion a warchodir y gallai'r cynigion yn y papur ymgynghori hwn effeithio'n arbennig arnynt, naill ai er gwell neu er gwaeth?**

**Byddai'r Llywodraeth yn croesawu enghreifftiau, astudiaethau achos, ymchwil neu unrhyw dystiolaeth arall i gefnogi eich barn. Mae gan y Llywodraeth ddiddordeb arbennig mewn dystiolaeth sy'n dweud mwy wrthym am ymgeiswyr am adolygiad barnwrol a'u nodweddion a warchod, a hefyd ar ba seiliau y cafodd eu hawliadau eu dwyn.**

## 10. Crynodeb o'r Cwestiynau

Byddai'r Llywodraeth yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol a ofynnir yn y papur ymgynghori hwn.

### Cynllunio

#### Symleiddio heriau cynllunio

Cwestiwn 1: A ydych yn rhagweld manteision i greu Siambr Tir a Chynllunio arbenigol sy'n fwy na'r rhai y disgwylir eu gweld o'r Cynllunio Carlam?

Cwestiwn 2: Os credwch fod angen Siambr Tir a Chynllunio newydd, pa ofynion gweithdrefnol fyddai'n hwyluso ei rhedeg a pha fathau eraill o achosion (caniatadau amgylcheddol cysylltiedig, er enghraifft) allai'r Siambr newydd eu gwranddo?

Cwestiwn 3: A oes achos dros gyflwyno 'chwynnwr' caniatâd ar gyfer heriau statudol o dan y Ddeddf Gynllunio Gwlad a Thref?

Cwestiwn 4: A oes gennych unrhyw enghreifftiau / tystiolaeth o'r effaith y mae adolygiad barnwrol, neu her statudol i benderfyniadau gan lywodraeth, yn ei chael ar ddatblygiad, gan gynnwys seilwaith?

Cwestiwn 5: Yn fwy cyffredinol, a oes unrhyw awgrymiadau yr hoffech eu gwneud i gyflymu gweithrediad y prosesau adolygiad barnwrol neu herio statudol yng nghyswllt datblygiad, gan gynnwys seilwaith?

#### Awdurdodau Lleol yn Herio Prosiectau Seilwaith

Cwestiwn 6: A ddylid cyfyngu ymhellach ar hawliau awdurdodau lleol i herio penderfyniadau ar brosiectau seilwaith cenedlaethol bwysig?

Cwestiwn 7: A oes gennych unrhyw dystiolaeth neu enghreifftiau o achosion wedi eu dwyn gan awdurdodau lleol ac effaith hyn (e.e. cost neu oedi)?

#### Heriau i benderfyniadau cynllunio o dan adrannau 288 a 289 Deddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990

Cwestiwn 8: A oes gennych farn ynghylch a ddylai cymorth cyfreithiol wedi'i ariannu gan y trethdalwr barhau i fod ar gael i herio penderfyniadau cynllunio'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 288 a 289 Deddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990 lle apelwyd yn barod i'r Ysgrifennydd Gwladol neu lle mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud penderfyniad ar gais a alwyd i mewn (ac eithrio lle byddai methu ag ariannu her o'r fath yn arwain at fethu neu risg o fethu â chynnal hawl y ceisydd i dderbyn cymorth cyfreithiol o dan yr ECHR neu'r UE)?

## Cymhwyster

Cwestiwn 9: Yn eich barn chi, a oes problem gyda dwyn achosion lle nad oes gan yr hawlydd fawr ddim neu ddim budd uniongyrchol o gwbl yn y mater? A oes gennych unrhyw enghreifftiau?

Cwestiwn 10: Pe bai'r Llywodraeth yn deddfu i ddiwygio'r prawf cymhwyster, a fyddai unrhyw un o'r opsiynau eraill presennol yn darparu sail resymol? A ddylai'r Llywodraeth ystyried opsiynau eraill?

Cwestiwn 11: A oes unrhyw faterion eraill, fel y rheolau ar bartion sy'n ymyrryd, y dylem eu hystyried wrth geisio datrys y broblem o ddefnyddio adolygiad barnwrol fel offeryn ymgyrchu?

## Diffygion Gweithdrefn

### Opsiwn 1 – Cyflwyno ystyriaeth yn gynt

Cwestiwn 12: A ddylid cyflwyno'r ystyriaeth o'r ddadl "dim gwahaniaeth" yn gynt fel rhan o'r cam caniatâd ar sail yr hyn a honnir gan y diffynnydd ar y ffurflen Cydnabod Cyflwyno?

Cwestiwn 13: Sut allai'r Llywodraeth liniaru'r risg bod ystyried y ddadl "dim gwahaniaeth" yn troi'n rihysal llawn ar gyfer y gwrandawriad terfynol, ac felly'n ychwanegu at gost yr achos llys?

### Opsiwn 2 – Cymhwyso prawf is

Cwestiwn 14: A ddylid newid y trothwy ar gyfer asesu a ddylid gwrthod achos sy'n seiliedig ar ddiffyg gweithdrefn i fod yn "debygol iawn" y byddai'r canlyniad wedi bod yr un fath? A oes prawf arall a allai gyflawni'r canlyniad y dymunir ei gael yn well?

Cwestiwn 15: A oes mesurau eraill y gallai'r Llywodraeth eu cymryd i leihau effaith adolygiadau barnwrol sy'n cael eu dwyn dim ond ar sail diffygion gweithdrefn?

Cwestiwn 16: A oes gennych unrhyw dystiolaeth neu enghreifftiau o achosion yn cael eu dwyn ar sail diffyg gweithdrefn yn unig, ac effaith yr achosion hyn (e.e. cost neu oedi)?

## Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus & Adolygiad Barnwrol

Cwestiwn 17: A allwch awgrymu unrhyw dulliau eraill o ddatrys anghydfodau sy'n gysylltiedig â'r PSED a fyddai'n gynt a mwy cost-efeithiol nag adolygiad barnwrol? Eglurwch sut allai'r rhain weithio'n ymarferol.

Cwestiwn 18: A oes gennych unrhyw dystiolaeth o faint a natur yr heriau sy'n gysylltiedig â'r PSED? Os oes, a fydddech gystal â'i darparu?

## Cydbwysu Cymhellion Ariannol

### Talu am waith caniatâd mewn achosion adolygiad barnwrol

Cwestiwn 19: A ydych yn cytuno y dylid ond talu darparwr am y gwaith a wneir ganddynt ar gais am adolygiad barnwrol mewn achosion naill ai lle rhoddir caniatâd, neu lle mae'r LAA yn ymarfer ei disgresiwn i dalu'r darparwr mewn achos sydd wedi'i gychwyn ond lle daw'r achos i ben cyn y penderfyniad i'w ganiatáu? Rhowch resymau.

Cwestiwn 20: A ydych yn cytuno gyda'r meini prawf y byddai'r LAA yn eu defnyddio i ymarfer ei disgresiwn? Rhowch resymau.

### **Costau gwrandawriadau caniatâd llafar**

Cwestiwn 21: A ddylai'r llysoedd ystyried dyfarnu costau gwrandawriad caniatâd llafar fel mater o gwrs yn hytrach na dim ond mewn amgylchiadau eithriadol?

### **Gorchmynion Costau a Wastraffwyd**

Cwestiwn 22: Sut fyddai modd newid y dull o wneud gorchmynion costau a wastraffwyd fel eu bod yn cael eu hystyried ar gyfer ystod ehangach o ymddygiad? Beth yn eich barn chi fyddai prawf priodol ar gyfer gwneud gorchymyn costau a wastraffwyd yn erbyn cynrychiolydd cyfreithiol?

Cwestiwn 23: Sut fyddai'n bosibl symleiddio'r broses o wneud gorchymyn costau a wastraffwyd?

Cwestiwn 24: A ddylid codi ffi i gwrdd â chost unrhyw wrandawriad llafar ar gyfer gorchymyn costau a wastraffwyd, ac a ddylai'r ffi honno ddibynnu ar y cais yn llwyddo?

Cwestiwn 25: Pa sgôp sydd i gymhwyso unrhyw newid a wneir i orchmynion costau a wastraffwyd i fathau eraill o achosion ar wahân i adolygiadau barnwrol? Rhowch fanylion am unrhyw broblemau ymarferol a allai godi.

### **Gorchmynion Gwarchod Costau**

Cwestiwn 26: Beth yw eich barn ynghylch a fyddai'n briodol amodi na fydd Gorchmynion PCO ar gael mewn unrhyw achos lle mae budd preifat neu unigol, p'un ai yw'r achos er lles ehangach y cyhoedd neu beidio?

Cwestiwn 27: Sut fyddai modd addasu'r egwyddorion ar gyfer gwneud Gorchymyn PCO i sicrhau cydbwysedd gwell a) rhwng y partïon yn yr achos, a b) rhwng rhoi mynediad i'r llysoedd a buddiannau'r trethdalwr?

Cwestiwn 28: Beth yw eich barn am y cynigion i roi mwy o eglurder ynghylch pwy sy'n ariannu'r achos wrth ystyried gwneud PCO?

Cwestiwn 29: A ddylai fod rhagdybiaeth bod y llys yn ystyried croes-gap yn gwarchod atebolrwydd y diffynnydd i dalu costau wrth wneud PCO o blaid yr hawlydd? A oes unrhyw amgylchiadau lle na fyddai'n briodol capio atebolrwydd costau'r diffynnydd?

Cwestiwn 30: A ddylid pennu uchafsymiau penodol ar groes-gap i'r hawlydd ac i'r diffynnydd? Os felly, faint fyddai swm addas?

### **Costau'n codi o rôl trydydd partïon sy'n ymyrryd a phartïon allanol**

Cwestiwn 31: A ddylai trydydd partïon sy'n dewis ymyrryd mewn hawliadau adolygiad barnwrol fod yn gyfrifol mewn egwyddor am eu costau cyfreithiol eu hunain, fel na ddylent fel rheol fod yn gallu hawlio'r costau hynny naill ai gan yr hawlydd neu'r diffynnydd?

Cwestiwn 32: A ddylai trydydd partïon sy'n dewis ymyrryd mewn hawliadau barnwrol ac sy'n achosi costau ychwanegol sylweddol i'r partïon presennol fod yn gyfrifol fel arfer am y costau ychwanegol hynny?

Cwestiwn 33: A ddylai fod yn ofynnol i hawlwr ddarparu gwybodaeth am sut mae eu hachos yn cael ei ariannu? A ddylai'r llysoedd gael mwy o bwerau i ddyfarnu costau yn erbyn grwpiau allanol? A ydych yn gweld unrhyw drafferthion ymarferol gyda hyn, a sut fyddai modd datrys y trafferthion hynny?

Cwestiwn 34: A oes gennych unrhyw dystiolaeth neu enghreifftiau o orchmynion costau'n cael eu defnyddio, gan gynnwys PCO, gorchmynion costau a wastraffwyd, a chostau yn erbyn trydydd partion a phartion sy'n ymyrryd?

## **Neidio**

### **Opsiwn 1 – Ymestyn yr Amgylchiadau Perthnasol**

Cwestiwn 35: A ydych yn meddwl ei bod yn briodol ychwanegu at y meini prawf ar gyfer neidio fel bod apeliadau sydd o bwysigrwydd cenedlaethol, neu sy'n codi materion pwysig (er enghraifft alltudio person sy'n cyflwyno risg o ddiogelwch cenedlaethol, prosiect seilwaith cenedlaethol bwysig, neu achos lle byddai'r canlyniad yn effeithio ar nifer fawr o bobl) yn cael eu cyflymu?

Cwestiwn 36: A oes mathau eraill o achosion lle dylid cymhwyso trefniadau neidio ar eu cyfer?

### **Opsiwn 2 - Caniatâd**

Cwestiwn 37: A ddylid dileu'r gofyniad bod yr holl bartion yn caniatáu i gais i neidio?

Cwestiwn 38: A oes unrhyw risgiau i'r dull hwn, a sut fyddai modd eu lliniaru?

### **Opsiwn 3: Ymestyn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd lle gellid cychwyn apêl i neidio**

Cwestiwn 39: A ddylai apeliadau o'r Comisiwn Apeliadau Mewnfudo Arbennig, y Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth ac o'r Uwch Dribiwnlys fod yn gallu neidio i'r Goruchaf Lys?

Cwestiwn 40: A ddylent fod yn destun yr un meini prawf (fel a ddiwygiwyd gan y cynigion uchod) ag apeliadau o'r Uchel Lys? A oes unrhyw feini prawf eraill y dylid eu cymhwyso i'r achosion hyn?

Cwestiwn 41: Os yw'r Llywodraeth yn gweithredu unrhyw un o'r opsiynau ar gyfer diwygio apeliadau neidio, a ddylid cymhwyso'r newidiadau hynny i bob achos sifil?

## **Asesiad o Effaith ac Effeithiau ar Gydraddoldeb**

Cwestiwn 42: A ydych yn cytuno gyda'r effeithiau tybiedig a nodir yn yr Asesiad o Effaith?

Byddai gan y Llywodraeth ddiddordeb arbennig mewn deall yr effaith y gallai'r cynigion ei gael ar Fusnesau Bach a Chanolig a Busnesau Meicro.

Cwestiwn 43: O'ch profiad chi, a oes unrhyw grwpiau o unigolion gyda nodweddion a warchodir y gallai'r cynigion yn y papur ymgynghori hwn effeithio'n arbennig arnynt, naill ai er gwell neu er gwaeth?

Byddai'r Llywodraeth yn croesawu enghreifftiau, astudiaethau achos, ymchwil neu unrhyw dystiolaeth arall i gefnogi eich barn. Mae gan y Llywodraeth ddiddordeb arbennig mewn

tystiolaeth sy'n dweud mwy wrthym am ymgeiswyr am adolygiad barnwrol a'u nodweddion a warchod, a hefyd ar ba seiliau y cafodd eu hawliadau eu dwyn.

**Diolch ichi am gymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori hwn.**

## Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch eich hun.

<b>Enw Llawn</b>	
<b>Teitl eich swydd</b> neu ym mha gapasiti yr ydych yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn (e.e. fel aelod o'r cyhoedd, ayb)	
<b>Dyddiad</b>	
<b>Enw'r cwmni / sefydliad</b> (lle bo'n berthnasol)	
<b>Cyfeiriad</b>	
<b>Cod Post</b>	
Os hoffech i ni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn.	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)
Cyfeiriad y dylid anfon unrhyw gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r cyfeiriad uchod.	

**Os ydych yn cynrychioli grŵp**, cofiwch ddweud wrthym beth yw enw'r grŵp a rhowch grynodeb o'r bobl neu'r sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

---



---



---



---



## Manylion cyswllt / Sut i ymateb

Dylech anfon eich ymateb erbyn canol nos 1 Tachwedd 2013, at:

**Ymgynghoriad Adolygiad Barnwrol**  
**Y Weinyddiaeth Gyfiawnder**  
**Cyfiawnder Gweinyddol**  
**4<sup>th</sup> Floor Postal Point 4.38**  
**102 Petty France**  
**Llundain SW1H 9AJ**

**Ffôn: 0203 334 4386/5610**

**E-bost: [admin.justice@justice.gsi.gov.uk](mailto:admin.justice@justice.gsi.gov.uk)**

### Cwynion neu Sylwadau

Os oes gennych unrhyw gŵyn neu sylw am broses yr ymgynghoriad, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

### Copiau Ychwanegol

Mae copiau papur ychwanegol o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn a hefyd ar-lein yn <http://www.justice.gov.uk/index.htm>.

Gallwch ofyn am fformatau eraill o'r cyhoeddiad hwn drwy e-bostio [admin.justice@justice.gsi.gov.uk](mailto:admin.justice@justice.gsi.gov.uk) neu ffonio 0203 334 4386

### Cyhoeddi'r Ymateb

Bydd papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi yn Ionawr 2014. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn <http://www.justice.gov.uk/index.htm>.

### Grwpiau Cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol, wrth ymateb, roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli.

### Cyfrinachedd

Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei chyhoeddi neu ei datgelu'n unol â deddfwriaeth mynediad at wybodaeth (yn bennaf, y rhain yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i ni drin eich gwybodaeth yn gyfrinachol, cofiwch, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod yna God Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio â fo ac sy'n ymwneud, ymhlith pethau eraill, ag ymrwymadau cyfrinachedd. O gofio hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech egluro i ni pam eich bod yn ystyried y wybodaeth a roesoch inni fel gwybodaeth gyfrinachol. Os derbyniwn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd ichi y gallwn gadw'r cyfrinachedd hwnnw bob tro. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried i fod yn rhwymo'r Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data ac, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i drydydd partïon.

## Egwyddorion Ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyirff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu gyda rhanddeiliaid, wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth, wedi eu nodi yn yr egwyddorion ymgynghori.

<http://www.cabinetoffice.gov.uk/sites/default/files/resources/Consultation-Principles.pdf>







Cyhoeddwyd gan y TSO (Y Llyfrfa) ac ar gael oddi wrth:

**Ar-lein**

[www.tsoshop.co.uk](http://www.tsoshop.co.uk)

**Drwy'r post, dros y ffôn, ffacs ac e-bost**

TSO

PO Box 29, Norwich NR3 1GN

Archebion ffôn / ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522

Gellir archebu drwy ffonio'r Llinell Cost Isel Seneddol ar 0845 7023474

Archebion ffacs: 0870 600 5533

E-bost: [customer.services@tso.co.uk](mailto:customer.services@tso.co.uk)

Ffôn testun: 0870 240 3701

**Siop Tai'r Senedd**

12 Bridge Street, Parliament Square,

Llundain SW1A 2JX

Archebion ffôn / ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890

Archebion ffacs: 020 7219 3866

E-bost: [shop@parliament.uk](mailto:shop@parliament.uk)

Ar y we: <http://www.shop.parliament.uk>

**TSO@Blackwell ac asiantau achrededig eraill**

ISBN 978-0-10-187032-0



9 780101 870320